# Canllaw i'r Gwasanaethau Addysg 2022

Cyngor
Sir y Fflint
Flintshire
County Council

Diben y wybodaeth yn y Canllaw hwn yw eich helpu i ddeall y trefniadau ar gyfer derbyn plant i ysgolion yn Sir y Fflint. Mae'n esbonio eich hawliau a'ch cyfrifoldebau a bydd yn ateb llawer o'ch cwestiynau.

Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ar adeg ei chyhoeddi, fe allai fod newidiadau i'r manylion neu'r gweithdrefnau a amlinellir. O ganlyniad i'r cynllun Moderneiddio Ysgolion, mae'n bosibl y bydd y lleoedd sydd ar gael a'r Niferoedd Derbyn mewn rhai ysgolion yn newid.

Os oes unrhyw beth yn y Canllaw hwn sy'n aneglur, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, mae croeso i chi gysylltu â'r canlynol:-

| | |
|---|---|
| **Ymholiadau Derbyniadau** | **01352 704068/704073**<br>**admissions@flintshire.gov.uk** |
| **Cludiant Ysgol** | **01352 704532**<br>**school.transport@flintshire.gov.uk** |
| **Cinio Ysgol am Ddim, grantiau gwisg ysgol** | **benefits@flintshire.gov.uk** |
| **Uwch Reolwr Cynhwysiant a Dilyniant** | **01352 704017** |

Mae'r Canllaw hwn hefyd ar gael ar-lein yn **www.siryfflint.gov.uk/DerbynDisgyblionYsgolion**

**Cyhoeddwyd ar 1 Medi 2021**
**Tîm Derbyniadau, Addysg ac Ieuenctid, Cyngor Sir y Fflint, Tŷ Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3XT**

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Amserlen Derbyniadau 2021/22** | **4** |
| **Ceisiadau Hwyr** | **3** |
| **Y broses o gynnig lle mewn ysgol** | **5** |
| **Ysgolion Ffydd Gwirfoddol a Gynorthwyir ac Ysgolion Sefydledig** | **5** |
| **Polisi Derbyniadau i Ysgolion** | **5** |
| **Polisi Iaith Gymraeg pob ysgol** | **6** |
| **Cyfnodau Derbyn** | **6** |
| **Meini Prawf Gordanysgrifio** | **7** |
| **Gwneud y Penderfyniad** | **8** |
| **Diffiniadau** | **8** |
| **Derbyniadau i ysgolion heblaw ysgolion ALl** | **9** |
| **Rhestrau Aros** | **10** |
| **Derbyn Disgyblion o'r tu allan i Sir y Fflint** | **10** |
| **Newid Ysgol o fewn Sir y Fflint yn ystod y flwyddyn** | **10** |
| **Derbyniadau ar adegau heblaw mis Medi bob blwyddyn** | **10** |
| **Gweithdrefn Apelio** | **10** |
| **Darpariaeth ar gyfer Plant ag Anghenion Arbennig a Derbyn i Ysgolion Arbennig** | **11** |
| **Polisïau derbyniadau ysgolion sefydledig ac enwadol** | **11** |
| **Cymorth Ariannol** | **60** |
| **Cinio Ysgol am Ddim, Llaeth am Ddim** | **60** |
| **Polisi Codi Tâl a Rhyddhau Rhag Talu** | **60** |
| **Cyfrifoldeb Rhiant** | **61** |
| **Polisi Cludiant** | **62** |
| **Y Cwricwlwm Cenedlaethol** | **65** |
| **Cyfleoedd Cyfartal** | **65** |
| **Disgyblu a Gwahardd** | **66** |
| **Gweithdrefnau Cwynion** | **66** |
| **Tiwtora yn y cartref, dyddiad gadael yr ysgol a gwyliau teulu yn ystod y tymor** | **66** |

**Amserlen Derbyniadau 2021/22**

| Cyfnod derbyn disgyblion | Ffurflenni derbyn disgyblion ar gael i'r rhieni yn yr wythnos yn dechrau: | Cyfnod i'r rhieni ystyried: | Dyddiad cau ar gyfer llenwi a dychwelyd ffurflenni: | Cyfnod pan fydd yr ALl/awdurdod derbyn yn dyrannu lleoedd: | Rhoi gwybod i rieni ("Diwrnod Cynnig") |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uwchradd** | 06/09/21 | 06/09/21-05/11/21 | 05/11/21 | 08/11/21-07/01/22 | 01/03/22 |
| **Derbyn** | 27/09/21 | 27/09/21-19/11/21 | 19/11/21 | 22/11/21 2502/22 | 19/04/22 |
| **Meithrin** | 27/09/21 | 27/09/1 18/02/22 | 18/02/22 | 21/02/22-25/03/22 | 06/05/22 |

Mae'n rhaid dychwelyd ffurflenni cais i'r Awdurdod Lleol erbyn y dyddiad cau. Mae'n bosibl y bydd llai o gyfle i'ch plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol fyddai orau gennych os derbynnir eich ffurflen gais ar ôl y dyddiad cau. Ni fydd ceisiadau hwyr a dderbynnir ar ddiwedd y cyfnod dyrannu yn cael eu prosesu tan ar ôl y 'dyddiad cynnig'.

**1. Sut i wneud cais**

Mae'n ofynnol gwneud trefniadau sy'n galluogi rhieni i ddweud pa ysgol fyddai orau ganddynt i'w plentyn/plant ei mynychu. Yn ôl y gyfraith, bydd plant rhieni sy'n nodi pa ysgol y byddai orau ganddynt i'w plentyn/plant ei mynychu yn cael blaenoriaeth dros blant y rhai nad ydynt nodi eu hoffter. Yn achos derbyniadau i chweched dosbarth gall rhiant neu unigolyn ifanc neu'r ddau fynegi eu hoffter a dylid gwneud hynny drwy gysylltu â'r ysgol dan sylw.

Gallwch gael ffurflenni cais yn unol â'r amserlen uchod ar wefan Cyngor Sir y Fflint (www.flintshire.gov.uk/schools/schooladmissions a hwn yw'r dull a ffefrir o wneud cais. Dylid defnyddio'r ffurflen hon os ydych yn byw yn Sir y Fflint ac yn dymuno nodi pa ysgol fyddai orau gennych yn Sir y Fflint NEU os yw eich plentyn eisoes yn mynychu ysgol yn Sir y Fflint. Os ydych yn dymuno gwneud cais am ysgol yng Ngorllewin Swydd Gaer neu Gaer, mae'n rhaid i chi ddefnyddio eu ffurflen gais nhw gan na allwn brosesu ceisiadau ar gyfer ysgolion yn yr ardal honno. Cynghorir rhieni'n gryf i enwi mwy nag un ysgol. Dylid rhestru'r ysgolion yn nhrefn ffafriaeth. Byddwn yn cynnig lle yn y dewis uchaf y mae modd i ni ei ddiwallu. Ni fydd rhestru yr un ysgol sawl gwaith yn rhoi gwell siawns o gael cynnig yr ysgol honno.

**2. Awdurdodau Cyfagos**

Mae Sir y Fflint yn gweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol cyfagos er mwyn cydlynu trefniadau derbyn i ysgolion yng Nghymru. Bydd gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r awdurdod derbyniad priodol. Nodwch os gwelwch yn dda y gallai amserlenni Awdurdodau cyfagos fod yn wahanol i'r uchod. Os yw'r ysgol yr ydych yn dymuno ei nodi fel eich dewis cyntaf mewn Sir arall, cysylltwch â'r Awdurdod Lleol perthnasol er mwyn sicrhau nad ydych yn methu'r dyddiad cau

Cyngor Sir Ddinbych – admissions@denbighshire.gov.uk; Ffôn: 01824 706000
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – admissions@wrexham.gov.uk; Ffôn: 01978 298991
Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer* – admissions@cheshirewestandchester.gov.uk; Ffôn 0300 123 7039

* Os ydych yn dymuno gwneud cais am ysgol yng Ngorllewin Swydd Gaer a Chaer, mae'n rhaid i chi ddefnyddio eu ffurflen gais nhw gan na allwn brosesu ceisiadau ar gyfer ysgolion yn yr ardal honno.

**3. Ceisiadau Hwyr**

Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl ceisiadau sy'n cael eu derbyn erbyn y dyddiad cau. Os yw'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y ffurflen gais yn hwyr am resymau da, bydd yn cael ei hystyried gyda'r rhai a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau. Gyda phob ffurflen hwyr, rhaid darparu tystiolaeth ategol yn nodi'r rheswm.

Bydd yr holl geisiadau hwyr yn cael eu graddio yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio, a bydd unrhyw leoedd sydd ar gael yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr sydd uchaf ar y raddfa hyd ddiwedd y cyfnod

dyrannu. Bydd rhestr aros hefyd yn cael ei chynnal ar gyfer yr ysgol honno os bydd angen a bydd unrhyw le ddaw ar gael yn cael ei gynnig i'r ymgeisydd yn y safle uchaf ar y rhestr.

**4. Y broses o gynnig lle mewn ysgol**

Bydd pob plentyn yn cael ei dderbyn os nad yw'r Nifer Derbyn wedi ei gyrraedd. 'Nifer Derbyn' pob ysgol yw nifer y plant y gellir eu derbyn i bob grŵp blwyddyn yn ystod y flwyddyn ysgol. Caiff Nifer Derbyn pob ysgol ei gyfrifo trwy ddefnyddio'r dull asesu capasiti yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru, 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'. Mae Niferoedd Derbyn pob ysgol wedi eu cynnwys ar y 'Rhestr o Ysgolion' - www.flintshire.gov.uk/schooladmissions

Os bydd mwy o rieni'n enwi ysgol benodol fel un o'u dewisiadau cyntaf nag sydd o lefydd ar gael, a'r Nifer Derbyn wedi ei gyrraedd, bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio'r meini prawf gordanysgrifio er mwyn graddio ymgeiswyr i weld i bwy y gellir cynnig lle. Bydd yr holl ddewisiadau a fynegwyd yn cael eu hystyried ar sail gyfartal. Golyga hyn yn y lle cyntaf y bydd yr holl ddewisiadau'n cael eu hystyried yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio yn unig h.y. heb ystyried ym mha safle yr oedd yr ysgol yn rhestr ddewisiadau'r rhieni. Os gellir cynnig lle mewn mwy nag un o'r dewis ysgolion (oherwydd bod gan yr ysgol a ffefrir leoedd heb eu llenwi, neu oherwydd bod gan yr ymgeisydd flaenoriaeth digon uchel yng ngoleuni meini prawf ysgol sydd wedi'i gordanysgrifio, neu oherwydd bod ysgol wedi derbyn yr un nifer o geisiadau â nifer y llefydd sydd ar gael), cynigir lle yn yr ysgol a oedd uchaf ar restr dewisiadau'r rheini.

**Noder:**

**Ni fydd mynegi hoffter o ysgol benodol yn gwarantu lle yn yr ysgol honno os yw hi wedi'i gordanysgrifio. Os bydd mwy o rieni yn gwneud cais am lefydd yn yr ysgol nag sydd o lefydd ar gael, bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi'r meini prawf gordanysgrifio ar waith er mwyn clustnodi llefydd yn ôl y polisi.**

**5. Ysgolion Ffydd Gwirfoddol a Gynorthwyir ac Ysgolion Sefydledig**

Os byddwch enwi ysgol wirfoddol a gynorthwyir (Ysgol Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru) yn Sir y Fflint fel eich dewis cyntaf, bydd eich manylion yn cael eu hanfon at yr ysgol berthnasol. Efallai hefyd y bydd angen i chi lenwi Ffurflen Gwybodaeth Atodol sydd ar gael yn uniongyrchol o'r ysgol. Mae'r amserlen ar gyfer derbyniadau (uchod) yn berthnasol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig hefyd. Yr ysgolion fydd sy'n gyfrifol am ystyried cais eich plentyn ochr yn ochr â cheisiadau eraill a dderbynnir yn unol â'u meini prawf gordanysgrifio eu hunain. Dylai llywodraethwyr yr ysgol ddefnyddio meini prawf gordanysgrifio'r ysgol ei hun i roi ceisiadau yn eu trefn a chynnig llefydd. Bydd unrhyw geisiadau nad oes modd eu bodloni yn cael eu dychwelyd i'r awdurdod lleol a'u trin yn gyfartal â cheisiadau eraill i Ysgolion Cymunedol Sir y Fflint.

**6. Polisi Derbyniadau i Ysgolion**

Y Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Lleol, sy'n gyfrifol am bennu'r trefniadau ar gyfer derbyniadau i'r holl Ysgolion Cynradd Cymunedol, Ysgolion Cynradd Cymraeg, Ysgolion Uwchradd, Ysgolion Uwchradd Cymraeg, Ysgolion Arbennig ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori â Chyrff Llywodraethol a'r Awdurdodau Addysg Esgobaethol bob blwyddyn ynglŷn â derbyniadau.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â gofynion statudol a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru ac yn ystyried y dewis a fynegir gan rieni yng nghyd-destun ei ddyletswydd i sicrhau y darperir addysg effeithiol ac y gwneir defnydd effeithiol o adnoddau addysgol. Wrth ystyried ceisiadau, bydd yr Awdurdod Lleol yn glynu wrth ddarpariaethau'r Cod Derbyn i Ysgolion sy'n nodi y dylai awdurdodau derbyn dderbyn disgyblion hyd at nifer derbyn yr Ysgol ac anaml iawn y bydd yn gallu profi rhagfarn fel sail dros wrthod disgybl ychwanegol tra bydd y niferoedd yn aros yn is na'r nifer derbyn.

O dan God Derbyniadau'r Ysgol, efallai y bydd yn rhesymol dan amgylchiadau eithriadol i'r awdurdod lleol, gyda chytundeb y Pennaeth, arfer disgresiwn i dderbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer derbyn, ar yr amod nad yw'r fath dderbyniadau'n effeithio'n andwyol ar yr ysgol yn y tymor hirach, yn cynnwys, ymysg eraill, y ddyletswydd i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol perthnasol i faint dosbarthiadau babanod.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i sicrhau y darperir addysg effeithiol ac y defnyddir adnoddau'n effeithlon. Wrth wneud hynny, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried yr holl

adnoddau, gan gynnwys llety a staffio, sydd ar gael i bob ysgol ac unrhyw gyfyngiadau a osodir gan drefniadaeth yr ysgol a'r cwricwlwm. Bydd hefyd yn ystyried y goblygiadau i'r awdurdod o ran adnoddau a'r effaith ar bolisïau addysg eraill.

Pan fydd rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael lle mewn ysgol ar gyfer eu plentyn, mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig o le yn ôl. Lle caiff lle ei dynnu'n ôl ar sail gwybodaeth gamarweiniol, rhaid ystyried y cais o'r newydd a chynnig hawl i apelio os gwrthodir lle.

## 7. Polisi Iaith Gymraeg ar gyfer pob ysgol

Nod Polisi Iaith Gymraeg yr Awdurdod yw sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd safon o ddwyieithrwydd. Cyfrifoldeb yr Awdurdod, mewn cydweithrediad â'r Pennaeth a Llywodraethwyr yr Ysgol, fydd sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu haddysgu yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Darperir Addysg Gynradd i bob plentyn yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg neu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Darperir Addysg Uwchradd i'r holl blant yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg neu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn sicrhau dilyniant pan fydd plentyn yn gadael yr ysgol gynradd, addysgir y Gymraeg fel ail iaith ym mhob ysgol uwchradd lle darperir addysg yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg.

Bydd Cyngor Sir y Fflint, gan weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, yn darparu gwybodaeth lawn i rieni ac yn sicrhau eu bod yn deall manteision addysg Gymraeg a'r cyfleoedd sy'n bodoli yn Sir y Fflint, gan esbonio'n glir:

- nad oes angen i rieni fod yn medru'r Gymraeg eu hunain i'w plant fanteisio ar y cyfle hwn
- bod derbyn addysg mewn ysgol Gymraeg ddynodedig yn galluogi disgyblion i fod yn gwbl ddwyieithog
- bod manteision deallusol yn gysylltiedig â bod yr un mor rhugl mewn dwy iaith

Bydd disgyblion sydd wedi cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgol gynradd yn trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd Gymraeg (Ysgol Maes Garmon) yng Nghyfnod Allweddol 3. Gall disgyblion drosglwyddo o ysgolion cynradd Saesneg i'r Ysgol Uwchradd Gymraeg lle byddant yn cael cynnig y cynllun trochi sydd ar gael ar ddiwedd Blwyddyn 6 a'r holl ffordd drwy Blwyddyn 7. I gael mwy o fanylion am y cynllun cysylltwch ag Ysgol Maes Garmon, rhif ffôn: 01352 750678.

## 8. Cyfnodau Derbyn

### 8.1 Hawl Bore Oes i Addysg

Mae addysg ran-amser ar gael i bob plentyn yn y tymor ar ôl ei ben-blwydd/phen-blwydd yn dair oed.

| Plant a anwyd yn ystod... | Hawl i gael... |
|---|---|
| Tymor yr Hydref | 2 dymor o ddarpariaeth addysgol (y Gwanwyn a'r Haf) |
| Tymor y Gwanwyn | 1 tymor o ddarpariaeth addysgol (yr Haf) |

Mae plant a anwyd yn nhymor yr Haf yn derbyn eu hawl i gael addysg yn nosbarthiadau meithrin ysgolion yn nhymor yr Hydref ar ôl eu 3ydd pen-blwydd. Caiff rhieni fynegi dewis ar gyfer lleoliad cymeradwy a allai fod yn gylch chwarae cyn ysgol (Cymraeg neu Saesneg), meithrinfa ddydd breifat, gwarchodwr plant sy'n rhan o 'rwydwaith' neu ddosbarth meithrin mewn ysgol. Cyflwynir ceisiadau ar gyfer hawl bore oes yn uniongyrchol i'r lleoliad. Mae ffurflenni ar gael drwy gydol y flwyddyn.

**Nodiadau:**
1. **Os derbynnir plentyn i leoliad Hawl Bore Oes mewn ysgol benodol, nid yw hynny'n gwarantu y bydd yn cael ei dderbyn i'r dosbarth meithrin yn yr ysgol honno. Bydd angen gwneud cais newydd.**
2. **Ni ddarperir cludiant.**

I gael mwy o wybodaeth am leoliadau cymeradwy, cysylltwch â'r canlynol: Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, rhif ffôn: 01244 547017.

**8.2 Meithrin**

Mae ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddyletswydd i ddarparu digon o lefydd meithrin yn eu hardal. Bydd plentyn yn dod yn gymwys i gael lle mewn dosbarth meithrin yn ystod y mis Medi yn dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed. Nid yw addysg feithrin yn orfodol ac nid oes gan rieni unrhyw hawl i apelio ynglŷn â derbyniadau meithrin dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Darperir addysg feithrin ym mhob ysgol/uned ar sail 5 sesiwn 2.5 awr yr wythnos ar gyfer pob plentyn. Mae llefydd ar gael mewn dosbarthiadau Meithrin ym mhob ysgol gynradd yn Sir y Fflint hyd at y Nifer Derbyn ym mhob ysgol.

Caiff rhieni fynegi dewis o ran dosbarth meithrin waeth beth yw'r pellter rhwng cartref y plentyn a'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw mynegi dewis yn gwarantu lle yn y feithrinfa honno. Yn achos gordanysgrifio, ymdrinnir â cheisiadau am lefydd meithrin trwy ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio ar gyfer ysgolion cynradd fel y'u nodir yn y Canllaw hwn.

**Nodiadau:**

1. **Os derbynnir plentyn i ddosbarth meithrin mewn Ysgol Gynradd benodol nid yw hynny'n gwarantu y bydd yn cael ei dderbyn i'r dosbarth derbyn yn yr ysgol honno. Bydd angen gwneud cais newydd.**
2. **Ni ddarperir cludiant.**

**8.3 Cynradd**

Bydd yr Awdurdod yn derbyn plentyn i ysgol gynradd a gynhelir ar ddechrau'r flwyddyn ysgol os yw'r plentyn wedi cael ei ben-blwydd yn 4 oed ar neu cyn 31 Awst yn y flwyddyn galendr honno.

Pan fydd lle mewn dosbarth derbyn wedi'i gynnig a'i dderbyn, caiff rhieni ohirio dyddiad dechrau eu plentyn tan ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 5 oed. Ni chaiff rhieni ohirio'r dyddiad dechrau y tu hwnt i'r cyfnod hwn, na'r tu hwnt i'r flwyddyn academaidd y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei chyfer.

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, cyfyngir maint dosbarthiadau babanod (Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) i ddim mwy na 30 fesul athro/athrawes. O ran dosbarthiadau iau (Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6), y targed yw dim mwy na 30 fesul athro/athrawes.

**8.4 Uwchradd**

Fel arfer, bydd disgyblion yn cael eu trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd yn ystod y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn un ar ddeg oed.

**9. Meini Prawf Gordanysgrifio**

Bydd pob disgybl yn cael ei dderbyn os nad yw'r Nifer Derbyn wedi ei gyrraedd. Fodd bynnag, os yw'r Nifer Derbyn wedi ei gyrraedd, bydd ceisiadau yn cael eu hystyried yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio, a restrir yn nhrefn blaenoriaeth.

**Meini prawf i'w defnyddio gan yr Awdurdod Lleol, yn ôl trefn blaenoriaeth, ar gyfer derbyniadau i Ysgolion Meithrin, Cynradd ac Uwchradd:**

a) Plant sy'n Derbyn Gofal (plant mewn gofal) a phlant oedd yn arfer derbyn gofal

b) disgyblion lle mai'r ysgol a ffefrir yw'r ysgol briodol agosaf i'w cyfeiriad cartref

c) disgyblion fydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol a ffefrir ar y dyddiad derbyn disgwyliedig. Dim ond ar gyfer y cyfnod addysg statudol, h.y. hyd at Flwyddyn 11, y defnyddir y 'rheol brawd a chwaer'.

d) disgyblion sydd wedi dewis ysgol wahanol i'r ysgol agosaf i'w cyfeiriad cartref. Ystyrir pellter cartrefi disgyblion o'r ysgol arall honno wrth dderbyn disgyblion, a hynny hyd at y Nifer Derbyn.

**Gwneud y Penderfyniad**

Os oes mwy o ymgeiswyr nag o lefydd yn unrhyw un o'r categorïau uchod, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n byw agosaf i'r ysgol, gyda'r pellter wedi'i fesur o gyfeiriad cartref y plentyn i brif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol.

Os nad yw'r awdurdod yn gallu diwallu dewis(iadau) rhiant, gofynnir i'r rhiant ystyried llefydd sydd ar gael mewn ysgolion eraill.

Lle enwir ysgol mewn Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, mae ar yr awdurdod lleol ddyletswydd i dderbyn y plentyn i'r ysgol honno.

**Ar gyfer dyrannu llefydd dehonglir yr ysgol briodol agosaf fel a ganlyn:**

**(a) yr ysgol agosaf i gartref y plentyn gyda'r pellter wedi'i fesur o gyfeiriad cartref y plentyn i brif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol.**

**(b) yr ysgol Gymraeg agosaf pan fo'r rhieni'n dymuno i'w plant dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.**

**(c) yr ysgol Enwadol agosaf pan fo'r rhieni'n dymuno i'w plant dderbyn eu haddysg mewn ysgol enwadol.**

**Wrth benderfynu ar yr 'ysgol addas agosaf', bydd yr Awdurdod yn derbyn cyfeiriad cartref y disgybl yn unig ac nid cyfeiriad gwarchodwr plant neu daid a nain, er enghraifft**

## 10. Diffiniadau

### 10.1 Cyfeiriad Cartref

Man preswylio parhaol presennol y plentyn yw'r cyfeiriad y dylid ei roi ar y ffurflen gais.

Mae 'parhaol' yn golygu'r cyfeiriad y mae eich plentyn yn byw ac yn cysgu ynddo y rhan fwyaf o'r wythnos. Cyfeiriad eu rheini fydd hyn fel arfer.

NODER: dim ond y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn ("Rhieni") all wneud cais bod plentyn yn cael ei dderbyn mewn ysgol Os yw'r cyfrifoldeb rhiant wedi ei rannu, dylai pob rhieni gytuno â'r dewisiadau a restrir yn y cais. Cyfrifoldeb y rhieni yw dod i'r cytundeb hwn. Os yw'r plentyn yng ngwarchodaeth gyfartal ei ddau riant, y rhieni ddylai benderfynu pa gyfeiriad cartref i'w ddefnyddio ond gallwn ofyn am Orchymyn Llys dilys neu dystiolaeth arall i gadarnhau fod y trefniant hwn yn bodoli. Os na allwch gytuno â'r rhiant arall pa ysgol y dylai eich plentyn ei mynychu, dylech geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun ar unwaith mewn perthynas â gwneud cais brys i'r Llys.

Gellir gwirio cyfeiriadau yn erbyn y cofnodion yn y Gronfa Ddata Treth y Cyngor. Yn ychwanegol gellir gofyn i rieni brofi eu bod yn byw mewn cyfeiriad penodol drwy ofyn iddynt ddangos unrhyw un o'r dogfennau canlynol: gohebiaeth gan gyfreithiwr yn cadarnhau bod pryniant eiddo wedi ei gwblhau, Cytundeb Tenantiaeth, Cyfriflen Forgais, gohebiaeth am Dreth y Cyngor, gohebiaeth gan gyflenwr gwasanaethau neu dystiolaeth arall sydd ym marn yr Awdurdod Lleol yn briodol. Nodwch fod yn rhaid i unrhyw ddogfennau a ddarperir fod yn berthnasol, yn gyfredol ac yn ymwneud â'r cyfeiriad a nodwyd yn y ffurflen gais. Mae'n rhaid i'r dogfennau hefyd fod a'ch enw chi arnynt a rhaid iddynt fod yn ddiweddar, dim mwy na 3 mis oed.

Argymhellir yn gryf y dylid cyflwyno llungopïau o ddogfennau ym mhob achos gan na all y Cyngor warantu y bydd dogfennau gwreiddiol yn cael eu dychwelyd yn ddiogel drwy'r post.

Os nad yw'r Awdurdod Lleol yn fodlon â'r dystiolaeth a gafwyd, gan gynnwys, ond nid yn unig, os nad ydych wedi dilyn telerau'r polisi hwn, yna ni fydd cais eich plentyn yn cael ei dderbyn a chaiff ei dynnu'n ôl.

Hysbysir rhieni y gellir tynnu lle mewn ysgol yn ôl yn gyfreithlon os yw'r wybodaeth a roddwyd ar eu ffurflen gais yn dwyllodrus neu'n gamarweiniol. Nodwch y gall rhoi gwybodaeth ffug yn fwriadol ar

ffurflen gais fod yn drosedd o dan Ddeddf Twyll 2006. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymchwilio i bob cais lle mae amheuaeth ynglŷn â'r cyfeiriad a roddwyd. Ar y rhieni mae'r cyfrifoldeb dros roi digon o dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r datganiad mai preswylfa barhaol y plentyn yw'r cyfeiriad a roddwyd. Bydd defnyddio gwybodaeth ffug, gamarweiniol neu anghywir, gan gynnwys hepgor gwybodaeth, yn arwain at dynnu cynnig yn ôl os oedd yr Awdurdod Lleol eisoes wedi cynnig lle mewn ysgol.

Os ydych yn symud ar ôl gwneud cais ond bod hynny yn ystod y cyfnod dyrannu, mae'n rhaid i chi roi prawf o'ch cyfeiriad newydd i ni. Mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys, er enghraifft: llythyr cyfreithiwr yn cadarnhau bod pryniant eiddo wedi ei gwblhau neu gopi o gytundeb rhentu cyfredol, wedi'i lofnodi gan y tenantiaid a'r landlordiaid, sy'n dangos cyfeiriad yr eiddo a dyddiad cychwyn y denantiaeth. Nodwch fod yn rhaid i unrhyw ddogfennau a ddarperir fod yn berthnasol, yn gyfredol ac yn ymwneud â'r cyfeiriad a nodwyd yn y ffurflen gais. Mae'n rhaid i'r dogfennau hefyd fod â'ch enw chi arnynt a rhaid iddynt fod yn ddiweddar, dim mwy na 3 mis oed.

**10.2** **Pellter**

Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd. Mae'r system wedi'i hymgorffori ym meddalwedd Capita ONE. Bydd cyfesurynnau cartref ymgeisydd yn cael eu pennu gan ddefnyddio Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a Data Pwynt Cyfeiriad Arolwg Ordnans. Bydd y man cychwyn ar gyfer asesu llwybr yn cael ei bennu fel y pwynt agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded o gyfeiriad y disgybl (prif fynedfa'r eiddo fel arfer), i bwynt canolog adeilad yr ysgol. Caiff y rhwydwaith i ddiweddaru'n flynyddol.

**Dylid nodi y darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor yn unig. Os yw disgybl, o ganlyniad i ddymuniad rhiant, yn mynychu ysgol heblaw'r ysgol addas agosaf a gydnabyddir gan Gyngor Sir y Fflint, mae'n rhaid deall bod rhieni yn derbyn cyfrifoldeb llawn am gostau a threfniadau cludiant.**

**10.3** **Brodyr a Chwiorydd**

Diffinnir brawd neu chwaer fel brawd neu chwaer llawn, hanner brawd neu chwaer, llysfrawd neu chwaer, neu frawd neu chwaer wedi'u mabwysiadu neu eu maethu sy'n byw gyda'i gilydd fel un teulu yn yr un cyfeiriad, a lle mae'r brawd neu'r chwaer hŷn o oedran ysgol statudol ac yn dal i fod wedi'i gofrestru/chofrestru yn yr ysgol a ddewiswyd pan fydd y plentyn iau yn gymwys i fynychu. Wrth ystyried brodyr a chwiorydd, rhoddir y flaenoriaeth gyntaf i geisiadau gan blant o enedigaeth luosog.

**10.4** **Plant o Enedigaeth Luosog**

Bydd efeilliaid, tripledi, pedrybledau ac ati, sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n gwneud cais am le yn yr un grŵp blwyddyn yn cael blaenoriaeth o ran eu derbyn yn y brif rownd o dderbyniadau o dan y meini prawf 'brodyr a chwiorydd'. Os nad yw'n bosibl cynnig lle i'r holl blant o enedigaeth luosog sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n gwneud cais am le yn yr un grŵp blwyddyn, bydd yr Awdurdod yn cynnig lle i'r holl blant hynny o enedigaeth luosog yn yr ysgol briodol agosaf nesaf sydd â llefydd ar gael.

**11.** **Derbyniadau i ysgolion heblaw'r rhai hynny a gynhelir gan yr ALl**

Dylai rhieni sy'n dymuno mynegi ysgol mewn sir heblaw Sir y Fflint fel eu dewis/dewisiadau cyntaf ddefnyddio ffurflen flaenoriaeth Sir y Fflint o hyd. Bydd hon yn cael ei throsglwyddo i'r Awdurdod Lleol perthnasol, ac eithrio Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer sy'n gofyn i chi gysylltu â hwy'n uniongyrchol. Dylech sicrhau eich bod yn ymwybodol o amserlen dderbyn a dyddiadau cau pob Awdurdod.

**12.** **Hysbysu Rhieni**

Bydd rhieni'n cael eu hysbysu o ganlyniad cais i blentyn gael ei dderbyn i ysgol drwy lythyr/e-bost. Lle gwrthodwyd cais, bydd llythyr yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad, yr hawl i apelio a phroforma i'w dychwelyd yn cael eu hanfon. Gofynnir i rieni wneud penderfyniad erbyn dyddiad penodedig ynglŷn ag un neu fwy o'r opsiynau canlynol:-

- Rhoi enw'r plentyn ar restr aros
- Mynd ymlaen i apelio a rhoi enw'r plentyn ar restr aros
- Derbyn y lle a gynigiwyd mewn ysgol arall y mynegwyd dewis ar ei chyfer

- Gwneud cais newydd am ysgol arall

**13. Rhestrau Aros**

Bydd rhestrau aros ar gyfer ysgolion wedi'u gordanysgrifio yn cynnwys y plant hynny y mae eu rhieni wedi gwneud cais penodol ysgrifenedig, gorau oll ar e-bost, am gael eu rhoi ar restr aros yr ysgol, ynghyd â'r rhai hynny y derbyniwyd ffurflen apêl ganddynt. Bydd rhestrau aros yn cael eu cynnal tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol dan sylw. **Wedi'r dyddiad hwnnw bydd yn rhaid i rieni sy'n dal yn dymuno i'w plentyn gael ei ystyried am le wneud cais penodol, ysgrifenedig am gael aros ar y rhestr aros**. Os daw llefydd yn wag byddant yn cael eu clustnodi yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio ac nid yn ôl y dyddiad pan gyflwynwyd y cais neu pan ychwanegwyd enw'r plentyn at y rhestr aros.

Yn y brif rownd o dderbyniadau, bydd rhestrau aros yn cael eu paratoi a bydd unrhyw lefydd uwchradd a ddaw'n wag ar ôl 1 Mawrth (y dyddiad cynnig) yn cael eu clustnodi ar ôl 1 Ebrill. Bydd rhestrau aros wedyn yn cael eu diweddaru a bydd unrhyw lefydd ychwanegol a ddaw'n wag yn cael eu clustnodi ar ôl 1 Mai. Ar gyfer ysgolion cynradd, bydd unrhyw lefydd mewn dosbarthiadau derbyn a ddaw'n wag ar ôl 16 Ebrill (dyddiad cynnig) yn cael eu clustnodi ar ôl 16 Mai. Bydd y rhestrau aros wedyn yn cael eu diweddaru a bydd unrhyw lefydd gwag ychwanegol yn cael eu clustnodi ar ôl 16 Mehefin.

Pan fydd ceisiadau i drosglwyddo rhwng ysgolion y tu allan i'r cyfnodau derbyn arferol yn cael eu gwrthod, bydd yr Awdurdod Lleol, gyda chytundeb y rhiant, yn rhoi enw'r plentyn ar restr aros a fydd yn aros ar agor tan ddiwedd y tymor ysgol* y gwnaed y cais ar ei gyfer. Ar ôl y dyddiad hwnnw mae'n rhaid i rieni wneud cais penodol bod enw eu plentyn yn aros ar y rhestr aros am dymor ysgol ychwanegol neu bydd enw'r plentyn yn cael ei ddileu.
*Os gwneir y cais ar ddiwedd tymor ysgol, gall enw'r plentyn aros ar y rhestr aros tan ddiwedd y tymor canlynol

**14. Derbyn Disgyblion o'r tu allan i Sir y Fflint**

Bydd disgyblion nad ydynt yn byw yn Sir y Fflint sy'n gwneud cais i gael eu derbyn i ysgol yn Sir y Fflint yn cael cynnig lle mewn ysgol yn unol â'r polisi derbyn.

**15. Newid Ysgol o fewn Sir y Fflint yn ystod y flwyddyn**

Mae gan ysgolion Sir y Fflint brotocol y cytunwyd arno gyda'r Awdurdod Lleol ar gyfer symud disgybl o un ysgol a enwebwyd i un arall ar adeg wahanol i'r pwynt pontio arferol. Dylai rhiant sy'n dymuno'r fath drosglwyddiad siarad â phennaeth ysgol bresennol y plentyn er mwyn trafod y rhesymau dros symud. Os yw'r rhiant yn dymuno parhau â'r broses yn dilyn y drafodaeth hon, bydd yn rhaid iddynt lenwi ffurflen gais i drosglwyddo ar-lein. Os cyrhaeddwyd nifer derbyn grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol y dymuna'r rhiant i'w plentyn symud iddi, gellir gwrthod y cais a bydd y rhieni'n cael y cynnig o le mewn ysgol arall i'w plentyn. Dan amgylchiadau o'r fath byddai gan riant hefyd hawl i apelio, fel yr amlinellir isod.

**16. Derbyniadau ar adegau ar wahân i fis Medi**

Ar gyfer disgyblion sy'n symud i'r ardal ar adegau gwahanol i'r adeg derbyn arferol (Mis Medi bob blwyddyn) bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud ei orau i ateb gofynion rhieni cyn belled ag y bo modd. Lle bo mwy o geisiadau i'r ysgol na nifer y llefydd sydd ar gael, bydd rhieni'n cael cynnig lle mewn ysgol arall. Gall y rhiant wedyn dderbyn lle yn yr ysgol arall neu roi rhybudd o apêl.

**Nid yw'r Awdurdod Lleol yn annog trosglwyddo plant rhwng ysgolion, a gall newid ysgol yn ystod y tymor amharu'n ddifrifol ar ddilyniant mewn addysg plentyn. Os yw rhieni o'r farn bod problem yn yr ysgol mor ddifrifol fel bod yn rhaid symud, fe gânt eu hannog i gymryd pob cam rhesymol i ddatrys y mater gyda'r ysgol yn gyntaf, ac yna i geisio cyngor gan y Tîm Derbyniadau os oes angen, cyn gwneud cais i drosglwyddo. O ran ceisiadau i drosglwyddo ysgol lle nad yw'r disgybl yn symud i fyw, mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i drefnu bod y plentyn yn dechrau yn yr ysgol newydd ar ddechrau'r hanner tymor nesaf er mwyn osgoi tarfu ar addysg y plentyn dan sylw a'r plant eraill. Mae gan bob ysgol uwchradd raglenni pontio ganol y flwyddyn i gynorthwyo disgyblion sy'n trosglwyddo yn ystod y tymor. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys ymweliadau estynedig ag ysgolion gan rieni/ gofalwyr a disgyblion.**

**17. Y Weithdrefn Apelio**

Os nad yw'r awdurdod yn gallu cydymffurfio â dewis y rhiant, rhoddir y rheswm dros hynny i'r rhiant yn ysgrifenedig a rhoddir gwybod iddynt am lefydd sydd ar gael mewn ysgol arall. Yna gall y rhiant dderbyn y lleoliad arall a gall roi gwybod ei fod/bod am apelio. Darperir gwybodaeth iddynt am sut i apelio. Mae manylion sy'n disgrifio'r weithdrefn apelio hefyd ar gael ar **www.flintshire.gov.uk/schools/schooladmissions.** Fel arall, cysylltwch â'r Tîm Derbyniadau ar 01352 704068/704073.

Mae'n rhaid cyflwyno pob apêl yn ysgrifenedig gan roi rhesymau, a'i hanfon at y Tîm Derbyniadau. Caiff apeliadau eu clywed o fewn 30 diwrnod ysgol o dderbyn yr apêl ysgrifenedig (neu o fewn 30 diwrnod gwaith os yw'n cyrraedd yn ystod gwyliau haf yr ysgol). Gwneir pob ymdrech i wrando apeliadau cyn gynted ag y bo modd. Bydd y rhieni, neu riant a chyfaill os dymunir, yn cael cyfle i ymddangos gerbron Panel Apêl Annibynnol. Anfonir llythyr at rieni yn rhoi gwybod iddynt am benderfyniad y Panel Annibynnol; bydd y penderfyniad hwn yn derfynol a bydd pob parti yn rhwym wrtho.

**Dadansoddiad o ganlyniadau apeliadau ar gyfer lle mewn dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2021**

**Dosbarth Derbyn**

| Ysgol | Nifer o Apeliadau | Llwyddiannus |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Mountain Lane | 6 | 2 |
| Brychdyn | 9 | 9 |
| Sealand | 2 | 0 |
| Wepre | 4 | 4 |
| Southdown | 3 | 3 |
| Cyfanswm | 24 | 18 |

**Uwchradd**

| Ysgol | Nifer o Apeliadau | Llwyddiannus |
|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Castell Alun | 4 | 0 |
| Ysgol Mold Alun | 20 | 15 |
| Ysgol Uwchradd Fflint | 8 | 6 |
| Ysgol Uwchradd Penarlag | 9 | 8 |
| Cyfanswm | 41 | 29 |

**18. Darpariaeth ar gyfer Plant ag Anghenion Ychwanegol**

Mae'n rhaid i'r Awdurdod ystyried y Cod Ymarfer ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 wrth adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol, eu hasesu a darparu ar eu cyfer. Fel arfer bydd yr ysgol yn gwneud yr asesiad ac yn pennu'r anghenion dysgu ychwanegol a'r ddarpariaeth sydd ei hangen.
Bydd ar rai plant angen darpariaeth ddysgu ychwanegol fwy cynhwysfawr na'r hyn y byddai'n rhesymol i'w ddisgwyl mewn ysgol brif ffrwd. Bydd yr Awdurdod Lleol yn asesu anghenion disgyblion fel hyn yn unol â'r canllawiau a bennir yn y ddeddfwriaeth. Os bydd asesiad yn dynodi fod angen darpariaeth ychwanegol bydd yr awdurdod lleol yn eu trefnu. Caiff y ddarpariaeth hon ei chynnwys mewn datganiad o angen addysgol arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol yr awdurdod lleol ar gyfer y plentyn dan sylw. Llunnir y ddogfen hon gan rieni ac ysgolion ar y cyd. Mae'n datgan anghenion y plentyn, a sut a ble y bodlonir y anghenion hynny.

Mae gan bob Corff Llywodraethu lywodraethwr sy'n gyfrifol am y Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae gan rieni hawl i weld y polisi hwnnw. Mae gan bob ysgol Gydlynydd Anghenion Ychwanegol sy'n goruchwylio gweithrediad y polisi'n feunyddiol. Os dymuna rhieni drafod unrhyw agwedd ar anghenion addysgol arbennig eu plant, dylent gysylltu â'r Pennaeth.

**19. Derbyniadau i Ysgolion Arbennig**

Fel arfer ni fydd Ysgolion Arbennig ond yn derbyn disgyblion â datganiad o Angen Addysgol neu Gynllun Datblygu Unigol gydag awdurdod lleol. Mewn rhai achosion prin maent yn fodlon derbyn disgyblion sydd dan asesiad yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021. Gweinyddir y drefn asesu gan y Gwasanaeth Cynhwysiant yn Neuadd y Sir. (Rhif Ffôn: 01352 704028/704029).

## 20. Polisïau Derbyn Ysgolion Sefydledig ac Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir

## Ysgol Gynradd Sefydledig Derwen

Nifer Derbyn Ysgol Derwen yw 28.

Bydd y corff llywodraethol yn gweithredu yn unol â'r Cod Derbyniadau wrth gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â derbyniadau a bydd yn rhoi cydnabyddiaeth lawn ddewisiadau rheini yng nghyd destun ei ddyletswydd i sicrhau darpariaeth addysg effeithiol a'r defnydd effeithlon o adnoddau addysgol.

Ni fydd y corff llywodraethol yn gwrthod ymgeiswyr i'r ysgol oni bai fod yr ysgol wedi cyrraedd ei nifer derbyn o 28. Ni fydd y corff llywodraethol yn ehangu'r ysgol i ddiwallu galw nad yw'n cyd-fynd â'r meini prawf derbyn a bydd yn derbyn disgyblion yn y grŵp oedran perthnasol hyd at y nifer derbyn o 28 yn unig.

**Gweithdrefn**

- Bydd trefniadau yn eu lle yn flynyddol ar gyfer dderbyn disgyblion i'r ysgol. Ni fydd mynegi dewis yn gwarantu lle yn yr ysgol. Os yw'r ysgol wedi'i gordanysgrifio, yna bydd y weithdrefn gordanysgrifio yn dod i rym.

- Rhaid gwneud ceisiadau ar ffurflen gais swyddogol (electronig neu gopi caled) sydd ar gael o swyddfa'r ysgol neu oddi ar wefan yr ysgol www.derwenprimaryschool.com a bydd y rhai hynny sy'n cyflwyno cais yn y dull hwn yn cael blaenoriaeth dros y rhai hynny sydd ddim.

- Rhaid derbyn yr holl geisiadau am lefydd yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn erbyn y dyddiad a gyhoeddwyd.

- Bydd llefydd ar gyfer addysg lawn amser yn y Dosbarth Derbyn yn cael eu hystyried yn unol â'r meini prawf hyd at nifer derbyn yr ysgol.

- Mewn achosion lle mae'r ysgol wedi'i gordanysgrifio bydd trefniadau'n cael eu gwneud i rieni drafod y mater gyda'r pennaeth a chael gwybodaeth am y broses apelio.

**Bydd rhieni sy'n gwneud cais am le ar adegau ar wahân i'r camau derbyn arferol yn cael yr un cyfleoedd a'r rhai a amlinellir uchod.**

**MEINI PRAWF GORDANYSGRIFIO – Dosbarth Meithrin**

Caiff plant eu derbyn i addysg meithrin rhan amser anstatudol yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Nid yw addysg meithrin yn orfodol ac nid oes gan rieni hawl i apelio mewn perthynas â derbyniadau i ddosbarthiadau meithrin o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Os derbynnir mwy o geisiadau na nifer y llefydd sydd ar gael (28) defnyddir y meini prawf canlynol yn y drefn a nodir isod:

1. Bydd yr ysgol yn ystyried anghenion 'plentyn sy'n derbyn gofal' neu 'blentyn a oedd yn derbyn gofal' (plentyn mewn gofal) a disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol os mai'r ysgol hon yw'r ysgol addas agosaf at gyfeiriad cartref y disgybl.
2. Y disgyblion hynny lle mai'r ysgol hon yw'r ysgol briodol agosaf at eu cartref
3. Bydd gan ddisgyblion frawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol o'u dewis ar y dyddiad derbyn disgwyliedig. Dim ond ar gyfer y cyfnod addysg statudol, h.y. hyd at Flwyddyn 11, y defnyddir y 'rheol brawd a chwaer'.

4. Disgyblion sydd wedi dewis ysgol wahanol i'r ysgol agosaf i'w cyfeiriad cartref. Ystyrir pellter cartrefi disgyblion o'r ysgol arall honno wrth dderbyn disgyblion, a hynny hyd at y Nifer Derbyn.

**Yr Ysgol Briodol Agosaf**

Ystyrir mai'r ysgol briodol agosaf yw'r ysgol sydd agosaf at gyfeiriad cartref plentyn ac sy'n darparu addysg ar gyfer oed a gallu perthnasol y plentyn ac a fydd yn gallu diwallu unrhyw Anghenion Ychwanegol sydd ganddo ef/hi

**Pellter o'r Ysgol**

Ym mhob categori, rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol. Caiff y pellter rhwng y cartref a'r ysgol ei fesur o gyfeiriad cartref y plentyn i brif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol. Hwn fydd y pellter lleiaf ar hyd briffordd gyhoeddus amlbwrpas a phob hawl tramwy arall sydd ag wyneb metel neu sydd wedi'i balmantu. Mae llwybrau cyhoeddus a llwybrau ceffylau ar draws caeau wedi eu gwahardd yn benodol.

Mae Ysgol Derwen yn defnyddio'r un system â Chyngor Sir y Fflint wrth gyfrifo'r pellter rhwng yr ysgol a chyfeiriad cartref y plentyn, sef Routefinder. Mae Routefinder yn system ddadansoddi rhwydwaith sydd wedi'i integreiddio'n llwyr â'r System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) sy'n cyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol. Caiff y llwybr byrraf ei gyfrifo rhwng cyfeiriad cartref yr ymgeisydd a phrif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol.

**Brodyr a Chwiorydd**

Diffinnir brawd neu chwaer fel brawd neu chwaer llawn, hanner brawd neu chwaer, llys frawd neu chwaer, neu frawd neu chwaer wedi'u mabwysiadu neu eu maethu sy'n byw gyda'i gilydd fel un teulu yn yr un cyfeiriad, a lle mae'r brawd neu'r chwaer hŷn o oedran ysgol statudol ac yn dal i fod wedi'u cofrestru yn Ysgol Derwen pan fydd y plentyn iau yn gymwys i fynychu. Wrth ystyried brodyr a chwiorydd, rhoddir y flaenoriaeth uchaf i geisiadau gan blant o enedigaeth luosog.

**Plant o Enedigaeth Luosog**

Bydd efeilliaid, tripledi, pedrybledau ac ati, sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n gwneud cais am le yn yr un grŵp blwyddyn yn cael blaenoriaeth o ran eu derbyn yn y brif rownd o dderbyniadau o dan y meini prawf 'brodyr a chwiorydd'. Os nad yw'n bosibl cynnig lle i'r holl blant o enedigaeth luosog sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n gwneud cais am le yn yr un grŵp blwyddyn, bydd Ysgol Derwen yn cysylltu â'r Awdurdod gyda'r nod y bydd llefydd yn cael eu cynnig i'r holl blant hynny o enedigaeth luosog yn yr ysgol briodol agosaf nesaf sydd â llefydd ar gael.

**Cyfeiriad Cartref Parhaol Plentyn**

Wrth wneud cais am le yn yr ysgol, ni fydd y corff llywodraethol yn derbyn unrhyw gyfeiriad heblaw cyfeiriad cartref parhaol y plentyn, ac nid, er enghraifft, gyfeiriad gwarchodwr plant, neiniau a theidiau, perthynas neu ffrind. Gofynnir i rieni ddangos dogfennaeth swyddogol gyda'r cyfeiriad cartref arno wrth gyflwyno eu cais. Dylai rhieni fod yn ymwybodol fod gan yr ysgol hawl i dynnu cynnig o le yn ôl os yw'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen gais yn dwyllodrus neu'n gamarweiniol.

**Derbyn neu Wrthod Llefydd a Gynigir**

Bydd yn angenrheidiol i rieni dderbyn neu wrthod y cynnig o le gan Ysgol Derwen. Unwaith y bydd cynnig wedi'i wneud, bydd gan rieni uchafswm o 14 diwrnod i dderbyn y lle yn ysgrifenedig. Os na cheir ymateb ysgrifenedig o fewn y cyfnod hwn bydd y lle yn cael ei gynnig i ymgeisydd arall fel sy'n briodol.

**Ffurflenni Cais**

Mae ffurflenni cais am le yn y Dosbarth Meithrin ar gael o swyddfa'r ysgol neu ar ei gwefan www.derwenprimaryschool.com. Bydd y rhain ar gael ar y dyddiadau a gyhoeddir. Gofynnir i rieni gyflwyno dogfennaeth swyddogol sy'n dangos dyddiad geni eu plentyn/plant.

**Rhestrau Aros**

Os gwrthodir lle i blentyn yn Ysgol Derwen yn ystod y rownd derbyniadau arferol, bydd yr ysgol, mewn cytundeb â'r rhiant, yn rhoi enw'r plentyn ar restr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn pan dderbyniwyd y cais. Os daw rhagor o lefydd yn wag pan fydd y rhestr aros yn weithredol, a chyn i unrhyw apeliadau gael eu gwrando, byddant yn cael eu clustnodi yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio ac nid yn ôl y dyddiad pan gyflwynwyd y cais. Gall rhieni dderbyn lle mewn ysgol arall a pharhau â'u hapêl ar gyfer Ysgol Derwen. Fodd bynnag nid yw rhoi enw ar y rhestr aros yn gwarantu lle yn yr ysgol yn y pen draw ac nid yw'n effeithio ar hawl rhieni i apelio.

**Noder:**
Ni fydd derbyn plentyn i'r Dosbarth Meithrin yn gwarantu lle iddynt yn y Dosbarth Derbyn. Rhaid cyflwyno cais ar wahân am gael trosglwyddo o'r Dosbarth Meithrin i'r Dosbarth Derbyn.

**Amserlen Derbyniadau**

Cyfeiriwch at amserlen yr awdurdod lleol.

Rhaid dychwelyd ffurflenni cais i'r ysgol erbyn y dyddiad cau. Efallai y bydd llai o gyfle i'ch plentyn gael lle yn yr ysgol os derbynnir eich cais ar ôl y dyddiad cau.

**Ceisiadau Hwyr**

Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl y rhai a dderbynnir erbyn y dyddiad cau. Bydd yr ysgol yn ystyried ceisiadau hwyr os oes rhesymau da pam y cyflwynwyd y ffurflen gais yn hwyr a rhaid cyflwyno'r rheswm/rhesymau gyda'r cais, er enghraifft rhesymau meddygol eithriadol a rwystrodd gyflwyniad cynharach y cais neu symud tŷ yn ddiweddar – rhaid darparu tystiolaeth ategol. *Os yw nifer derbyniadau'r ysgol wedi ei gyrraedd bydd yr holl geisiadau hwyr yn cael eu rhoi mewn trefn yn ôl y meini prawf derbyn a bydd unrhyw lefydd sydd ar gael yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr sy'n sgorio uchaf hyd at ddiwedd y cyfnod clustnodi.*

**Dosbarth Derbyn**

Caiff disgyblion eu derbyn i addysg lawn amser yn ystod y flwyddyn pan maent yn cael eu pen-blwydd yn 5 oed. Os derbynnir mwy o geisiadau na nifer y llefydd sydd ar gael, defnyddir y meini prawf a ganlyn yn y drefn a nodir isod hyd at y nifer derbyn o 28.

1. Bydd yr ysgol yn ystyried anghenion 'plentyn sy'n derbyn gofal' neu 'blentyn a oedd yn derbyn gofal' (plentyn mewn gofal) a disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol os mai'r ysgol hon yw'r ysgol addas agosaf at gyfeiriad cartref y disgybl.
2. Y disgyblion hynny lle mai'r ysgol hon yw'r ysgol briodol agosaf at eu cartref
3. Bydd gan ddisgyblion frawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol o'u dewis ar y dyddiad derbyn disgwyliedig. Dim ond ar gyfer y cyfnod addysg statudol, h.y. hyd at Flwyddyn 11, y defnyddir y 'rheol brawd a chwaer'.
4. Disgyblion sydd wedi dewis ysgol wahanol i'r ysgol agosaf i'w cyfeiriad cartref. Ystyrir pellter cartrefi disgyblion o'r ysgol arall honno wrth dderbyn disgyblion, a hynny hyd at y Nifer Derbyn.

Nodwch os gwelwch yn dda nad yw'r ffaith fod disgybl wedi mynychu dosbarth meithrin yr ysgol yn gwarantu lle iddynt yn y dosbarth derbyn.

**Yr Ysgol Briodol Agosaf**

Ystyrir mai'r ysgol briodol agosaf yw'r ysgol sydd agosaf at gyfeiriad cartref disgybl sy'n darparu addysg ar gyfer oed a gallu perthnasol y disgybl ac a fydd yn gallu diwallu unrhyw Anghenion Ychwanegol sydd ganddo ef/hi

**Pellter o'r Ysgol**

Ym mhob categori, rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol. Caiff y pellter rhwng y cartref a'r ysgol ei fesur o gyfeiriad cartref y plentyn i brif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol. Hwn fydd y pellter lleiaf ar hyd briffordd gyhoeddus amlbwrpas a phob hawl tramwy arall sydd ag wyneb metel neu sydd wedi'i balmantu. Caiff llwybrau cyhoeddus a llwybrau ceffylau ar draws caeau eu gwahardd yn benodol.

Mae Ysgol Derwen yn defnyddio'r un system â Chyngor Sir y Fflint wrth gyfrifo'r pellter rhwng yr ysgol a chyfeiriad cartref y plentyn, sef Routefinder. Mae Routefinder yn system ddadansoddi rhwydwaith llwyr integredig â'r System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) sy'n cyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol. Caiff y llwybr byrraf ei gyfrifo rhwng cyfeiriad cartref yr ymgeisydd a phrif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol.

**Brodyr a Chwiorydd**

Diffinnir brawd neu chwaer fel brawd neu chwaer llawn, hanner brawd neu chwaer, llys frawd neu chwaer, neu frawd neu chwaer wedi'u mabwysiadu neu eu maethu sy'n byw gyda'i gilydd fel un teulu yn yr un cyfeiriad, a lle mae'r brawd neu'r chwaer hŷn o oedran ysgol statudol ac yn dal i fod wedi'i gofrestru/chofrestru yn Ysgol Derwen pan fydd y plentyn iau yn gymwys i fynychu. Wrth ystyried brodyr a chwiorydd, rhoddir y flaenoriaeth gyntaf i geisiadau gan blant o enedigaeth luosog.

**Plant o Enedigaeth Luosog**
Bydd efeilliaid, tripledi, pedrybledau ac ati, sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n gwneud cais am leoedd yn yr un grŵp blwyddyn yn cael blaenoriaeth o ran eu derbyn yn y brif rownd o dderbyniadau o dan y meini prawf 'brodyr a chwiorydd'. Os nad yw'n bosibl cynnig lleoedd i'r holl blant o enedigaethau lluosog sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n gwneud cais am leoedd yn yr un grŵp blwyddyn, bydd Ysgol y Dderwen yn cysylltu â'r Awdurdod gyda'r nod y bydd llefydd yn cael eu cynnig i'r holl blant hynny o enedigaeth luosog yn yr ysgol briodol agosaf nesaf sydd â lleoedd ar gael.

**Cyfeiriad Cartref Parhaol Plentyn**
Wrth wneud cais am le yn yr ysgol, ni fydd y corff llywodraethol yn derbyn unrhyw gyfeiriad heblaw cyfeiriad cartref parhaol y plentyn, ac nid, er enghraifft, gyfeiriad gwarchodwr plant, neiniau a theidiau, perthynas neu ffrind. Gofynnir i rieni ddangos dogfennaeth swyddogol gyda'r cyfeiriad cartref arno wrth gyflwyno eu cais. Dylai rhieni fod yn ymwybodol fod gan yr ysgol hawl i dynnu cynnig o le yn ôl os yw'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen gais yn dwyllodrus neu'n gamarweiniol.

**Derbyn neu Wrthod Llefydd a Gynigir**
Bydd yn angenrheidiol i rieni dderbyn neu wrthod y cynnig o le gan Ysgol Derwen. Unwaith y bydd cynnig wedi'i wneud, bydd gan rieni uchafswm o 14 diwrnod i dderbyn y lle yn ysgrifenedig. Os na cheir ymateb ysgrifenedig o fewn y cyfnod hwn bydd y lle yn cael ei gynnig i ymgeisydd arall fel sy' n briodol.

**Ffurflenni Cais**
Mae ffurflenni cais am le yn y Dosbarth Meithrin ar gael o swyddfa'r ysgol neu ar ei gwefan www.derwenprimaryschool.com. Bydd y rhain ar gael ar y dyddiadau a gyhoeddir. Gofynnir i rieni gyflwyno dogfennaeth swyddogol sy'n dangos dyddiad geni eu plentyn/plant.

**Rhestrau Aros**
Os gwrthodir lle i blentyn yn Ysgol Derwen yn ystod y rownd derbyniadau arferol, bydd yr ysgol, mewn cytundeb â'r rhiant, yn rhoi enw'r plentyn ar restr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn pan dderbyniwyd y cais. Os daw rhagor o lefydd yn wag pan fydd y rhestr aros yn weithredol, a chyn i unrhyw apeliadau gael eu gwrando, byddant yn cael eu clustnodi yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio ac nid yn ôl y dyddiad pan gyflwynwyd y cais.

Gall rhieni dderbyn lle mewn ysgol arall a pharhau â'u hapêl ar gyfer Ysgol Derwen. Fodd bynnag nid yw rhoi enw ar y rhestr aros yn gwarantu lle yn yr ysgol yn y pen draw ac nid yw'n effeithio ar hawl rhieni i apelio.

**Noder:**
Ni fydd derbyn plentyn i'r Dosbarth Meithrin yn gwarantu lle iddynt yn y Dosbarth Derbyn. Rhaid cyflwyno cais ar wahân am gael trosglwyddo o'r Dosbarth Meithrin i'r Dosbarth Derbyn

**Amserlen Derbyniadau**

Cyfeiriwch at amserlen yr awdurdod lleol.

Rhaid dychwelyd ffurflenni cais i'r ysgol erbyn y dyddiad cau. Efallai y bydd llai o gyfle i'ch plentyn gael ei glustnodi ar gyfer yr ysgol os derbynnir eich cais ar ôl y dyddiad cau.

**Ceisiadau Hwyr**

Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl y rhai a dderbynnir erbyn y dyddiad cau. Bydd yr ysgol yn ystyried ceisiadau hwyr os oes rhesymau da pam y cyflwynwyd y ffurflen gais yn hwyr a rhaid cyflwyno'r rheswm/rhesymau gyda'r cais, er enghraifft rhesymau meddygol eithriadol a rwystrodd gyflwyniad cynharach y cais neu symud tŷ yn ddiweddar – rhaid darparu tystiolaeth ategol.

Os yw nifer derbyniadau'r ysgol wedi ei gyrraedd bydd yr holl geisiadau hwyr yn cael eu rhoi mewn trefn yn ôl y meini prawf derbyn a bydd unrhyw lefydd sydd ar gael yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr sy'n sgorio uchaf hyd at ddiwedd y cyfnod clustnodi.

**Darpariaeth ar gyfer Plant ag Anghenion Ychwanegol**
Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried y Cod Ymarfer ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig wrth adnabod, asesu a darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. Efallai y bydd rhai plant angen darpariaeth addysgol arbennig y tu hwnt i'r hyn y gellid disgwyl yn rhesymol i ysgol brif-ffrwd ei darparu. Bydd yr Awdurdod Lleol yn asesu anghenion disgyblion o'r fath yn unol â'r arweiniad yn y

Cod Ymarfer. Os yw'r asesiad yn pennu bod hynny'n angenrheidiol, bydd yn trefnu bod darpariaeth ychwanegol yn cael ei threfnu ar gyfer y plentyn. Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei chynnwys mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer y plentyn dan sylw. Bydd y ddogfen hon yn cael ei thrafod gyda'r rhieni a'r ysgol. Bydd yn datgan anghenion y disgybl a sut ac ymhle y caiff yr anghenion hyn eu diwallu.

**Gweithdrefn Apelio ar gyfer Addysg Llawn Amser Statudol**

- Os bydd y corff llywodraethu yn gallu cydymffurfio â dymuniad y rhiant, yna derbynnir y plentyn i'r ysgol.
- Os na fydd y corff llywodraethu yn gallu cydymffurfio â dymuniad y rhiant, fe all y rhiant, os ydynt yn dymuno, rhoi rhybudd o apêl.
- Mae'n rhaid anfon y cais am apêl at Gadeirydd y Llywodraethwyr d/o Ysgol Derwen/Ysgol Gynradd Sefydledig Derwen, cyn pen 14 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr sy'n nodi na dderbyniwyd y plentyn i'r ysgol o'u dewis.
- Mae'n rhaid i'r cais, ynghyd â rhesymau dros yr apêl, fod yn ysgrifenedig.
- Fe gynhelir yr apêl cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn y cais am apêl. Bydd rhieni yn derbyn rhybudd o 14 diwrnod cyn cyfarfod y panel apêl. (Gall rhieni ildio eu hawl i 14 diwrnod o rybudd os byddant yn cytuno'n ysgrifenedig).
- Bydd y panel apêl yn cynnwys 3 unigolyn sydd yn annibynnol o'r ysgol ac wedi'u penodi gan yr Awdurdod Lleol.
- Gall y Pennaeth a/neu banel derbyniadau ddarparu tystiolaeth i'r panel apêl.
- Caiff y rhieni gyfle i ymddangos gerbron Panel Apêl Annibynnol. Gallant ddod â ffrind gyda nhw os ydynt yn dymuno.
- Bydd penderfyniad y panel apêl annibynnol yn derfynol.

## Ysgolion Enwadol – meini prawf gordanysgrifio

## Ysgolion Cynradd yr Eglwys yng Nghymru

## Ysgol Eglwysig Pentref Penarlâg

Mae Ysgol Eglwysig Pentref Penarlâg yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 mlwydd oed.

Fel Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, mae'r pwyllgor derbyniadau a sefydlwyd gan gorff llywodraethu'r Ysgol, yn gyfrifol am y disgyblion a dderbynnir. Bydd ffurflenni blaenoriaeth y rhieni ar gyfer derbyn i ysgolion meithrin a chynradd ar gael ar-lein (dull a ffefrir ar gyfer gwneud cais) yn www.siryfflint.gov.uk/DerbyniadauYsgolion neu drwy gysylltu â'r Tîm Derbyniadau (admissions@flintshire.gov.uk; 01352 704068/704073). Bydd y ffurflenni ar gael yn unol â'r amserlen derbyniadau fel y'i nodir yng Nghanllaw Derbyniadau Cyngor Sir y Fflint.

**Amserlen Derbyniadau**

Dilynir amserlen dderbyn yr Awdurdod Lleol ar gyfer prosesu ceisiadau. Gweler www.siryfflint.gov.uk/DerbyniadauYsgolion

**Derbyn i'r Dosbarth Derbyn**

Derbynnir disgyblion i'r dosbarth derbyn yn y flwyddyn academaidd pan maen nhw'n bump oed, h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n bedair oed cyn neu ar 31 Awst ym mis Medi. Pan fydd lle mewn dosbarth derbyn wedi'i gynnig a'i dderbyn, caiff rhieni ohirio dyddiad dechrau eu plentyn tan ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Ni chaiff rhieni ohirio'r dyddiad dechrau y tu hwnt i'r cyfnod hwn, na'r tu hwnt i'r flwyddyn academaidd y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei chyfer.

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn gofyn i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu dderbyn disgyblion hyd at nifer derbyn disgyblion yr ysgol (ND). Mae'r Nifer Derbyn yn golygu nifer y plant y gellir eu derbyn ym mhob grŵp blwyddyn yn ystod blwyddyn yr ysgol ac yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r asesiad capasiti yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'. Y Nifer Derbyn ar gyfer ein hysgol yw 60.

Mae plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol yn flaenoriaeth. Yn achos mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y plant hyn yn cael eu derbyn cyn pawb arall ac eithrio'r rheini sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig gan enwi'r ysgol.

Bydd plant o gymuned Sipsiwn a Theithwyr neu grwpiau teithio yn cael eu trin yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhif: 003/2008 'Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn a Theithwyr'.

Ni fydd yr ysgol yn gwahaniaethu ar sail rhyw, neu yn erbyn ymgeiswyr ar sail hil, lliw, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol neu ethnig.

Bydd pob ymgeisydd yn cael eu derbyn i'r ysgol oni bai bod nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer derbyn (ND).

Bydd yr holl ddewisiadau a dderbynnir yn cael eu hystyried ar sail dewisiadau cyfartal. Nid yw mynegi blaenoriaeth yn gwarantu lle yn ein hysgol os oes gormod o alw am leoedd yn ein hysgol.

Os bydd nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael bydd y meini prawf ar gyfer Mwy o Geisiadau na Nifer y Lleoedd sydd ar Gael canlynol yn cael eu defnyddio yn y drefn isod i benderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn.

Lle mae ein hysgol wedi'i henwi mewn Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, mae dyletswydd ar yr ysgol i dderbyn y plentyn hwnnw.

**Meini Prawf ar gyfer Mwy o Geisiadau na Nifer y Lleoedd sydd ar Gael**

_Plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol.

a) Disgyblion sydd â brawd a chwaer hŷn sydd o oedran ysgol statudol ac sydd wedi cofrestru yn ein hysgol pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi).
b) Disgyblion sydd yn byw yn Ardal Genhadaeth y Gororau a hon yw'r Ysgol Eglwys yng Nghymru addas agosaf at eu cyfeiriad cartref (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi).
c) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi) yn mynychu Eglwys Deiniol Sant yn y Gororau.
d) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall ac mai hon yw'r Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru agosaf.
e) Disgyblion lle mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol di-Anglicanaidd a hon yw'r Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru agosaf iddyn nhw.
f) Disgyblion lle mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a hefyd yn mynegi dyhead am addysg Ysgol Eglwysig, a hon yw Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru agosaf.
g) Plant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynd i Ysgol yr Eglwys yng Nghymru.

Os yw rhieni'n dymuno i ffurflen gais eu plentyn gael ei hystyried dan feini prawf d – g, yna mae'n rhaid iddynt sicrhau bod eu ficer / arweinydd ffydd yn cwblhau ac yn llofnodi ffurflen gwybodaeth atodol (FfGA) a dylid ei dychwelyd at GORFF LLYWODRAETHU YSGOL EGLWYSIG PENTREF PENARLÂG dim hwyrach na **phum wythnos** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau dosbarth Meithrin neu ddosbarth Derbyn (fel bo'n briodol). **Mae'r FfGA yn ceisio gwybodaeth am amlder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae gofyn i'ch offeiriad, gweinidog neu arweinydd ffydd lleol gadarnhau'r manylion hyn.** Mae ffurflen gwybodaeth atodol at y diben hwn i'w cael ar ddiwedd ein polisi derbyn, sydd ar gael ar ar-lein drwy ein gwefan www.siryfflint.gov.uk/DerbyniadauYsgolion neu'n uniongyrchol o'n hysgol.

**Penderfynu**

Os ceir mwy o ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod o'r meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mae'r pellteroedd yn cael eu cyfrifo gan yr ALl. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd. Mae'r system wedi'i hymgorffori ym meddalwedd Capita ONE. Bydd cyfesurynnau cartref ymgeisydd yn cael eu pennu gan ddefnyddio Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a Data Pwynt Cyfeiriad Arolwg Ordnans. Bydd y man cychwyn ar gyfer asesu taith yn cael ei bennu fel y pwynt agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded o gyfeiriad y disgybl (prif fynedfa'r eiddo fel arfer), i bwynt canolog adeilad yr ysgol. Caiff y rhwydwaith ei ddiweddaru'n flynyddol.

**Dyrannu Lleoedd Meithrin**

Derbynnir disgyblion i'r Feithrinfa, sy'n rhan o ddosbarth Blynyddoedd Cynnar yn y flwyddyn academaidd pan mae nhw'n bedair oed, h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n dair oed cyn neu ar 31 Awst ym mis Medi.

Nid yw addysg feithrin yn orfodol ac nid oes gan rieni unrhyw hawl i apelio ynglŷn â derbyniadau meithrin dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Darperir addysg feithrin ar sail sesiynau 5 x 2.5 awr yr wythnos ar gyfer pob plentyn. Mae lleoedd ar gael yn ein dosbarthiadau Meithrin, hyd at ein Nifer Derbyn.

Caiff rhieni fynegi blaenoriaeth ar gyfer unrhyw ddosbarth meithrin waeth beth yw'r pellter rhwng cartref y plentyn a'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw mynegi blaenoriaeth yn gwarantu lle yn y feithrinfa honno. Mewn achos o ormod o geisiadau, defnyddir y meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael i drin ceisiadau am leoedd meithrin.

**Nid** yw derbyniad i'r dosbarth meithrin yn gwarantu derbyniad i'r dosbarth Derbyn. ***Os oes gan blentyn le yn ein dosbarth Meithrin, mae'n rhaid i rieni lenwi'r ffurflen briodol i'w derbyn i'r dosbarth Derbyn. Mae'n rhaid cyflwyno'r ffurflen yn unol â'r Amserlen Derbyniadau (fel y nodwyd uchod).***

**Darpariaeth Cludiant**

Gweler gwefan Cyngor Sir Y Fflint (www.siryfflint.gov.uk/DerbyniadauYsgolion) am wybodaeth ynglŷn â darpariaeth cludiant posibl.

**Ceisiadau Hwyr**

Bydd ceisiadau hwyr (hynny yw, ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd a chyn diwedd y cyfnod dyrannu) yn cael eu hystyried ar ôl y rhai a gyflwynwyd ar amser oni bai bo rhesymau eithriadol pam fod cais yn hwyr.

Mae'n rhaid egluro rhesymau eithriadol, (er enghraifft, pan fo rhiant sengl wedi bod yn sâl am beth amser, neu pan fo teulu newydd symud i'r ardal) yn eich ffurflen gais er mwyn i'r pwyllgor derbyniadau eu hystyried. Mae'n RHAID darparu tystiolaeth ategol ar gais y pwyllgor derbyniadau.

Bydd yr holl geisiadau hwyr yn cael eu graddio yn unol â'r meini prawf mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael a bydd unrhyw leoedd sydd ar gael yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr uchaf ar y raddfa hyd at ddiwedd y cyfnod dyrannu. Wedi hynny, bydd ceisiadau hwyr yn cael eu rhoi ar y rhestr aros.

**Rhestr Aros**

Bydd rhestr aros yn cael ei chynnal os digwydd bod gormod o geisiadau yn dod i mewn i'r ysgol a bydd yn cynnwys:

- y plant hynny y mae eu rhieni wedi gofyn yn benodol yn ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost) i gael eu rhoi ar restr aros yr ysgol,
- y rhai y mae ffurflen apêl wedi ei derbyn ar eu cyfer ac unrhyw geisiadau hwyr.

Yn dilyn dyrannu lleoedd o fewn y cylch derbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent wedi gwneud cais amdano. Bydd plant yn cael eu rhestru ar ein rhestr aros yn nhrefn ein meini prawf mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Felly, os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra bo'r rhestr aros mewn grym, byddant yn cael eu dyrannu i blant ar sail eu safle ar y rhestr aros NID ar sail dyddiad y cais.

Er enghraifft, os yw plentyn yn symud i ardal y tu allan i gylch derbyniadau arferol ac mae ganddynt flaenoriaeth uwch o dan y meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, **mae'n rhaid** eu gosod yn uwch ar y rhestr na rhai â blaenoriaeth is sydd eisoes ar y rhestr.

Bydd rhestrau aros yn cael eu cynnal tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol dan sylw.

**Apeliadau Derbyn**

Os nad ydym yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, mae hynny oherwydd ein bod wedi cyrraedd y nifer derbyn a byddai cynnydd mewn niferoedd yn effeithio'n andwyol ar addysg ein disgyblion

presennol. Mae rhieni sy'n anfodlon â phenderfyniad y Corff Llywodraethu i beidio â derbyn plentyn yn gallu apelio yn erbyn y penderfyniad. Bydd y wybodaeth am sut i apelio yn cael ei chynnwys gyda'r llythyr yn eich hysbysu bod eich cais yn aflwyddiannus. Os byddwch yn arfer yr hawl honno, rhaid i'r apêl gael ei hanfon ymlaen at **Glerc Llywodraethwyr yr ysgol**. Mae'n rhaid cyflwyno apêl yn ysgrifenedig, gan nodi'r rheswm (rhesymau) dros apelio yn llawn, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apêl derbyniadau annibynnol, a gynullwyd gan y Bwrdd Addysg Esgobaethol Statudol yn ôl cod ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion. Mae'r Panel Apeliadau yn gwrando ar yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle i'w plant yn ein hysgol ac mae eu penderfyniad yn derfynol ar gyfer yr holl bartïon dan sylw.

Nid yw'r hawl i apelio yn berthnasol i dderbyniadau Meithrin.

**Pan fydd rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael lle i'w blentyn yn ein hysgol, rydym yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig o le yn ôl. Pan fydd lle'n cael ei dynnu'n ôl, gellir ailgyflwyno'r cais os caiff ei wrthod, mae gan y rhiant yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.**

**<u>Ceisiadau a Dderbynnir y Tu Allan i'r Cylch Derbyn Arferol</u>**

Bydd unrhyw un sy'n mynegi diddordeb i gael ei dderbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol yn cael ffurflen gais ar y pwynt cyswllt cyntaf. Ar ôl eu derbyn, bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hystyried heb oedi a bydd penderfyniad ffurfiol i naill ai gynnig neu wrthod lle yn cael ei wneud a byddwn, cyn belled ag y bo modd, yn hysbysu'r ymgeisydd o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr, pa bynnag un sydd gyntaf.

**<u>Diffiniadau</u>**

**<u>Cyfrifoldeb Rhiant</u>**

Diffinnir "cyfrifoldeb rhiant" yn Neddf Plant 1989 ac mae'n golygu'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant yn ôl y gyfraith mewn perthynas â phlentyn a'i eiddo.

Oni bai y penderfynir fel arall gan orchymyn llys:

- Mamau sydd â chyfrifoldeb rhiant yn awtomatig.
- Mae gan dadau hefyd gyfrifoldeb rhiant am blentyn os yw'r tad yn briod i'r fam ar yr adeg y cafodd y plentyn ei eni. Mae hyn yn parhau ar ôl unrhyw ysgariad/gwahanu/ailbriodi hyd yn oed os yw'r plentyn yn byw ar wahân iddyn nhw.
- Mae gan dadau di-briod gyfrifoldeb rhiant lle mae'r fam a'r tad yn cofrestru genedigaeth y plentyn gyda'i gilydd (dyma ddiwygiad i Ddeddf Plant 1989, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac nid yw'n ôl-weithredol).
- Gall tadau dibriod, llys-rieni, perthnasau ac unigolion eraill gael cyfrifoldeb rhiant ond nid ydynt yn ei gael yn awtomatig. Mewn achosion o'r fath gellir rhoi cyfrifoldeb rhiant drwy;
    - orchymyn preswylio;
    - cael eu penodi'n warcheidwad;
    - cael eu henwi yn y gorchymyn amddiffyn brys (wedi'i gyfyngu i gymryd camau rhesymol i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu'r person ifanc);
    - neu drwy fabwysiadu.
- Nid yw byw gyda'r fam, hyd yn oed am gyfnod maith, yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r tad ac os nad yw'r rhieni wedi priodi, nid yw cyfrifoldeb rhiant o reidrwydd yn cael ei drosglwyddo i'r tad naturiol os yw'r fam yn marw.

Mae angen i'r ysgolion wybod pwy sydd â 'chyfrifoldeb rhiant' ar gyfer pob plentyn. Mae hyn yn sicrhau y rhoddir awdurdod priodol pan fo'r ysgol angen caniatâd rhiant. Bydd hefyd yn sicrhau bod unigolion â chyfrifoldeb rhiant, nad ydynt yn byw gyda'r plentyn, yn gallu derbyn adroddiadau ysgol a chael cyfle i gymryd rhan yn addysg y plentyn.

**<u>Diffiniad o Riant</u>**

Mae rhieni yn cynnwys yr holl bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn fel y nodir yn Neddf Plant 1989. Lle caiff cyfrifoldeb am blentyn ei 'rannu', yr unigolyn

sy'n cael Budd-dal Plant yw’r unigolyn sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni cais ac y defnyddir eu cyfeiriad at ddibenion derbyn.

**Gofal am Blentyn**

Mae gan unigolyn “ofal” am blentyn os yw’r unigolyn yn byw gydag ac yn gofalu am y plentyn, beth bynnag fo ei berthynas â’r plentyn. Mae unigolyn o’r fath yn cael ei ystyried fel “rhiant” at ddibenion Deddf Addysg 1996, er nad oes ganddo gyfrifoldeb rhiant am y plentyn o reidrwydd.

Gofynnir i rieni gydweithio gyda staff yr ysgol drwy ddarparu’r ysgol â manylion yr unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant am ddisgybl, neu sydd yn gofalu am ddisgybl. Dylid hysbysu’r ysgol am unrhyw newid i drefniadau cyfrifoldeb rhiant neu ofal dydd i ddydd y plentyn. Bydd unrhyw gyfeiriad at rieni yn y polisi hwn sy’n ymwneud â materion addysgol hefyd yn ymestyn i gynnwys unrhyw unigolyn sydd yn gofalu am y plentyn / plant.

**Plant sy'n Derbyn Gofal**

Mae ‘Plentyn sy’n Derbyn Gofal’ yn golygu un sy’n ‘Derbyn Gofal’ gan Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant. Mae’r plant hyn yn derbyn y flaenoriaeth uchaf yn y meini prawf ar gyfer gormod o geisiadau ar gyfer yr holl ysgolion, yn cynnwys ceisiadau y tu allan i’r cyfnod derbyniadau arferol. Dylai’r rhiant corfforaethol perthnasol wneud ceisiadau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal.

**Plant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol**

Plant nad ydynt yn derbyn gofal bellach oherwydd eu bod wedi’u mabwysiadu neu’n destun gorchymyn preswylio, neu orchymyn gwarchodaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal.

**Diffiniad o Frawd neu Chwaer**

Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn sydd â brawd, chwaer, llysfrawd neu lyschwaer, hanner brawd neu hanner chwaer neu sy’n blentyn maeth neu blentyn wedi’i fabwysiadu yn byw yn yr uned deuluol yn yr un aelwyd deuluol a chyfeiriad ac y mae brawd neu chwaer yn dal i fod wedi ei gofrestru / chofrestru yn yr ysgol hon pan fo’r plentyn iau yn gymwys i fynychu’r ysgol. Hefyd bydd brodyr a chwiorydd biolegol sydd yn parhau i fod ar gofrestr yr ysgol hon pan fo’r plentyn iau yn gymwys i fynychu yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd heb ystyried eu man preswylio.

Ni chaiff plant sy'n byw ar yr un aelwyd fel rhan o deulu estynedig, megis cefndryd, gael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

**'Preswylio yn' a 'Chyfeiriad Cartref'**

Man preswylio parhaol presennol y plentyn yw'r cyfeiriad y dylid ei roi ar y ffurflen gais.

Ystyr parhaol yw lle y mae eich plentyn yn byw ac yn cysgu am fwyafrif yr wythnos, nid am gyfnod cyfyngedig ac nid mewn man lle mae eich plentyn yn aros dros dro am gyfnod byr.

Cyfeiriad eu rheini fydd hyn fel arfer. Os nad yw’r rhieni yn byw gyda’i gilydd, rhaid nodi cyfeiriad y rhiant y mae’r plentyn yn treulio y rhan fwyaf o amser gyda nhw – fel arfer y rhiant sy’n derbyn budd-dal plant (lle bo hynny’n berthnasol). Os yw'r plentyn yng ngwarchodaeth gyfartal ei ddau riant, y rhieni ddylai benderfynu pa gyfeiriad i'w ddefnyddio ond gallwn ofyn am Orchymyn Llys neu dystiolaeth arall i gadarnhau fod y trefniant hwn yn bodoli. Ni ddylech ddefnyddio cyfeiriad busnes, perthynas neu ofalwr / gwarchodwr plant. Os, am unrhyw reswm, nad chi yw rhiant y plentyn neu fod trefniadau byw y plentyn yn anarferol, eglurwch hyn ar y ffurflen a darparwch dystiolaeth.

**Dim ond** o un cyfeiriad y gellir gwneud cais, a dim ond un cais fesul plentyn y gellir ei wneud. Os na allwch gytuno â’r rhiant arall pa ysgol y dylai eich plentyn ei mynychu, dylech geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun ar unwaith mewn perthynas â gwneud cais brys i’r Llys.

Os bydd angen gofyn am dystiolaeth, efallai y byddwn yn gofyn am sawl eitem i ddangos lle yr ydych yn byw gyda’ch plentyn, mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys y canlynol:

h) trwydded yrru
ii) budd-dal plant
iii) bil treth y cyngor yn eich enw chi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd
iv) bil gwasanaeth yn eich enw chi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd

v) copi o'ch cytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd neu dystiolaeth o unrhyw brydles neu gytundeb sy'n cadarnhau eich hawl i fyw yn y cyfeiriad
vi) unrhyw dystiolaeth arall o'r fath sy'n rhesymol yn ein barn ni

Bydd ein Corff Llywodraethu, ar y cyd â'r Awdurdod Lleol, yn gwirio'r cyfeiriad a ddarperir ar eich cais yn erbyn y cofnodion a gedwir ar gyfer ysgol / meithrinfa bresennol eich plentyn, ac efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth gennych chi os ydynt yn wahanol. Efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn gwirio cofnodion treth y cyngor. Os nad ydych chi wedi nodi eich cyfeirnod treth y cyngor ar eich cais, efallai y byddant yn ysgrifennu atoch i ofyn i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol o'ch cyfeiriad.

At ddibenion dyrannu, bydd unrhyw gynnig o le yn yr ysgol yn seiliedig ar ble fydd eich plentyn yn byw ar ddiwedd y **cyfnod dyrannu** (Gweler Amserlen Derbyniadau'r Awdurdod Lleol), ac yn amodol ar eich plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw, oni bai eich bod wedi ein hysbysu ni, a'n bod wedi derbyn ei fod wedi symud yn y cyfamser.

Os ydych yn symud ar ôl gwneud cais ond bod hynny yn ystod y cyfnod dyrannu, mae'n rhaid i chi roi prawf o'ch cyfeiriad newydd i ni. Mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys, er enghraifft:
i) llythyr cyfreithiwr yn cadarnhau bod pryniant eiddo wedi ei gwblhau; neu ii) gopi o gytundeb rhentu cyfredol, wedi'i lofnodi gan y Tenantiaid a'r Landlordiaid, sy'n dangos cyfeiriad yr eiddo; neu iii) yn achos personél sy'n gwasanaethu Lluoedd E.M. llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu postio gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, FCO neu CHQ.
Byddwn yn ymchwilio i'r holl geisiadau lle mae amheuaeth am y cyfeiriad a roddir.

**Rhybudd Cyfeiriad**

**Gall defnyddio gwybodaeth ffug, camarweiniol, anghyflawn neu anghywir arwain atom yn tynnu cynnig o le yn ôl, hyd yn oed ar ôl i blentyn ddechrau mewn ysgol.**
Gellir tynnu lle plentyn / lleoedd plant yn ôl os yw rhieni yn darparu cyfeiriad anghywir ar eu ffurflen gais gychwynnol, neu ar unrhyw adeg wedi hynny yn ystod y cyfnod dyrannu. Ni fyddwn yn derbyn cyfeiriad dros dro os oes gennych chi eiddo a ddefnyddiwyd fel cyfeiriad cartref yn flaenorol, oni bai bo amgylchiadau eithriadol sy'n dangos yn amlwg na all fod yn gyfeiriad parhaol i chi mwyach.
Ni fyddwn ychwaith yn derbyn cyfeiriad dros dro y credwn sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn derbyn lle yn yr ysgol yn unig. Efallai y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol i egluro pam nad ydych yn gallu defnyddio eich cyfeiriad parhaol.

Byddwn yn ymchwilio i bob honiad o gyfeiriadau ffug. Cyfrifoldeb y rhieni yw darparu dogfennaeth ddigonol i gefnogi preswyliad parhaol yn y cyfeiriad a nodwyd.

**Ysgol yr Eglwys yng Nghymru "Addas"**

Mae hyn yn cyfeirio at y cyfrwng iaith (Cymraeg, Saesneg neu Ddwyieithog) yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

**Efeilliaid, Tripledi, Genedigaethau Lluosog**

Efeilliaid, tripledi, pedrybledau, ac ati, sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n gwneud cais am leoedd yn yr un grŵp blwyddyn yn yr un ysgol.

Mewn achosion lle mae un lle'n weddill mewn ysgol, ac yn ôl y meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, dyrannir y lle i un brawd neu chwaer, ac EFALLAI y derbynnir y brodyr a'r chwiorydd eraill fel eithriadau. Mae cod derbyniadau i Ysgolion Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylai dosbarthiadau babanod gynnwys mwy na 30 disgybl gydag un athro/ athrawes. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, efallai y derbynnir plant fel "eithriadau" i gyfyngiad o ran maint dosbarth babanod; efallai yr ystyrir genedigaethau lluosog fel eithriad, ac os felly, byddai modd derbyn mwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig.

**Sut y profir ymlyniad crefyddol.**

**Cyfeiriad at "fynychu / yn aelodau gweithredol" o feini prawf gordanysgrifio.**

Os yw rhieni'n dymuno i ffurflen gais eu plentyn gael ei hystyried dan feini prawf d – g, yna mae'n rhaid iddynt sicrhau bod eu ficer / arweinydd ffydd yn cwblhau ac yn llofnodi **ffurflen gwybodaeth atodol** (FfGA) a dylid ei dychwelyd at GORFF LLYWODRAETHU YSGOL EGLWYSIG PENTREF PENARLÂG dim hwyrach na **phum wythnos** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau dosbarth Meithrin

neu ddosbarth Derbyn (fel bo'n briodol). **Mae'r FfGA yn ceisio gwybodaeth am amlder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae gofyn i'ch offeiriad, gweinidog neu arweinydd ffydd lleol gadarnhau'r manylion hyn.** Mae ffurflen gwybodaeth atodol at y diben hwn i'w cael ar ddiwedd ein polisi derbyn, sydd ar gael ar ar-lein drwy ein gwefan www.siryfflint.gov.uk/DerbyniadauYsgolion neu'n uniongyrchol o'n hysgol.

Dylid dychwelyd y FfGA i'r ysgol dim hwyrach na **phum wythnos** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau dosbarth Meithrin neu ddosbarth Derbyn (fel bo'n briodol). Nid yw'r Ffurflen Gwybodaeth Atodol yn unig yn ffurfio cais; mae'n rhaid i rieni hefyd lenwi'r Ffurflen Gais fel y manylir ar ddechrau'r polisi hwn.

Caiff aelod ei ddiffinio fel aelod o'r Eglwys yng Nghymru trwy gofrestru ar gofrestr etholiadol y plwyf.

**Adolygu**
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn er mwyn cynnwys unrhyw newid o ran deddfwriaeth neu newid o ran amgylchiadau lleol. Mae'r polisi hwn yn unol â'r cod derbyniadau i Ysgolion Llywodraeth Cymru presennol a chod apeliadau derbyniadau Ysgol Llywodraeth Cymru**.**

## Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Ethelwold, Shotton

Mae Ysgol Sant Ethelwold yn Ysgol Wirfoddol A Gynorthwyir. Mae ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn ysgol a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru a Lloegr lle mae sefydliad neu ymddiriedolaeth (Yr Eglwys yng Nghymru) yn cael dylanwad sylweddol ar redeg yr ysgol.
Mae gennym gysylltiadau cryf ag Eglwys Sant Ethelwold ac mae gennym hanes hir o wasanaethu'r gymuned.
Mae Sant Ethelwold yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Fel Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, mae'r pwyllgor derbyniadau a sefydlwyd gan gorff llywodraethu'r Ysgol, yn gyfrifol am y disgyblion a dderbynnir. Bydd ffurflenni ffafriaeth y rhieni ar gyfer derbyn i ysgolion meithrin a chynradd ar gael ar-lein (dull a ffefrir ar gyfer gwneud cais) yn www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx neu drwy gysylltu â'r Tîm Derbyniadau (admissions@flintshire.gov.uk;; 01352 704068/704073). Bydd y ffurflenni ar gael yn unol â'r amserlen derbyniadau fel y'i nodir yng Nghanllaw Derbyniadau Cyngor Sir y Fflint.

**Amserlen Derbyniadau**
Dilynir amserlen dderbyn yr Awdurdod Lleol ar gyfer prosesu ceisiadau. Gweler www.siryfflint.gov.uk/DerbyniadauYsgolion

**Derbyn i'r Dosbarth Derbyn**
Derbynnir disgyblion i'r dosbarth derbyn yn y flwyddyn academaidd pan maen nhw'n bump oed, h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n bedair oed cyn neu ar 31 Awst ym mis Medi. Pan fydd lle mewn dosbarth derbyn wedi'i gynnig a'i dderbyn, caiff rhieni ohirio dyddiad dechrau eu plentyn tan ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Ni chaiff rhieni ohirio'r dyddiad dechrau y tu hwnt i'r cyfnod hwn, na'r tu hwnt i'r flwyddyn academaidd y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei chyfer.

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn gofyn i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu dderbyn disgyblion hyd at nifer derbyn disgyblion yr ysgol (ND). Mae'r Nifer Derbyn yn golygu nifer y plant y gellir eu derbyn ym mhob grŵp blwyddyn yn ystod blwyddyn yr ysgol ac yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r asesiad capasiti yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'. Y Nifer Derbyn ar gyfer ein hysgol yw 15.

Mae plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol yn flaenoriaeth. Yn achos mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y plant hyn yn cael eu derbyn cyn pawb arall ac eithrio'r rheini sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig gan enwi'r ysgol.

Bydd plant o gymuned Sipsiwn a Theithwyr neu grwpiau teithio yn cael eu trin yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhif: 003/2008 'Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn a Theithwyr'.

Ni fydd yr ysgol yn gwahaniaethu ar sail rhyw, neu yn erbyn ymgeiswyr ar sail hil, lliw, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol neu ethnig.

Bydd pob ymgeisydd yn cael eu derbyn i'r ysgol oni bai bod nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer derbyn (ND).

Bydd yr holl ddewisiadau a dderbynnir yn cael eu hystyried ar sail dewisiadau cyfartal. Nid yw mynegi blaenoriaeth yn gwarantu lle yn ein hysgol os oes gormod o alw am leoedd yn ein hysgol.

Os bydd nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael bydd y meini prawf ar gyfer Mwy o Geisiadau na Nifer y Lleoedd sydd ar Gael canlynol yn cael eu defnyddio yn y drefn isod i benderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn.

Lle mae ein hysgol wedi'i henwi mewn Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, mae dyletswydd ar yr ysgol i dderbyn y plentyn hwnnw.

**Meini Prawf ar gyfer Mwy o Geisiadau na Nifer y Lleoedd sydd ar Gael**

a) Plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol
b) Disgyblion sydd â brawd a chwaer hŷn sydd o oedran ysgol statudol ac sydd wedi cofrestru yn ein hysgol pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi).
c) Disgyblion sydd yn byw yn Ardal Genhadaeth y Gororau a hon yw'r Ysgol yr Eglwys yng Nghymru agosaf addas i'w cyfeiriad cartref (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi).
d) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi) yn mynychu Eglwys Sant Ethelwold.
e) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall ac mai hon yw Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys agosaf.
f) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol an-Anglicanaidd ac mai hon yw'r Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys agosaf iddynt.
g) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a hefyd yn mynegi dyhead am addysg Ysgol Eglwysig, a hon yw'r Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys agosaf.
h) Plant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynd i Ysgol yr Eglwys yng Nghymru.

Os yw rhieni'n dymuno i gais eu plentyn gael ei ystyried dan feini prawf d i g, yna mae'n rhaid iddynt sicrhau bod eu ficer / arweinydd ffydd yn llenwi ac yn llofnodi ffurflen gwybodaeth atodol (FfGA) a'i dychwelyd at Gorff Llywodraethu Ysgol Sant Ethelwold ddim hwyrach na ***phum wythnos*** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau dosbarth Meithrin neu ddosbarth Derbyn (fel bo'n briodol). **Mae'r FfGA yn ceisio gwybodaeth am amlder mynychu gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan yr offeiriad, y gweinidog neu'r arweinydd ffydd lleol.** Mae ffurflen gwybodaeth atodol at y diben hwn i'w cael ar ddiwedd ein polisi derbyn, sydd ar gael ar ar-lein drwy ein gwefan www.flintshire.gov.uk/schools/schooladmissions, neu'n uniongyrchol o'n hysgol.

**Penderfynu**

Os ceir mwy o ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod o'r meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mae'r pellteroedd yn cael eu cyfrifo gan yr ALl. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd. Mae'r system wedi'i hymgorffori ym meddalwedd Capita ONE. Bydd cyfesurynnau cartref ymgeisydd yn cael eu pennu gan ddefnyddio Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a Data Pwynt Cyfeiriad Arolwg Ordnans. Bydd y man cychwyn ar gyfer asesu taith yn cael ei bennu fel y pwynt agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded o gyfeiriad y disgybl (prif fynedfa'r eiddo fel arfer), i bwynt canolog adeilad yr ysgol. Caiff y rhwydwaith ei ddiweddaru'n flynyddol.

**Dyrannu Lleoedd Meithrin**

Derbynnir disgyblion i'r Feithrinfa, sy'n rhan o ddosbarth Blynyddoedd Cynnar yn y flwyddyn academaidd pan maen nhw'n bedair oed, h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n dair oed cyn neu ar 31 Awst ym mis Medi.

Nid yw addysg feithrin yn orfodol ac nid oes gan rieni unrhyw hawl i apelio ynglŷn â derbyniadau meithrin dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Darperir addysg feithrin ar sail sesiynau 5 x 2.5 awr yr wythnos ar gyfer pob plentyn. Mae lleoedd ar gael yn ein dosbarthiadau Meithrin, hyd at ein Nifer Derbyn.

Caiff rhieni fynegi ffafriaeth ar gyfer unrhyw ddosbarth meithrin waeth beth yw'r pellter rhwng cartref y plentyn a'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw mynegi ffafriaeth yn gwarantu lle yn y feithrinfa honno. Os oes gormod o geisiadau, defnyddir y meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael i drin ceisiadau am leoedd meithrin.

Nid yw cael eich derbyn i'r dosbarth meithrin yn gwarantu eich derbyn i'r dosbarth Derbyn. ***Os oes gan blentyn le yn ein dosbarth Meithrin, mae'n rhaid i rieni lenwi'r ffurflen briodol i'w derbyn i'r dosbarth Derbyn. Mae'n rhaid cyflwyno'r ffurflen yn unol â'r Amserlen Derbyniadau (fel y nodwyd uchod).***

Gweler gwefan Cyngor Sir y Fflint (www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx) am wybodaeth ynglŷn â darpariaeth cludiant posibl.

**Ceisiadau Hwyr**

Bydd ceisiadau hwyr (hynny yw, ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd a chyn diwedd y cyfnod dyrannu) yn cael eu hystyried ar ôl y rhai a gyflwynwyd ar amser oni bai bo rhesymau eithriadol pam fod cais yn hwyr.

Mae'n rhaid egluro rhesymau eithriadol, (er enghraifft, pan fo rhiant sengl wedi bod yn sâl am beth amser, neu pan fo teulu newydd symud i'r ardal) yn eich ffurflen gais er mwyn i'r pwyllgor derbyniadau eu hystyried. Mae'n RHAID darparu tystiolaeth ategol ar gais y pwyllgor derbyniadau.

Bydd yr holl geisiadau hwyr yn cael eu graddio yn unol â'r meini prawf mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael a bydd unrhyw leoedd sydd ar gael yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr uchaf ar y raddfa hyd at ddiwedd y cyfnod dyrannu. Wedi hynny, bydd ceisiadau hwyr yn cael eu rhoi ar y rhestr aros.

**Rhestr Aros**

Bydd rhestr aros yn cael ei chynnal os digwydd bod gormod o geisiadau yn dod i mewn i'r ysgol a bydd yn cynnwys:

- y plant hynny y mae eu rhieni wedi gofyn yn benodol yn ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost) i gael eu rhoi ar restr aros yr ysgol,
- y rhai y mae ffurflen apêl wedi ei derbyn ar eu cyfer
- unrhyw geisiadau hwyr.

Yn dilyn dyrannu lleoedd o fewn y cylch derbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent wedi gwneud cais amdani. Bydd plant yn cael eu rhestru ar ein rhestr aros yn nhrefn ein meini prawf pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Felly, os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra bo'r rhestr aros mewn grym, byddant yn cael eu dyrannu i blant ar sail eu safle ar y rhestr aros NID ar sail dyddiad y cais.

Er enghraifft, os yw plentyn yn symud i ardal y tu allan i gylch derbyniadau arferol ac mae ganddynt flaenoriaeth uwch o dan y meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, mae'n rhaid eu gosod yn uwch ar y rhestr na rhai â blaenoriaeth is sydd eisoes ar y rhestr.

Bydd rhestrau aros yn cael eu cynnal tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol dan sylw.

**Apeliadau Derbyn**

Os nad ydym yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, mae hynny oherwydd ein bod wedi cyrraedd y nifer derbyn a byddai cynnydd mewn niferoedd yn effeithio'n andwyol ar addysg ein disgyblion presennol. Mae rhieni sy'n anfodlon â phenderfyniad y Corff Llywodraethu i beidio â derbyn plentyn yn gallu apelio yn erbyn y penderfyniad. Bydd y wybodaeth am sut i apelio yn cael ei chynnwys gyda'r llythyr yn eich hysbysu bod eich cais yn aflwyddiannus. Os byddwch yn arfer yr hawl honno, rhaid i'r apêl gael ei hanfon ymlaen at **Glerc Llywodraethwyr yr ysgol**. Mae'n rhaid cyflwyno apêl yn ysgrifenedig, gan nodi'r rheswm (rhesymau) dros apelio yn llawn, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apêl derbyniadau annibynnol, a gynullwyd gan y Bwrdd Addysg Esgobaethol Statudol yn ôl cod ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion. Mae'r Panel Apeliadau yn gwrando ar yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle i'w plant yn ein hysgol ac mae eu penderfyniad yn derfynol ar gyfer yr holl bartïon dan sylw.

Nid yw'r hawl i apelio yn berthnasol i dderbyniadau Meithrin.

**Pan fydd rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael lle i'w blentyn yn ein hysgol, rydym yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig o le yn ôl. Pan fydd lle'n cael ei dynnu'n ôl, gellir ailgyflwyno'r cais os caiff ei wrthod, mae gan y rhiant yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.**

**Ceisiadau a Dderbynnir y Tu Allan i'r Cylch Derbyn Arferol**

Bydd unrhyw un sy'n mynegi diddordeb i gael ei dderbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol yn cael ffurflen gais ar y pwynt cyswllt cyntaf. Ar ôl eu derbyn, bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hystyried heb oedi a bydd penderfyniad ffurfiol i naill ai gynnig neu wrthod lle yn cael ei wneud a byddwn, cyn belled ag y bo modd, yn hysbysu'r ymgeisydd o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr, pa bynnag un sydd gyntaf.

## Diffiniadau

### Cyfrifoldeb Rhiant

Diffinnir "cyfrifoldeb rhiant" yn Neddf Plant 1989 ac mae'n golygu'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant yn ôl y gyfraith mewn perthynas â phlentyn a'i eiddo.

Oni bai y penderfynir fel arall gan orchymyn llys:

- Mamau sydd â chyfrifoldeb rhiant yn awtomatig
- Mae gan dadau hefyd gyfrifoldeb rhiant am blentyn os yw'r tad yn briod i'r fam ar yr adeg y cafodd y plentyn ei eni. Mae hyn yn parhau ar ôl unrhyw ysgariad/gwahanu/ailbriodi hyd yn oed os yw'r plentyn yn byw ar wahân iddyn nhw
- Mae gan dadau di-briod gyfrifoldeb rhiant lle mae'r fam a'r tad yn cofrestru genedigaeth y plentyn gyda'i gilydd (dyma ddiwygiad i Ddeddf Plant 1989, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac nid yw'n ôl-weithredol)
- Gall tadau dibriod, llys-rieni, perthnasau ac unigolion eraill gael cyfrifoldeb rhiant ond nid ydynt yn ei gael yn awtomatig. Mewn achosion o'r fath gellir rhoi cyfrifoldeb rhiant drwy;
    - orchymyn preswylio;
    - cael eu penodi'n warcheidwad;
    - cael eu henwi mewn gorchymyn amddiffyn bryd (wedi'i gyfyngu

  i gymryd camau rhesymol i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu'r person ifanc);
    - neu drwy fabwysiadu.
- Nid yw byw gyda'r fam, hyd yn oed am gyfnod maith, yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r tad ac os nad yw'r rhieni wedi priodi, nid yw cyfrifoldeb rhiant o reidrwydd yn cael ei drosglwyddo i'r tad naturiol os yw'r fam yn marw.

Mae angen i'r ysgolion wybod pwy sydd â 'chyfrifoldeb rhiant' ar gyfer pob plentyn. Mae hyn yn sicrhau y rhoddir awdurdod priodol pan fo'r ysgol angen caniatâd rhiant. Bydd hefyd yn sicrhau bod unigolion â chyfrifoldeb rhiant, nad ydynt yn byw gyda'r plentyn, yn gallu derbyn adroddiadau ysgol a chael cyfle i gymryd rhan yn addysg y plentyn.

### Diffiniad o Riant

Mae rhieni yn cynnwys yr holl bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn fel y nodir yn Neddf Plant 1989. Lle caiff cyfrifoldeb am blentyn ei 'rannu', yr unigolyn sy'n cael Budd-dal Plant yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni cais ac y defnyddir eu cyfeiriad at ddibenion derbyn.

### Gofal am Blentyn

Mae gan unigolyn "ofal" am blentyn os yw'r unigolyn yn byw gydag ac yn gofalu am y plentyn, beth bynnag fo ei berthynas â'r plentyn. Mae unigolyn o'r fath yn cael ei ystyried fel "rhiant" at ddibenion Deddf Addysg 1996, er nad oes o reidrwydd ganddo gyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

Gofynnir i rieni gydweithio gyda staff yr ysgol drwy ddarparu manylion i'r ysgol am yr unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant am ddisgybl, neu sy'n gofalu am ddisgybl. Dylid hysbysu'r ysgol am unrhyw newid i drefniadau cyfrifoldeb rhiant neu ofal dydd i ddydd y plentyn. Bydd unrhyw gyfeiriad at rieni yn y polisi hwn sy'n ymwneud â materion addysgol hefyd yn ymestyn i gynnwys unrhyw unigolyn sy'n gofalu am y plentyn / plant.

**Plant sy'n Derbyn Gofal**
Mae ‘Plentyn sy’n Derbyn Gofal’ yn golygu un sy’n ‘Derbyn Gofal’ gan Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant. Mae’r plant hyn yn derbyn y flaenoriaeth uchaf yn y meini prawf ar gyfer gormod o geisiadau ar gyfer yr holl ysgolion, yn cynnwys ceisiadau y tu allan i’r cyfnod derbyniadau arferol. Dylai’r rhiant corfforaethol perthnasol wneud ceisiadau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal.

**Plant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol**
Plant nad ydynt yn derbyn gofal bellach oherwydd eu bod wedi’u mabwysiadu neu’n destun gorchymyn preswylio, neu orchymyn gwarchodaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal.

**Diffiniad o Frawd neu Chwaer**
Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn sydd â brawd, chwaer, llysfrawd neu lyschwaer, hanner brawd neu hanner chwaer neu sy’n blentyn maeth neu blentyn wedi’i fabwysiadu yn byw yn yr uned deuluol yn yr un aelwyd deuluol a chyfeiriad ac y mae brawd neu chwaer yn dal i fod wedi ei gofrestru / chofrestru yn yr ysgol hon pan fo’r plentyn iau yn gymwys i fynychu’r ysgol. Hefyd bydd brodyr a chwiorydd biolegol sy’n parhau i fod ar gofrestr yr ysgol hon pan fo’r plentyn iau yn gymwys i fynychu yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd heb ystyried eu man preswylio.

Ni chaiff plant sy'n byw ar yr un aelwyd fel rhan o deulu estynedig, megis cefndryd, gael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

**'Preswylio yn' a 'Chyfeiriad Cartref'**
Man preswylio parhaol presennol y plentyn yw'r cyfeiriad y dylid ei roi ar y ffurflen gais.

Ystyr parhaol yw lle y mae eich plentyn yn byw ac yn cysgu am fwyafrif yr wythnos, nid am gyfnod cyfyngedig ac nid mewn man lle mae eich plentyn yn aros dros dro am gyfnod byr.

Cyfeiriad eu rheini fydd hyn fel arfer. Os nad yw’r rhieni yn byw gyda’i gilydd, rhaid nodi cyfeiriad y rhiant y mae’r plentyn yn treulio y rhan fwyaf o amser gyda nhw – fel arfer y rhiant sy’n derbyn budd-dal plant (lle bo hynny’n berthnasol). Os yw'r plentyn yng ngwarchodaeth gyfartal ei ddau riant, y rhieni ddylai benderfynu pa gyfeiriad i'w ddefnyddio ond gallwn ofyn am Orchymyn Llys neu dystiolaeth arall i gadarnhau fod y trefniant hwn yn bodoli. Ni ddylech ddefnyddio cyfeiriad busnes, perthynas neu ofalwr / gwarchodwr plant. Os, am unrhyw reswm, nad chi yw rhiant y plentyn neu fod trefniadau byw y plentyn yn anarferol, eglurwch hyn ar y ffurflen a darparwch dystiolaeth.

**Dim ond** o un cyfeiriad y gellir gwneud cais, a dim ond un cais fesul plentyn y gellir ei wneud.
Os na allwch gytuno â’r rhiant arall pa ysgol y dylai eich plentyn ei mynychu, dylech geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun ar unwaith mewn perthynas â gwneud cais brys i’r Llys.

Os bydd angen gofyn am dystiolaeth, efallai y byddwn yn gofyn am sawl eitem i ddangos lle yr ydych yn byw gyda’ch plentyn, mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys y canlynol:
i) trwydded yrru
ii) budd-dal plant,
iii) bil treth y cyngor yn eich enw chi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd
iv) bil gwasanaeth yn eich enw chi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd
v) copi o’ch cytundeb tenantiaeth wedi’i lofnodi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd neu dystiolaeth o unrhyw brydles neu gytundeb sy’n cadarnhau eich hawl i fyw yn y cyfeiriad.
vi) unrhyw dystiolaeth arall o’r fath sy’n rhesymol yn ein barn ni

Bydd ein Corff Llywodraethu, ar y cyd â’r Awdurdod Lleol, yn gwirio’r cyfeiriad a ddarperir ar eich cais yn erbyn y cofnodion a gedwir ar gyfer ysgol / meithrinfa bresennol eich plentyn, ac efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth gennych chi os ydynt yn wahanol. Efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn gwirio cofnodion treth y cyngor. Os nad ydych chi wedi nodi eich cyfeirnod treth y cyngor ar eich cais, efallai y byddant yn ysgrifennu atoch i ofyn i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol o’ch cyfeiriad.

At ddibenion dyrannu, bydd unrhyw gynnig o le yn yr ysgol yn seiliedig ar ble fydd eich plentyn yn byw ar ddiwedd y **cyfnod dyrannu** (Gweler Amserlen Derbyniadau’r Awdurdod Lleol), ac yn amodol ar eich plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw, oni bai eich bod wedi ein hysbysu ni, a’n bod wedi derbyn ei fod wedi symud yn y cyfamser.

Os ydych yn symud ar ôl gwneud cais ond bod hynny yn ystod y cyfnod dyrannu, mae’n rhaid i chi roi prawf o’ch cyfeiriad newydd i ni. Mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys, er enghraifft:

i) llythyr cyfreithiwr yn cadarnhau fod pryniant eiddo wedi cael ei gwblhau; neu
ii) copi o'r cytundeb rhentu presennol, wedi'i lofnodi gan y Tenantiaid a'r Landlordiaid, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
iii) yn achos personél sy'n gwasanaethu yn Lluoedd Ei Mawrhydi, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu lleoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, FCO neu CHQ.
Byddwn yn ymchwilio i'r holl geisiadau lle mae amheuaeth am y cyfeiriad a roddir.

**Rhybudd Cyfeiriad**

**Gall defnyddio gwybodaeth ffug, gamarweiniol, anghyflawn neu anghywir arwain atom yn tynnu cynnig o le yn ôl, hyd yn oed ar ôl i blentyn ddechrau mewn ysgol.**
Gellir tynnu lle plentyn / lleoedd plant yn ôl os yw rhieni yn darparu cyfeiriad anghywir ar eu ffurflen gais gychwynnol, neu ar unrhyw adeg wedi hynny yn ystod y cyfnod dyrannu. Ni fyddwn yn derbyn cyfeiriad dros dro os oes gennych chi eiddo a ddefnyddiwyd fel cyfeiriad cartref yn flaenorol, oni bai bo amgylchiadau eithriadol sy'n dangos yn amlwg na all fod yn gyfeiriad parhaol i chi mwyach.
Ni fyddwn ychwaith yn derbyn cyfeiriad dros dro y credwn sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn derbyn lle yn yr ysgol yn unig. Efallai y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol i egluro pam nad ydych yn gallu defnyddio eich cyfeiriad parhaol.

Byddwn yn ymchwilio i bob honiad o gyfeiriadau ffug. Cyfrifoldeb y rhieni yw darparu dogfennaeth ddigonol i gefnogi preswyliad parhaol yn y cyfeiriad a nodwyd.

**Ysgol yr Eglwys yng Nghymru "Addas"**

Mae hyn yn cyfeirio at y cyfrwng iaith (Cymraeg, Saesneg neu Ddwyieithog) yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

**Efeilliaid, Tripledi, Genedigaethau Lluosog**

Efeilliaid, tripledi, pedrybledau, ac ati, sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n gwneud cais am leoedd yn yr un grŵp blwyddyn yn yr un ysgol.

Mewn achosion lle mae un lle'n weddill mewn ysgol, ac yn ôl y meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, dyrannir y lle i un brawd neu chwaer, ac EFALLAI y derbynnir y brodyr a'r chwiorydd eraill fel eithriadau. Mae cod derbyniadau i Ysgolion Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylai dosbarthiadau babanod gynnwys mwy na 30 disgybl gydag un athro/ athrawes. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, efallai y derbynnir plant fel "eithriadau" i gyfyngiad o ran maint dosbarth babanod; efallai yr ystyrir genedigaethau lluosog fel eithriad, ac os felly, byddai modd derbyn mwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig.

**Sut y profir ymlyniad crefyddol.**

**Cyfeiriad at "fynychu / yn aelodau gweithredol" o feini prawf gordanysgrifio.**

Os yw rhieni'n dymuno i gais eu plentyn gael ei ystyried dan feini prawf d i g, yna mae'n rhaid iddynt sicrhau bod eu ficer / arweinydd ffydd yn llenwi ac yn llofnodi **ffurflen gwybodaeth atodol** (FfGA) a'i dychwelyd at Gorff Llywodraethu Ysgol Sant Ethelwold ddim hwyrach na ***phum wythnos*** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau dosbarth Meithrin neu ddosbarth Derbyn (fel bo'n briodol). **Mae'r FfGA yn ceisio gwybodaeth am amlder mynychu gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan yr offeiriad, y gweinidog neu'r arweinydd ffydd lleol.** Mae ffurflen gwybodaeth atodol at y diben hwn i'w cael ar ddiwedd ein polisi derbyn, sydd ar gael ar ar-lein drwy ein gwefan www.flintshire.gov.uk/schools/schooladmissions, neu'n uniongyrchol o'n hysgol.

Dylid dychwelyd y FfGA i'r ysgol dim hwyrach na ***phum wythnos*** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau dosbarth Meithrin neu ddosbarth Derbyn (fel bo'n briodol). Nid yw'r Ffurflen Gwybodaeth Atodol yn unig yn gyfystyr â chais; mae'n rhaid i rieni hefyd lenwi'r Ffurflen Gais fel y manylir ar ddechrau'r polisi hwn.

Y diffiniad o aelod yw aelod o'r Eglwys yng Nghymru trwy gofrestru ar gofrestr etholiadol y plwyf.

**Adolygu**

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn er mwyn cynnwys unrhyw newid o ran deddfwriaeth neu newid o ran amgylchiadau lleol.

Mae'r polisi hwn yn unol â'r cod derbyniadau i Ysgolion Llywodraeth Cymru presennol a chod apeliadau derbyniadau Ysgol Llywodraeth Cymru.

## Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Ioan Fedyddiwr, Pentrerobin

Fel ysgol eglwysig, mae gwerthoedd Cristnogol wrth galon y cyfan a wnawn. Y rhain yw:

Cyfeillgarwch, ymddiriedaeth, maddeuant, gwroldeb, creadigrwydd, heddwch, gobaith a diolchgarwch.

Mae athrawon, llywodraethwyr a rheini i gyd yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth gydag un nod cyffredin: gwneud y gorau y gallwn ni dros ein plant. Rydym yn ymdrechu i greu amgylchedd lle mae disgyblion yn cael eu herio'n ddiogel, yn cael eu cefnogi ac yn teimlo'n hyderus. Gwerthfawrogir pob plentyn a chredwn y dylid cymell pob plentyn i gyrraedd ei botensial neu ei photensial, er mwyn cymryd eu lle fel dinesydd da yn y gymuned.

Os hoffech chi wybod mwy amdanon ni neu os hoffech chi drefnu ymweliad, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol.

Mae Ysgol a Gynorthwyir yn Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru Sant Ioan Fedyddiwr yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Fel Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, mae'r pwyllgor derbyniadau a sefydlwyd gan gorff llywodraethu'r Ysgol, yn gyfrifol am y disgyblion a dderbynnir. Bydd ffurflenni ffafriaeth y rhieni ar gyfer derbyn i ysgolion meithrin a chynradd ar gael ar-lein (dull a ffefrir ar gyfer gwneud cais) yn www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx neu drwy gysylltu â'r Tîm Derbyniadau (admissions@flintshire.gov.uk;; 01352 704068/704073). Bydd y ffurflenni ar gael yn unol â'r amserlen derbyniadau fel y'i nodir yng Nghanllaw Derbyniadau Cyngor Sir y Fflint.

### Amserlen Derbyniadau

Dilynir amserlen dderbyn yr Awdurdod Lleol ar gyfer prosesu ceisiadau. Gweler www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx

### Derbyn i'r Dosbarth Derbyn

Derbynnir disgyblion i'r dosbarth derbyn yn y flwyddyn academaidd pan maen nhw'n bump oed, h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n bedair oed cyn neu ar 31 Awst ym mis Medi. Pan fydd lle mewn dosbarth derbyn wedi'i gynnig a'i dderbyn, caiff rhieni ohirio dyddiad dechrau eu plentyn tan ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Ni chaiff rhieni ohirio'r dyddiad dechrau y tu hwnt i'r cyfnod hwn, na'r tu hwnt i'r flwyddyn academaidd y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei chyfer.

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn gorchymyn fod ALl a Chyrff Llywodraethu yn derbyn disgyblion hyd at nifer derbyn yr ysgol. Mae'r Nifer Derbyn yn ymwneud â nifer y plant y gellir eu derbyn i bob grŵp blwyddyn yn ystod y flwyddyn ysgol ac mae'n cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull asesu nifer lleoedd yn nogfen canllawiau 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'. Y Nifer Derbyn ar gyfer ein hysgol yw 15.

Mae plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol yn flaenoriaeth. Yn achos mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y plant hyn yn cael eu derbyn cyn pawb arall ac eithrio'r rheini sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig gan enwi'r ysgol.

Bydd plant o gymuned Sipsiwn a Theithwyr neu grwpiau teithio yn cael eu trin yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhif: 003/2008 'Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn a Theithwyr'.

Ni fydd yr ysgol yn gwahaniaethu ar sail rhyw, neu yn erbyn ymgeiswyr ar sail hil, lliw, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol neu ethnig.

Bydd pob ymgeisydd yn cael eu derbyn i'r ysgol oni bai bod nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer derbyn (ND).

Bydd yr holl ddewisiadau a dderbynnir yn cael eu hystyried ar sail dewisiadau cyfartal. Nid yw mynegi blaenoriaeth yn gwarantu lle yn ein hysgol os oes gormod o alw am leoedd yn ein hysgol.

Os bydd nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael bydd y meini prawf ar gyfer Mwy o Geisiadau na Nifer y Lleoedd sydd ar Gael canlynol yn cael eu defnyddio yn y drefn isod i benderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn.

Lle mae ein hysgol wedi'i henwi mewn Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, mae dyletswydd ar yr ysgol i dderbyn y plentyn hwnnw.

**Meini Prawf ar gyfer Mwy o Geisiadau na Nifer y Lleoedd sydd ar Gael**

a) Plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol
b) Disgyblion sydd â brawd a chwaer hŷn sydd o oedran ysgol statudol ac sydd wedi cofrestru yn ein hysgol pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi).
c) Disgyblion sy'n byw yn Ardal Genhadaeth y Gororau ac mai hon yw ysgol agosaf yr Eglwys yng Nghymru at eu cyfeiriad cartref. (gweler adran "Diffiniadau" y polisi).
d) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" y polisi) yn mynychu Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr yn Ardal Genhadaeth y Gororau.
e) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall ac mai hon yw Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys agosaf.
f) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" y polisi) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol an-Anglicanaidd ac mai hon yw'r Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys agosaf iddynt.
g) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a hefyd yn mynegi dyhead am addysg Ysgol Eglwysig, a hon yw'r Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys agosaf.
h) Plant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu Ysgol yr Eglwys yng Nghymru.

Os yw rhieni'n dymuno i gais eu plentyn gael ei ystyried dan feini prawf d i g, yna mae'n rhaid iddynt sicrhau bod eu ficer / arweinydd ffydd yn llenwi ac yn llofnodi ffurflen gwybodaeth atodol (FfGA) a'i dychwelyd at Gorff Llywodraethu Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Ioan Fedyddiwr ddim hwyrach na ***phum wythnos*** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau dosbarth Meithrin neu ddosbarth Derbyn (fel bo'n briodol). **Mae'r FfGA yn ceisio gwybodaeth am amlder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul neu wasanaethau eraill a arweinir gan yr eglwys. Mae gofyn i'ch offeiriad, gweinidog neu arweinydd ffydd lleol gadarnhau'r manylion hyn.** Mae ffurflen gwybodaeth atodol at y diben hwn i'w cael ar ddiwedd ein polisi derbyn, sydd ar gael ar ar-lein drwy ein gwefan www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx, neu'n uniongyrchol o'n hysgol.

**Penderfynu**

Os ceir mwy o ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod o'r meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mae'r pellteroedd yn cael eu cyfrifo gan yr ALl. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd. Mae'r system wedi'i hymgorffori ym meddalwedd Capita ONE. Bydd cyfesurynnau cartref ymgeisydd yn cael eu pennu gan ddefnyddio Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a Data Pwynt Cyfeiriad Arolwg Ordnans. Bydd y man cychwyn ar gyfer asesu taith yn cael ei bennu fel y pwynt agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded o gyfeiriad y disgybl (prif fynedfa'r eiddo fel arfer), i bwynt canolog adeilad yr ysgol. Caiff y rhwydwaith ei ddiweddaru'n flynyddol.

**Dyrannu Lleoedd Meithrin**

Derbynnir disgyblion i'r Feithrinfa, sy'n rhan o ddosbarth Blynyddoedd Cynnar yn y flwyddyn academaidd pan maen nhw'n bedair oed, h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n dair oed cyn neu ar 31 Awst ym mis Medi.

Nid yw addysg feithrin yn orfodol ac nid oes gan rieni unrhyw hawl i apelio ynglŷn â derbyniadau meithrin dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Darperir addysg feithrin ar sail sesiynau 5 x 2.5 awr yr wythnos ar gyfer pob plentyn. Mae lleoedd ar gael yn ein dosbarthiadau Meithrin, hyd at ein Nifer Derbyn.

Caiff rhieni fynegi ffafriaeth ar gyfer unrhyw ddosbarth meithrin waeth beth yw'r pellter rhwng cartref y plentyn a'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw mynegi ffafriaeth yn gwarantu lle yn y feithrinfa honno. Os oes gormod o geisiadau, defnyddir y meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael i drin ceisiadau am leoedd meithrin.

**Nid yw** cael eich derbyn i'r dosbarth meithrin yn gwarantu eich derbyn i'r dosbarth Derbyn. ***Os oes gan blentyn le yn ein dosbarth Meithrin, mae'n rhaid i rieni lenwi'r ffurflen briodol i'w dderbyn***

***i'r dosbarth Derbyn. Mae'n rhaid cyflwyno'r ffurflen yn unol â'r Amserlen Derbyniadau (fel y nodwyd uchod).***

**Darpariaeth Cludiant**

Gweler gwefan Cyngor Sir y Fflint (www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx) am wybodaeth ynglŷn â darpariaeth cludiant posibl.

**Ceisiadau Hwyr**

Bydd ceisiadau hwyr (hynny yw, ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd a chyn diwedd y cyfnod dyrannu) yn cael eu hystyried ar ôl y rhai a gyflwynwyd ar amser oni bai bo rhesymau eithriadol pam fod cais yn hwyr.

Mae'n rhaid egluro rhesymau eithriadol, (er enghraifft, pan fo rhiant sengl wedi bod yn sâl am beth amser, neu pan fo teulu newydd symud i'r ardal) yn eich ffurflen gais er mwyn i'r pwyllgor derbyniadau eu hystyried. Mae'n RHAID darparu tystiolaeth ategol ar gais y pwyllgor derbyniadau.

Bydd yr holl geisiadau hwyr yn cael eu graddio yn unol â'r meini prawf mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael a bydd unrhyw leoedd sydd ar gael yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr uchaf ar y raddfa hyd at ddiwedd y cyfnod dyrannu. Wedi hynny, bydd ceisiadau hwyr yn cael eu rhoi ar y rhestr aros.

**Rhestr Aros**

1. Bydd rhestrau aros ar gyfer ysgolion â mwy o geisiadau na nifer y lleoedd yn cynnwys y plant hynny sydd â'u rhieni wedi gofyn yn benodol yn ysgrifenedig, drwy e-bost o bosib, i'w gosod ar restr aros yr ysgol â dderbyniwyd ffurflen apêl yr ysgol ar eu cyfer. Bydd rhestrau aros yn cael eu cynnal tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol dan sylw. Ar ôl y dyddiad hwnnw, mae unrhyw rieni sy'n dal i ddymuno cael eu hystyried wneud cais ysgrifenedig penodol i aros ar y rhestr aros. Os yw lleoedd yn dod ar gael, byddant yn cael eu dyrannu yn ôl y meini prawf mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael ac nid yn ôl y dyddiad y cyflwynwyd y cais neu pan ychwanegwyd enw'r plentyn i'r rhestr aros.

2. Ar gyfer ysgolion cynradd, bydd unrhyw leoedd derbyn sy'n dod ar gael ar ôl 16 Ebrill (dyddiad y cynnig) yn cael eu dyrannu ar ôl 16 Mai. Yna bydd y rhestrau aros yn cael eu diweddaru a bydd unrhyw leoedd pellach sy'n dod ar gael yn cael eu dyrannu ar ôl 16 Mehefin.

3. Lle bo ceisiadau i drosglwyddo rhwng ysgolion tu allan i gyfnodau derbyn arferol yn cael eu gwrthod, bydd yr ALl, mewn cytundeb â'r rhiant, yn rhoi enw'r plentyn ar restr aros a fydd yn parhau i fod ar agor tan ddiwedd y tymor ysgol* y gwnaed y cais ar ei gyfer. Ar ôl y dyddiad hwnnw, rhaid i rieni wneud cais penodol i enw eu plentyn aros ar y rhestr aros am dymor ysgol yn ychwanegol* neu fel arall bydd eu henw'n cael ei ddileu.

*Os gwneir y cais ar ddiwedd y tymor ysgol, gall enw'r plentyn aros ar y rhestr aros.

**Apeliadau Derbyn**

Os nad ydym yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, mae hynny oherwydd ein bod wedi cyrraedd y nifer derbyn a byddai cynnydd mewn niferoedd yn effeithio'n andwyol ar addysg ein disgyblion presennol. Mae rhieni sy'n anfodlon â phenderfyniad y Corff Llywodraethu i beidio â derbyn plentyn yn gallu apelio yn erbyn y penderfyniad. Bydd y wybodaeth am sut i apelio yn cael ei chynnwys gyda'r llythyr yn eich hysbysu bod eich cais yn aflwyddiannus. Os byddwch yn arfer yr hawl honno, rhaid i'r apêl gael ei hanfon ymlaen at **Glerc Llywodraethwyr yr ysgol**. Mae'n rhaid cyflwyno apêl yn ysgrifenedig, gan nodi'r rheswm (rhesymau) dros apelio yn llawn, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apêl derbyniadau annibynnol, a elwir gan y Bwrdd Addysg Esgobaethol Statudol yn ôl cod ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion. Mae'r Panel Apeliadau yn gwrando ar yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle i'w plant yn ein hysgol ac mae eu penderfyniad yn derfynol ar gyfer yr holl bartïon dan sylw.

Nid yw'r hawl i apelio yn berthnasol i dderbyniadau Meithrin.

**Pan fydd rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael lle i'w blentyn yn ein hysgol, rydym yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig o le yn ôl. Pan fydd lle'n cael ei**

**dynnu'n ôl, gellir ailgyflwyno'r cais os caiff ei wrthod, mae gan y rhiant yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.**

**<u>Ceisiadau a Dderbynnir y Tu Allan i'r Cylch Derbyn Arferol</u>**
Bydd unrhyw un sy'n mynegi diddordeb i gael ei dderbyn ar ôl y cylch derbyn arferol yn cael ffurflen gais ar y pwynt cyswllt cyntaf. Ar ôl eu derbyn, bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hystyried heb oedi a bydd penderfyniad ffurfiol i naill ai gynnig neu wrthod lle yn cael ei wneud a byddwn, cyn belled ag y bo modd, yn hysbysu'r ymgeisydd o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr, pa bynnag un sydd gyntaf.

**<u>Diffiniadau</u>**

**<u>Cyfrifoldeb Rhiant</u>**
Diffinnir "cyfrifoldeb rhiant" yn Neddf Plant 1989 ac mae'n golygu'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant yn ôl y gyfraith mewn perthynas â phlentyn a'i eiddo.

Oni bai y penderfynir fel arall gan orchymyn llys:

- Mamau sydd â chyfrifoldeb rhiant yn awtomatig
- Mae gan dadau hefyd gyfrifoldeb rhiant am blentyn os yw'r tad yn briod i'r fam ar yr adeg y cafodd y plentyn ei eni. Mae hyn yn parhau ar ôl unrhyw ysgariad/gwahanu/ailbriodi hyd yn oed os yw'r plentyn yn byw ar wahân iddyn nhw
- Mae gan dadau di-briod gyfrifoldeb rhiant lle mae'r fam a'r tad yn cofrestru genedigaeth y plentyn gyda'i gilydd (dyma ddiwygiad i Ddeddf Plant 1989, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac nid yw'n ôl-weithredol)
- Gall tadau dibriod, llys-rieni, perthnasau ac unigolion eraill gael cyfrifoldeb rhiant ond nid ydynt yn ei gael yn awtomatig. Mewn achosion o'r fath gellir rhoi cyfrifoldeb rhiant drwy;
  - orchymyn preswylio;
  - cael eu penodi'n warcheidwad;
  - cael eu henwi yn y gorchymyn amddiffyn brys (wedi'i gyfyngu i gymryd camau rhesymol i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu'r person ifanc);
  - neu drwy fabwysiadu.
- Nid yw byw gyda'r fam, hyd yn oed am gyfnod maith, yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r tad ac os nad yw'r rhieni wedi priodi, nid yw cyfrifoldeb rhiant o reidrwydd yn cael ei drosglwyddo i'r tad naturiol os yw'r fam yn marw.

Mae angen i'r ysgolion wybod pwy sydd â 'chyfrifoldeb rhiant' ar gyfer pob plentyn. Mae hyn yn sicrhau y rhoddir awdurdod priodol pan fo'r ysgol angen caniatâd rhiant. Bydd hefyd yn sicrhau bod unigolion â chyfrifoldeb rhiant, nad ydynt yn byw gyda'r plentyn, yn gallu derbyn adroddiadau ysgol a chael cyfle i gymryd rhan yn addysg y plentyn.

Mae rhieni yn cynnwys yr holl bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn fel y nodir yn Neddf Plant 1989. Lle caiff cyfrifoldeb am blentyn ei 'rannu', yr unigolyn sy'n cael Budd-dal Plant yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni cais ac y defnyddir eu cyfeiriad at ddibenion derbyn.

**<u>Gofal am Blentyn</u>**
Mae gan unigolyn "ofal" am blentyn os yw'r unigolyn yn byw gydag ac yn gofalu am y plentyn, beth bynnag fo ei berthynas â'r plentyn. Mae unigolyn o'r fath yn cael ei ystyried fel "rhiant" at ddibenion Deddf Addysg 1996, er nad oes o reidrwydd ganddo gyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

Gofynnir i rieni gydweithio gyda staff yr ysgol drwy ddarparu manylion i'r ysgol am yr unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant am ddisgybl, neu sy'n gofalu am ddisgybl. Dylid hysbysu'r ysgol am unrhyw newid i drefniadau cyfrifoldeb rhiant neu ofal dydd i ddydd y plentyn. Bydd unrhyw gyfeiriad at rieni yn y polisi hwn sy'n ymwneud â materion addysgol hefyd yn ymestyn i gynnwys unrhyw unigolyn sy'n gofalu am y plentyn / plant.

**<u>Plant sy'n Derbyn Gofal</u>**
Mae 'Plentyn sy'n Derbyn Gofal' yn golygu un sy'n 'Derbyn Gofal' gan Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant. Mae'r plant hyn yn derbyn y flaenoriaeth uchaf yn y meini prawf ar gyfer gormod o geisiadau ar gyfer yr holl ysgolion, yn cynnwys ceisiadau y tu allan i'r cyfnod derbyniadau arferol. Dylai'r rhiant corfforaethol perthnasol wneud ceisiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Plant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol**
Plant nad ydynt yn derbyn gofal bellach oherwydd eu bod wedi'u mabwysiadu neu'n destun gorchymyn preswylio, neu orchymyn gwarchodaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal.

**Diffiniad o Frawd neu Chwaer**
Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn sydd â brawd, chwaer, llysfrawd neu lyschwaer, hanner brawd neu hanner chwaer neu sy'n blentyn maeth neu blentyn wedi'i fabwysiadu yn byw yn yr uned deuluol yn yr un aelwyd deuluol a chyfeiriad lle bydd brawd neu chwaer yn dal i fod wedi ei gofrestru / chofrestru yn yr ysgol a ffafrir pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu'r ysgol. Hefyd bydd brodyr a chwiorydd biolegol sy'n parhau i fod ar gofrestr yr ysgol a ffafrir ar 1 Medi 2017 yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd heb ystyried eu man preswylio.

Ni chaiff plant sy'n byw ar yr un aelwyd fel rhan o deulu estynedig, megis cefndryd, gael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

**'Preswylio yn' a 'Chyfeiriad Cartref'**
Man preswylio parhaol presennol y plentyn yw'r cyfeiriad y dylid ei roi ar y ffurflen gais.

Ystyr parhaol yw lle y mae eich plentyn yn byw ac yn cysgu am fwyafrif yr wythnos, nid am gyfnod cyfyngedig ac nid mewn man lle mae eich plentyn yn aros dros dro am gyfnod byr.

Cyfeiriad eu rheini fydd hyn fel arfer. Os nad yw'r rhieni yn byw gyda'i gilydd, rhaid nodi cyfeiriad y rhiant y mae'r plentyn yn treulio y rhan fwyaf o amser gyda nhw – fel arfer y rhiant sy'n derbyn budd-dal plant (lle bo hynny'n berthnasol). Os yw'r plentyn yng ngwarchodaeth gyfartal ei ddau riant, y rhieni ddylai benderfynu pa gyfeiriad i'w ddefnyddio ond gallwn ofyn am Orchymyn Llys neu dystiolaeth arall i gadarnhau fod y trefniant hwn yn bodoli. Ni ddylech ddefnyddio cyfeiriad busnes, perthynas neu ofalwr / gwarchodwr plant. Os, am unrhyw reswm, nad chi yw rhiant y plentyn neu fod trefniadau byw y plentyn yn anarferol, eglurwch hyn ar y ffurflen a darparwch dystiolaeth.

**Dim ond** o un ar gyfer un cyfeiriad y gellir gwneud cais, a dim ond un cais fesul plentyn y gellir ei wneud.

Os na allwch gytuno â'r rhiant arall pa ysgol y dylai eich plentyn ei mynychu, dylech geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun ar unwaith mewn perthynas â gwneud cais brys i'r Llys.

Os bydd angen gofyn am dystiolaeth, efallai y byddwn yn gofyn am sawl eitem i ddangos lle yr ydych yn byw gyda'ch plentyn, mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys y canlynol:

i) trwydded yrru
ii) budd-dal plant,
iii) bil treth y cyngor yn eich enw chi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd
iv) bil gwasanaeth yn eich enw chi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd
v) copi o'ch cytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd neu dystiolaeth o unrhyw brydles neu gytundeb sy'n cadarnhau eich hawl i fyw yn y cyfeiriad.
vi) unrhyw dystiolaeth arall o'r fath sy'n ymddangos yn rhesymol i ni

Bydd ein Corff Llywodraethu, ar y cyd â'r Awdurdod Lleol, yn gwirio'r cyfeiriad a ddarperir ar eich cais yn erbyn y cofnodion a gedwir ar gyfer ysgol / meithrinfa bresennol eich plentyn, ac efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth gennych chi os ydynt yn wahanol. Efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn gwirio cofnodion treth y cyngor. Os nad ydych chi wedi nodi eich cyfeirnod treth y cyngor ar eich cais, efallai y byddant yn ysgrifennu atoch i ofyn i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol o'ch cyfeiriad.

At ddibenion dyrannu, bydd unrhyw gynnig o le yn yr ysgol yn seiliedig ar ble fydd eich plentyn yn byw ar ddiwedd y **cyfnod dyrannu** (Gweler Amserlen Derbyniadau'r Awdurdod Lleol), ac yn amodol ar fod eich plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw, oni bai eich bod wedi ein hysbysu ni, a'n bod wedi derbyn ei fod wedi symud yn y cyfamser.

Os ydych yn symud ar ôl gwneud cais ond bod hynny yn ystod y cyfnod dyrannu, mae'n rhaid i chi roi prawf o'ch cyfeiriad newydd i ni. Mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys, er enghraifft:
i. llythyr cyfreithiwr yn cadarnhau fod pryniant eiddo wedi cael ei gwblhau; neu

ii. copi o'r cytundeb rhentu presennol, wedi'i lofnodi gan y Tenantiaid a'r Landlordiaid, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
iii. yn achos personél sy'n gwasanaethu yn Lluoedd Ei Mawrhydi, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu lleoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, FCO neu CHQ.

Byddwn yn ymchwilio i'r holl geisiadau lle mae amheuaeth am y cyfeiriad a roddir.

**Rhybudd Cyfeiriad**

**Gall defnyddio gwybodaeth ffug, gamarweiniol, anghyflawn neu anghywir arwain atom yn tynnu cynnig o le yn ôl, hyd yn oed ar ôl i blentyn ddechrau mewn ysgol.**

Gellir tynnu lle plentyn / lleoedd plant yn ôl os yw rhieni yn darparu cyfeiriad anghywir ar eu ffurflen gais gychwynnol, neu ar unrhyw adeg wedi hynny yn ystod y cyfnod dyrannu. Ni fyddwn yn derbyn cyfeiriad dros dro os oes gennych chi eiddo a ddefnyddiwyd fel cyfeiriad cartref yn flaenorol, oni bai bo amgylchiadau eithriadol sy'n dangos yn amlwg na all fod yn gyfeiriad parhaol i chi mwyach.

Ni fyddwn ychwaith yn derbyn cyfeiriad dros dro y credwn sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn derbyn lle yn yr ysgol yn unig. Efallai y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol i egluro pam nad ydych yn gallu defnyddio eich cyfeiriad parhaol.

Byddwn yn ymchwilio i bob honiad o gyfeiriadau ffug. Cyfrifoldeb y rhieni yw darparu dogfennaeth ddigonol i gefnogi preswyliad parhaol yn y cyfeiriad a nodwyd.

**Ysgol yr Eglwys yng Nghymru "Addas"**

Mae hyn yn cyfeirio at y cyfrwng iaith (Cymraeg, Saesneg neu Ddwyieithog) yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

**Efeilliaid, Tripledi, Genedigaethau Lluosog**

Efeilliaid, tripledi, pedrybledau, ac ati, sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n gwneud cais am leoedd yn yr un grŵp blwyddyn yn yr un ysgol.

Mewn achosion lle mae un lle'n weddill mewn ysgol, ac yn ôl y meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, dyrannir y lle i un brawd neu chwaer, ac EFALLAI y derbynnir y brodyr a'r chwiorydd eraill fel eithriadau. Mae cod derbyniadau i Ysgolion Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylai dosbarthiadau babanod gynnwys mwy na 30 disgybl gydag un athro/ athrawes. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, efallai y derbynnir plant fel "eithriadau" i gyfyngiad o ran maint dosbarth babanod; efallai yr ystyrir genedigaethau lluosog fel eithriad, ac os felly, byddai modd derbyn mwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig.

**Sut y profir ymlyniad crefyddol?**

**Cyfeiriad at "fynychu / yn aelodau gweithredol" o feini prawf gordanysgrifio.**

Os yw rhieni'n dymuno i gais eu plentyn gael ei ystyried dan feini prawf d i g, yna mae'n rhaid iddynt sicrhau bod eu ficer / arweinydd ffydd yn llenwi ac yn llofnodi **ffurflen gwybodaeth atodol** (FfGA) a'i dychwelyd at Gorff Llywodraethu Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Ioan Fedyddiwr ddim hwyrach na ***phum wythnos*** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau dosbarth Meithrin neu ddosbarth Derbyn (fel bo'n briodol). **Mae'r FfGA yn ceisio gwybodaeth am amlder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul neu wasanaethau eraill a arweinir gan yr eglwys. Mae gofyn i'ch offeiriad, gweinidog neu arweinydd ffydd lleol gadarnhau'r manylion hyn.** Mae ffurflen gwybodaeth atodol at y diben hwn i'w cael ar ddiwedd ein polisi derbyn, sydd ar gael ar ar-lein drwy ein gwefan www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx, neu'n uniongyrchol o'n hysgol.

Dylid dychwelyd y FfGA i'r ysgol dim hwyrach na ***phum wythnos*** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau dosbarth Meithrin neu ddosbarth Derbyn (fel bo'n briodol). Nid yw'r Ffurflen Gwybodaeth Atodol yn unig yn gyfystyr â chais; mae'n rhaid i rieni hefyd lenwi'r Ffurflen Gais fel y manylir ar ddechrau'r polisi hwn.

Y diffiniad o aelod yw aelod o'r Eglwys yng Nghymru trwy gofrestru ar gofrestr etholiadol y plwyf.

**Adolygu**

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn er mwyn cynnwys unrhyw newid o ran deddfwriaeth neu newid o ran amgylchiadau lleol.

Mae'r polisi hwn yn unol â'r cod derbyniadau i Ysgolion Llywodraeth Cymru presennol a chod apeliadau derbyniadau Ysgol Llywodraeth Cymru.

## Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Nercwys

Mae Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair Nercwys yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 mlwydd oed.

Mae Ysgol y Santes Fair, Nercwys yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir gynnes, cyfeillgar i deuluoedd, lle mae gan bob plentyn rôl bwysig a difyr i'w chwarae. Rydym yn ymdrechu i ddarparu addysg gyffredinol, i osod sylfeini da ar gyfer datblygu yn y dyfodol ac i alluogi'r disgyblion i sylweddoli y gall dysgu fod yn hwyl a chael ymdeimlad o gyflawniad. Credwn ei bod yn bwysig i blant barchu eu hunain, bod yn gwrtais a bod yn sensitif i deimladau ac anghenion eraill.

Rydym yn annog plant i ddefnyddio eu menter eu hunain, i ddatblygu fel unigolion, cyflawni eu potensial llawn ac i fwynhau a chymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Mae gennym safonau uchel a disgwyliadau uchel i'n disgyblion o ran gwaith ac ymddygiad.

Mae gennym ddigon o offer TG yn y ddwy ystafell ddosbarth, gan gynnwys I-padiau, gliniaduron a Byrddau Gwyn Rhyngweithiol. Rydym yn gwerthfawrogi datblygiad cymhwysedd digidol disgyblion.

Mae’r cyfleusterau allanol yn cynnwys prif faes chwarae, maes chwarae blwyddyddoedd cynnar ar wahân a chaeau chwarae ysgol helaeth. Mae gardd ein hysgol yn galluogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau yn yr amgylchedd awyr agored.

Fel Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, mae'r pwyllgor derbyn a sefydlwyd gan gorff llywodraethol yr Ysgol yn gyfrifol am dderbyn disgyblion. Bydd ffurflen dewis rhieni ar gyfer derbyniadau meithrin ac ysgol gynradd ar gael ar-lein (y dull ymgeisio a ffefrir) ar www.flintshire.gov.uk/schooladmissions neu trwy gysylltu â'r Tîm Derbyniadau (admissions@flintshire.gov.uk; 01352 704068/704073). Bydd ffurflenni ar gael yn unol â'r amserlen dderbyn fel y'u nodir yng Nghanllaw Derbyn Cyngor Sir y Fflint.

**Amserlen Derbyniadau**
Dilynir amserlen dderbyn yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyfer prosesu ceisiadau. Gweler www.flintshire.gov.uk/schools/schooladmissions..

### Derbyn i'r Dosbarth Derbyn

Mae disgyblion yn cael eu derbyn i’r Dosbarth Derbyn yn y flwyddyn academaidd y byddant yn bump h.y. gall plentyn sy’n bedair oed erbyn 31 Awst gael eu derbyn ym mis Medi. Ar ôl i le yn y dosbarth derbyn gael ei gynnig a'i dderbyn, gall y rhieni ohirio lle eu plentyn tan ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5. Ni all y rhieni ohirio mynediad y tu hwnt i hyn, neu y tu hwnt i’r flwyddyn academaidd y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei gyfer.

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu dderbyn disgyblion hyd at nifer derbyn yr ysgol. Mae’r nifer derbyn yn golygu nifer y plant y gellir eu derbyn ym mhob grŵp blwyddyn yn ystod blwyddyn yr ysgol ac yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r asesiad capasiti yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'. Y nifer derbyn ar gyfer ein hysgol yw 6.

Mae Plant Sy'n Derbyn Gofal a Phlant wedi derbyn gofal yn y gorffennol yn flaenoriaeth. Os oes achos lle bo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y plant hyn yn cael eu derbyn cyn yr holl rai eraill heblaw rhai â datganiad o anghenion addysg arbennig sy'n enwi'r ysgol.

Bydd plant o gymuned Sipsiwn-Teithwyr neu grwpiau teithio yn cael eu trin yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 003/2008 'Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn-Teithwyr'.

Ni fydd ein hysgol yn gwahaniaethu ar sail rhyw, nac yn erbyn ymgeiswyr ar sail hil, lliw, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol neu ethnig.

Bydd pob ymgeisydd yn cael eu derbyn i'r ysgol oni bai bod nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer derbyn.

Bydd yr holl ddewisiadau a dderbynnir yn cael eu hystyried ar sail dewisiadau cyfartal. Nid yw dewis ein hysgol ni fel blaenoriaeth yn sicrhau lle os yw'r ysgol wedi'i gordanysgrifio.

Os bydd nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, yna bydd y meini prawf gormod o geisiadau canlynol yn cael eu defnyddio yn y drefn isod, i benderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn.

Lle mae ein hysgol wedi'i henwi mewn Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig mae'n ddyletswydd arnom i dderbyn y plentyn hwnnw i'r ysgol..

**Meini Prawf Gor-danysgrifio**

a) Plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol
b) Disgyblion gyda brawd neu chwaer hŷn sydd o oedran ysgol statudol ac sydd wedi cofrestru yn ein hysgol pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu. (gweler adran "Diffiniadau" y polisi).
c) Disgyblion sy'n byw yn Ardal Genhadaeth yr Wyddgrug a hon yw'r Ysgol Eglwys yng Nghymru addas agosaf at eu cyfeiriad cartref.
d) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" y polisi) yn mynychu Eglwys y Santes Fair, yn Ardal Genhadaeth yr Wyddgrug
e) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" y polisi hwn) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall ac mai hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf.
f) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" yn y polisi) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol nad yw'n Anglicanaidd, a hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf atynt.
g) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran "Diffiniadau" y polisi) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a hefyd yn mynegi dyhead am addysg mewn Ysgol Eglwys, ac mai dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf.
***h)*** Disgyblion y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu Ysgol Eglwys yng Nghymru***.***

Os yw rhieni eisiau i'r ysgol ystyried cais eu plentyn o dan feini prawf d i g mae angen i'w ficer / arweinydd ffydd lenwi a llofnodi'r ffurflen wybodaeth atodol sydd angen ei dychwelyd at Gorff Llywodraethu Ysgol y Santes Fair, Nercwys, ddim hwyrach na ***phum wythnos*** ar ôl dyddiad cau y ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel y bo'n briodol). **Mae'r ffurflen wybodaeth atodol yn ceisio gwybodaeth am amlder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan offeiriad, weinidog neu arweinydd ffydd lleol**. Gellir canfod ffurflen wybodaeth atodol at y diben hwn ar ddiwedd ein polisi derbyn sydd ar gael ar-lein yn www.flintshire.gov.uk/schools/schooladmissions, neu'n uniongyrchol o'n hysgol.

**Penderfynu**

Os oes mwy o ymgeiswyr na lleoedd yn unrhyw un o'r categorïau uchod, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mae'r pellteroedd yn cael eu cyfrif gan yr ALl. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Wybodaeth Daearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter byrraf rhwng cartref ac ysgol mewn milltiroedd. Mae hyn wedi'i integreiddio i mewn i feddalwedd Capita ONE. Penderfynir ar gyfesurynnau cyfeiriad cartref ymgeisydd gan ddefnyddio y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) a Data Pwynt Cyfeiriad yr Arolwg Ordnans (OS). Caiff man cychwyn ar gyfer asesiad llwybr yn cael ei bennu fel y man agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded o gyfeiriad y disgybl (prif fynedfa'r eiddo fel rheol), i ganolbwynt adeilad yr ysgol. Mae'r rhwydwaith yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol.

**Dyrannu Lleoedd Meithrin**

Caiff disgyblion eu derbyn i'r Feithrinfa, sy'n rhan o'n dosbarth Blynyddoedd Cynnar yn y flwyddyn academaidd pan fyddant yn bedair – h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n dair erbyn 31 Awst ym mis Medi.

Nid yw addysg Feithrin yn orfodol ac nid oes gan y rhieni hawl i apelio o ran derbyniadau meithrin o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Bydd addysg feithrin yn cael ei darparu ar sail 5 sesiwn x 2.5 awr yr wythnos ar gyfer pob plentyn. Mae lleoedd ar gael yn ein dosbarthiadau Meithrin, hyd at ein Nifer Derbyn.

Gall rhieni fynegi dewis a ffefrir ar gyfer unrhyw ddosbarth meithrin heb ystyried lleoliad cartref y plentyn mewn perthynas â'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw mynegi dewis a ffefrir yn gwarantu lle yn y dosbarth meithrin hwnnw. Mewn achos o ormod o geisiadau, bydd ceisiadau am leoedd meithrin yn cael eu trin gan ddefnyddio'r meini prawf gormod o geisiadau a nodwyd uchod.

Nid yw cael eich derbyn i'r dosbarth meithrin yn gwarantu derbyn i'r Dosbarth Derbyn. Os oes gan blentyn le yn ein dosbarth Meithrin, mae'n rhaid i rieni lenwi'r ffurflen briodol i'w derbyn i'r Dosbarth

Derbyn. Mae'n rhaid cyflwyno'r ffurflen yn unol ag Amserlen Trefniadau Derbyniadau Ysgolion (fel y nodwyd uchod).

**Darpariaeth Trafnidiaeth**
Gweler gwefan Cyngor Sir Sir y Fflint (www.flintshire.gov.uk/schooladmissions) i gael gwybodaeth ynghylch darpariaeth drafnidiaeth bosibl.

**Ceisiadau Hwyr**
Bydd ceisiadau hwyr (h.y. ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd a chyn diwedd y cyfnod dyrannu) yn cael eu hystyried ar ôl y rhai a gyflwynwyd ar amser oni bai bo rhesymau eithriadol pam fod y cais yn hwyr.

Mae'n rhaid egluro'r rhesymau eithriadol (e.e. pan fo rhiant sengl wedi bod yn sâl am beth amser, neu pan fo teulu newydd symud i'r ardal) yn eich cais er mwyn i'r pwyllgor derbyn eu hystyried. Mae'n RHAID darparu tystiolaeth ategol ar gais y pwyllgor derbyn.

Bydd yr holl geisiadau hwyr yn cael eu trefnu yn unol â'r meini prawf gormod o geisiadau a bydd unrhyw leoedd sydd ar gael yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr sydd uchaf ar y rhestr ar ddiwedd y cyfnod dyrannu. Wedi hynny, bydd ceisiadau hwyr yn cael eu rhoi ar restr aros.

**Rhestr aros**
Bydd rhestr aros yn cael ei chadw os digwydd bod gormod o geisiadau yn dod i mewn i'r ysgol a bydd yn cynnwys:

- plant y mae eu rhieni wedi nodi'n ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost) eu bod eisiau rhoi eu plentyn ar restr aros yr ysgol.
- rhai y derbyniwyd ffurflen apêl ar eu cyfer
- unrhyw geisiadau hwyr.

Yn dilyn dyrannu lleoedd yn ystod y cylch derbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent wedi gwneud cais amdani. Bydd plant yn cael eu rhestru ar ein rhestr aros yn nhrefn ein meini prawf gormod o geisiadau. Felly, os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra bo'r rhestr aros mewn grym, byddent yn cael eu cynnig i blant sydd ar y rhestr aros ar sail eu lle ar y rhestr aros NID ar sail dyddiad y cais.

Er enghraifft, os yw plentyn yn symud i ardal y tu allan i gylch derbyniadau arferol ac mae ganddynt flaenoriaeth uwch o dan feini prawf gormod o geisiadau, **mae'n rhaid** eu gosod yn uwch ar y rhestr na rhai â blaenoriaeth is sydd eisoes ar y rhestr.

Cynhelir rhestrau aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol dan sylw.

**Apeliadau derbyn**
Os na fyddwn yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, mae hynny oherwydd ein bod wedi cyrraedd y nifer derbyn a byddai'r cynnydd mewn niferoedd yn effeithio er gwaeth ar addysg ein disgyblion presennol. Gall rhieni sy'n anfodlon â phenderfyniad y Corff Llywodraethu i beidio â derbyn plentyn apelio'r penderfyniad. Bydd y wybodaeth am sut i apelio yn cael ei gynnwys gyda'r llythyr yn eich hysbysu bod eich cais yn aflwyddiannus. Os byddwch yn penderfynu apelio'r penderfyniad, rhaid i'r apêl gael ei hanfon ymlaen at **Glerc Llywodraethwyr ein hysgol**. Mae'n rhaid cyflwyno apêl yn ysgrifenedig, gan nodi'r rheswm (rhesymau) llawn pam eich bod yn dymuno apelio gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apêl derbyniadau annibynnol, a gynullir gan y Bwrdd Addysg Esgobaethol Statudol yn ôl cod ymarfer Llywodraeth Cymru ar Apeliadau Derbyn ysgolion. Mae'r Panel Apeliadau yn gwrando ar yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle yn ein hysgol iddynt ac mae eu penderfyniad yn derfynol ar gyfer yr holl bartïon dan sylw.

Nid yw'r hawl i apelio yn gymwys ar gyfer derbyniadau Meithrin.

**Pan fydd rhiant yn darparu gwybodaeth dwyllodrus neu wybodaeth sy'n fwriadol gamarweiniol er mwyn derbyn lle ar gyfer eu plentyn yn ein hysgol, rydym yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig yn ôl. Pan fydd lle'n cael ei dynnu'n ôl, gellir ailgyflwyno'r cais ac os caiff ei wrthod, mae gan y rhiant yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.**

**Ceisiadau a Dderbyniwyd o Du Allan i'r Rownd Derbyn Arferol**

Bydd unrhyw un sy'n mynegi diddordeb i gael eu derbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol yn derbyn ffurflen gais ar y pwynt cyswllt cyntaf. Ar ôl eu derbyn, bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hystyried heb oedi a bydd penderfyniad ffurfiol i naill ai gynnig neu wrthod lle yn cael ei wneud, a byddwn, cyn belled ag y bo modd, yn hysbysu'r ymgeisydd o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr, pa un bynnag sydd gyntaf.

**<u>Diffiniadau</u>**

**<u>Cyfrifoldeb Rhiant</u>**
Diffinnir "cyfrifoldeb rhiant' yn Neddf Plant 1989 ac mae'n golygu'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant yn ôl y gyfraith mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo.

Oni nodir fel arall yn ôl gorchymyn llys:

- Mae gan famau gyfrifoldeb rhiant awtomatig.
- Mae gan dadau gyfrifoldeb rhiant ar gyfer plentyn hefyd os yw'r tad yn briod gyda'r fam ar adeg geni'r plentyn. Mae hyn yn parhau ar ôl unrhyw ysgariad/gwahanu/ail-briodi hyd yn oed os nad ydynt yn byw gyda'r plentyn.
- Mae gan dadau di-briod gyfrifoldeb rhiant pan fo'r fam a'r tad wedi cofrestru genedigaeth y plentyn gyda'i gilydd (mae hyn yn ddiwygiad i Ddeddf Plant 1989, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac nid yw'n ôl-weithredol).
- Gall tadau di-briod, llys-rieni, perthnasau ac unigolion eraill dderbyn cyfrifoldeb rhiant ond nid ydynt yn ei gael yn awtomatig. Mewn achosion o'r fath gellir rhoi cyfrifoldeb rhiant drwy:
    - orchymyn preswylio;
    - cael eu penodi'n warcheidwad;
    - cael eu henwi yn y gorchymyn amddiffyn brys (wedi'i gyfyngu i gymryd camau rhesymol i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu berson ifanc);
    - neu drwy fabwysiadu.
- Nid yw byw gyda'r fam, hyd yn oed am gyfnod maith, yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r tad ac os nad yw'r rhieni wedi priodi, nid yw cyfrifoldeb rhiant o reidrwydd yn cael ei drosglwyddo i'r tad naturiol os yw'r fam yn marw.

Mae angen i'r ysgolion wybod pwy sydd â 'chyfrifoldeb rhiant' ar gyfer pob plentyn. Mae hyn yn sicrhau y rhoddir awdurdod priodol pan fo'r ysgol angen caniatâd rhiant. Bydd hefyd yn sicrhau bod unigolion â chyfrifoldeb rhiant, nad ydynt yn byw gyda'r plentyn, yn gallu derbyn adroddiadau ysgol a chael cyfle i gymryd rhan yn addysg y plentyn.

**<u>Diffiniad o riant</u>**
Mae rhieni yn cynnwys yr holl bobl sydd â chyfrifoldeb rhiant ar gyfer plentyn fel y nodir yn Neddf Plant 1989. Pan fo cyfrifoldeb am blentyn wedi'i 'rannu', yr unigolyn sy'n derbyn budd-dal plant yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni cais ac y defnyddir eu cyfeiriad at ddibenion derbyn.

**<u>Gofal am Blentyn</u>**
Mae gan unigolyn "ofal" am blentyn os yw'r unigolyn yn byw gydag ac yn gofalu am y plentyn, beth bynnag fo ei berthynas â'r plentyn. Mae unigolyn o'r fath yn cael ei ystyried fel "rhiant" at ddibenion Deddf Addysg 1996, er nad oes ganddo gyfrifoldeb rhiant am y plentyn o reidrwydd.

Gofynnir i rieni gydweithio gyda staff yr ysgol drwy ddarparu manylion yr unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant am y disgybl, ac sydd yn gofalu am y disgybl. Dylid hysbysu'r ysgol am unrhyw newidiadau i drefniadau cyfrifoldeb rhiant neu ofal dydd i ddydd y plentyn. Bydd unrhyw gyfeiriad at rieni yn y polisi hwn sy'n ymwneud â materion addysgol yn ymestyn i gynnwys unrhyw unigolyn sydd yn gofalu am y plentyn (plant).

**<u>Plant sy'n Derbyn Gofal</u>**
Mae 'Plentyn sy'n derbyn Gofal' yn golygu un sy'n 'Derbyn Gofal' gan Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 y Ddeddf Plant. Mae'r plant hyn yn derbyn y flaenoriaeth uchaf ym meini prawf gormod o geisiadau ar gyfer yr holl ysgolion, gan gynnwys ceisiadau y tu allan i'r cyfnod derbyniadau arferol. Dylai'r rhiant corfforaethol perthnasol wneud ceisiadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

**<u>Plant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol</u>**
Plant nad ydynt yn derbyn gofal bellach oherwydd eu bod wedi'u mabwysiadu neu'n destun gorchymyn preswylio, neu orchymyn gwarchodaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal.

**<u>Diffiniad o Frawd neu Chwaer</u>**

Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn sydd â brawd, chwaer, llysfrawd neu lyschwaer, hanner brawd neu hanner chwaer neu sy'n blentyn maeth neu blentyn wedi'i fabwysiadu yn byw yn yr un uned deuluol yn yr un aelwyd deuluol a chyfeiriad ac y mae brawd neu chwaer yn dal i fod wedi ei gofrestru/chofrestru yn yr ysgol hon pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu'r ysgol. Hefyd, bydd brodyr a chwiorydd biolegol sydd yn parhau i fod ar gofrestr yr ysgol hon pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd heb ystyried eu man preswylio.

Ni fydd plant sy'n byw yn yr un aelwyd fel rhan o deulu estynedig, fel cefndryd a chyfnitherod, yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

**'Man preswylio' a 'Chyfeiriad Cartref'**

Rhaid i'r cyfeiriad ar y ffurflen fod yn fan byw parhaol presennol y plentyn.

Ystyr parhaol yw lle y mae eich plentyn yn byw a chysgu am fwyafrif yr wythnos, heb fod am amser cyfyngedig ac nid mewn man lle bo'r plentyn yn aros dros dro am gyfnod byr.

Fel arfer cyfeiriad y rhieni fydd hyn. Os nad yw'r rhieni yn byw gyda'i gilydd, rhaid i'r cyfeiriad fod yn gyfeiriad y rhiant mae'r plentyn yn treulio y rhan fwyaf o amser gyda nhw - fel arfer y rhiant sy'n derbyn budd-dal plant (lle bo'n berthnasol). Os rhennir gwarchodaeth y plentyn yn gyfartal, dylai'r rhieni benderfynu pa gyfeiriad i'w ddefnyddio ond efallai y byddwn yn gofyn i weld Gorchymyn Llys neu dystiolaeth arall i gadarnhau bod y trefniant yn bodoli. Ni ddylech ddefnyddio cyfeiriad busnes, perthynas neu ofalwr/gwarchodwr plant. Os am unrhyw reswm nad chi yw rhiant y plentyn neu fod trefniadau byw y plentyn mewn man anarferol eglurwch hyn ar y ffurflen a darparu tystiolaeth.

**Dim ond** o un cyfeiriad y gellir gwneud cais, a dim ond un cais fesul plentyn y gellir ei wneud. Os na allwch gytuno gyda'r rhiant arall pa ysgol y dylai eich plentyn ei mynychu, dylech gymryd cyngor cyfreithiol ar unwaith ynglŷn â gwneud cais brys i'r Llys.

Pe bai angen gofyn am dystiolaeth efallai y bydd angen sawl eitem i ddangos lle yr ydych yn byw gyda'ch plentyn, mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys y canlynol:
i) trwydded yrru
ii) budd-dal plant
iii) bil gwasanaeth yn eich enw chi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd
iv) copi o'ch cytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd neu dystiolaeth o unrhyw brydles neu gytundeb sy'n cadarnhau eich hawl i fyw yn y cyfeiriad
v) unrhyw dystiolaeth arall o'r fath sy'n rhesymol yn ein barn ni

Bydd ein Corff Llywodraethu, mewn cydweithrediad â'r Awdurdod Lleol, yn gwirio'r cyfeiriad ar eich cais yn erbyn y cofnodion a gedwir ar gyfer ysgol /meithrinfa bresennol eich plentyn, ac efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth neu dystiolaeth gennych chi os ydynt yn wahanol. Efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn gwirio cofnodion treth y cyngor. Os nad ydych wedi nodi cyfeirnod treth y cyngor ar eich cais yna efallai y byddant yn ysgrifennu atoch i ofyn i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol o'ch cyfeiriad.

At ddibenion dyrannu, bydd unrhyw gynnig o le yn yr ysgol yn seiliedig ar ble fydd eich plentyn yn byw ar ddiwedd y **cyfnod dyrannu** (gweler amserlen derbyniadau'r awdurdod lleol), ac yn amodol ar eich plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw, oni bai eich bod wedi ein hysbysu a'n bod wedi derbyn ei fod wedi symud yn y cyfamser.

Os ydych yn symud ar ôl gwneud cais ond yn ystod y cyfnod dyrannu mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth o'ch cyfeiriad newydd. Mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys:
i) llythyr cyfreithiwr yn cadarnhau eich bod wedi cwblhau'r broses o brynu eiddo; neu
ii) gopi o'r Cytundeb Rhentu cyfredol, wedi ei lofnodi gan y Tenantiaid a'r Landlordiaid, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
iii) yn achos gweithwyr Lluoedd E.M. sy'n gwasanaethu, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu gwasanaeth oddi wrth yr MOD, FCO neu GCHQ.
Byddwn yn ymchwilio i'r holl geisiadau lle mae amheuaeth am y cyfeiriad a roddir.

**Rhybudd Cyfeiriad**

**Gall defnyddio gwybodaeth ffug, gamarweiniol, anghyflawn neu anghywir arwain atom yn tynnu cynnig o le yn ôl, hyd yn oed ar ôl i'r plentyn gychwyn mewn ysgol.** Gellir tynnu lle plentyn yn ôl os yw rhieni yn darparu cyfeiriad anghywir ar eu ffurflen gais gychwynnol, neu ar unrhyw adeg wedi hynny yn ystod y cyfnod dyrannu. Ni fyddwn yn derbyn cyfeiriad dros dro os oes gennych chi

eiddo a ddefnyddiwyd fel cyfeiriad cartref yn flaenorol, oni bai bo amgylchiadau eithriadol sy'n dangos yn amlwg na all fod yn gyfeiriad parhaol i chi mwyach. Ni fyddwn chwaith yn derbyn cyfeiriad dros dro y credwn ei fod yn cael ei ddefnyddio er mwyn derbyn lle yn yr ysgol. Efallai y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth i egluro pam nad ydych yn gallu defnyddio eich cyfeiriad parhaol.

Byddwn yn archwilio pob honiad o gyfeiriadau ffug. Cyfrifoldeb y rhieni yw'r dystiolaeth er mwyn darparu dogfennaeth ddigonol i gefnogi preswyliaeth barhaol yn y cyfeiriad a nodwyd.

**Ysgol Eglwys yng Nghymru "Addas"**
Mae hyn cyfeirio at y cyfrwng iaith (Saesneg, Cymraeg a Dwyieithog) yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

**Efeilliaid, Tripledi, Genedigaethau Lluosog**
Efeilliaid, tripledi, pedrypledau ac ati sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac yn gwneud cais am leoedd yn yr un grŵp blwyddyn yn yr un ysgol.

Mewn amgylchiadau lle bo un lle ar ôl yn yr ysgol, ac ôl y meini prawf gormod o geisiadau mae un plentyn o enedigaethau lluosog yn derbyn y lle olaf, EFALLAI y gellir derbyn y plant eraill fel eithriadau. Mae Cod Derbyniadau Ysgolion Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylai dosbarthiadau babanod gynnwys mwy na 30 disgybl gydag un athro/athrawes ysgol. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, gellir derbyn plant fel "eithriadau" i derfyn maint dosbarth babanod; efallai y gellir ystyried genedigaethau lluosog fel eithriad ac felly gellir eu derbyn dros y nifer derbyn a gyhoeddwyd.

**Sut y profir ymlyniad crefyddol.**
***Mewn perthynas â "mynychu / yn aelodau gweithredol" o feini prawf gormod o geisiadau.***
Os yw rhieni eisiau i'r ysgol ystyried cais eu plentyn o dan feini prawf d i g, mae angen i'w ficer / arweinydd ffydd lenwi a llofnodi **ffurflen wybodaeth atodol** sydd angen ei dychwelyd at Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Santes ddim hwyrach na ***phum wythnos*** ar ôl dyddiad cau y ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel y bo'n briodol). **Mae'r ffurflen wybodaeth atodol yn ceisio gwybodaeth am amlder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan offeiriad, gweinidog neu arweinydd ffydd lleol**. Gellir canfod ffurflen wybodaeth atodol at y diben hwn ar ddiwedd ein polisi derbyn sydd ar gael ar-lein yn www.flintshire.gov.uk/schools/schooladmissions neu'n uniongyrchol gan ein hysgol.

Mae'n rhaid dychwelyd y ffurflen i'r ysgol ddim hwyrach na ***phum wythnos*** ar ôl dyddiadau cau ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel y bo'n berthnasol). Nid yw'r Ffurflen Wybodaeth Atodol ar ei ben ei hun yn golygu eich bod wedi gwneud cais; rhaid i rieni hefyd lenwi Ffurflen Gais fel y nodir ar ddechrau'r polisi hwn.

Caiff Aelod ei ddiffinio fel aelod o'r Eglwys yng Nghymru trwy gofrestru ar gofrestr etholiadol y plwyf.

***Adolygu***
Adolygir y polisi bob blwyddyn er mwyn cynnwys unrhyw newid o ran deddfwriaeth neu newid mewn amgylchiadau lleol.

Mae'r polisi hwn yn unol â chod mynediad Ysgolion presennol Llywodraeth Cymru a chod apeliadau derbyn Ysgolion Llywodraeth Cymru.

**Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Trelawnyd**

**Datganiad Ethos**
Gan gydnabod ei sail hanesyddol, bydd yr ysgol yn cynnal ac yn datblygu ei gymeriad crefyddol yn unol ag egwyddorion yr Eglwys yng Nghymru ac mewn partneriaeth gyda'r eglwys ar lefelau plwyf ac Esgobaeth.

Nod yr ysgol yw gwasanaethu'r gymuned drwy ddarparu addysg o'r ansawdd gorau o fewn cyd-destun credoau ac arferion Cristnogol. Mae'n annog dealltwriaeth o ystyr ac arwyddocâd ffydd, ac yn hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol drwy'r profiadau a gynigir i bob disgybl.
Mae Ysgol a Gynorthwyir yn Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru Trelawnyd yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 mlwydd oed.

Fel Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, mae'r pwyllgor derbyniadau a sefydlwyd gan gorff llywodraethu'r Ysgol, yn gyfrifol am y disgyblion a dderbynnir. Bydd ffurflenni ffafriaeth y

rhieni ar gyfer derbyn i ysgolion meithrin a chynradd ar gael ar-lein (dull a ffefrir ar gyfer gwneud cais) yn www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx neu drwy gysylltu â’r Tîm Derbyniadau (admissions@flintshire.gov.uk;; 01352 704068/704073). Bydd y ffurflenni ar gael yn unol â’r amserlen derbyniadau fel y’i nodir yng Nghanllaw Derbyniadau Cyngor Sir y Fflint.

**Amserlen Derbyniadau**

Dilynir amserlen dderbyn yr Awdurdod Lleol ar gyfer prosesu ceisiadau. Gweler www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx

**Derbyn i’r Dosbarth Derbyn**

Derbynnir disgyblion i'r dosbarth derbyn yn y flwyddyn academaidd pan maen nhw’n bump oed, h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n bedair oed cyn neu ar 31 Awst ym mis Medi. Pan fydd lle mewn dosbarth derbyn wedi’i gynnig a’i dderbyn, caiff rhieni ohirio dyddiad dechrau eu plentyn tan ddechrau’r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Ni chaiff rhieni ohirio’r dyddiad dechrau y tu hwnt i’r cyfnod hwn, na’r tu hwnt i’r flwyddyn academaidd y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei chyfer.

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn gofyn i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu dderbyn disgyblion hyd at nifer derbyn disgyblion yr ysgol (ND). Mae’r Nifer Derbyn yn golygu nifer y plant y gellir eu derbyn ym mhob grŵp blwyddyn yn ystod blwyddyn yr ysgol ac yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio’r asesiad capasiti yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru ‘Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru’. Y Nifer Derbyn ar gyfer ein hysgol yw 15.

Mae plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol yn flaenoriaeth. Yn achos mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y plant hyn yn cael eu derbyn cyn pawb arall ac eithrio'r rheini sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig gan enwi’r ysgol.

Bydd plant o gymuned Sipsiwn a Theithwyr neu grwpiau teithio yn cael eu trin yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhif: 003/2008 ‘Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn a Theithwyr’.

Ni fydd yr ysgol yn gwahaniaethu ar sail rhyw, neu yn erbyn ymgeiswyr ar sail hil, lliw, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol neu ethnig.

Bydd pob ymgeisydd yn cael eu derbyn i'r ysgol oni bai bod nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer derbyn (ND).

Bydd yr holl ddewisiadau a dderbynnir yn cael eu hystyried ar sail dewisiadau cyfartal. Nid yw mynegi blaenoriaeth yn gwarantu lle yn ein hysgol os oes gormod o alw am leoedd yn ein hysgol.

Os bydd nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael bydd y meini prawf ar gyfer Mwy o Geisiadau na Nifer y Lleoedd sydd ar Gael canlynol yn cael eu defnyddio yn y drefn isod i benderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn.

Lle mae ein hysgol wedi’i henwi mewn Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, mae dyletswydd ar yr ysgol i dderbyn y plentyn hwnnw.

**Meini Prawf ar gyfer Mwy o Geisiadau na Nifer y Lleoedd sydd ar Gael**

a) Plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol
b) Disgyblion sydd â brawd a chwaer hŷn sydd o oedran ysgol statudol ac sydd wedi cofrestru yn ein hysgol pan fo’r plentyn iau yn gymwys i fynychu (gweler adran “Diffiniadau” yn y polisi).
c) Disgyblion sy’n byw yn Ardal Genhadaeth Bryn y Môr ac mai dyma’r ysgol Eglwys yng Nghymru addas agosaf i’w cyfeiriad cartref ac sy’n byw o fewn radiws o 5 milltir i’r ysgol hon. (gweler adran “Diffiniadau” yn y polisi).
d) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran “Diffiniadau” y polisi) yn mynychu Eglwys San Mihangel a’r Holl Angylion yn Ardal Genhadaeth Bryn y Môr.
e) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran “Diffiniadau” yn y polisi) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall ac mai hon yw Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys agosaf.
f) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran “Diffiniadau” yn y polisi) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol an-Anglicanaidd ac mai hon yw'r Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys agosaf iddynt.
g) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler adran “Diffiniadau” yn y polisi) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a hefyd yn mynegi dyhead am addysg Ysgol Eglwysig, a hon yw’r Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys agosaf.
h) Plant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynd i Ysgol yr Eglwys yng Nghymru.

Os yw rhieni'n dymuno i gais eu plentyn gael ei ystyried dan feini prawf d i g, yna mae'n rhaid iddynt sicrhau bod eu ficer / arweinydd ffydd yn llenwi ac yn llofnodi ffurflen gwybodaeth atodol (FfGA) a'i dychwelyd at Gorff Llywodraethu Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Trelawnyd ddim hwyrach na ***phum wythnos*** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau dosbarth Meithrin neu ddosbarth Derbyn (fel bo'n briodol). **Mae'r FfGA yn ceisio gwybodaeth am amlder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae gofyn i'ch offeiriad, gweinidog neu arweinydd ffydd lleol gadarnhau'r manylion hyn.** Mae ffurflen gwybodaeth atodol at y diben hwn i'w cael ar ddiwedd ein polisi derbyn, sydd ar gael ar ar-lein drwy ein gwefan www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx neu'n uniongyrchol o'n hysgol.

**Penderfynu**

Os ceir mwy o ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod o'r meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mae'r pellteroedd yn cael eu cyfrifo gan yr ALl. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd. Mae'r system wedi'i hymgorffori ym meddalwedd Capita ONE. Bydd cyfesurynnau cartref ymgeisydd yn cael eu pennu gan ddefnyddio Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a Data Pwynt Cyfeiriad Arolwg Ordnans. Bydd y man cychwyn ar gyfer asesu taith yn cael ei bennu fel y pwynt agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded o gyfeiriad y disgybl (prif fynedfa'r eiddo fel arfer), i bwynt canolog adeilad yr ysgol. Caiff y rhwydwaith ei ddiweddaru'n flynyddol.

**Dyrannu Lleoedd Meithrin**

Derbynnir disgyblion i'r Feithrinfa, sy'n rhan o ddosbarth Blynyddoedd Cynnar yn y flwyddyn academaidd pan maen nhw'n bedair oed, h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n dair oed cyn neu ar 31 Awst ym mis Medi.

Nid yw addysg feithrin yn orfodol ac nid oes gan rieni unrhyw hawl i apelio ynglŷn â derbyniadau meithrin dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Darperir addysg feithrin ar sail sesiynau 5 x 2.5 awr yr wythnos ar gyfer pob plentyn. Mae lleoedd ar gael yn ein dosbarthiadau Meithrin, hyd at ein Nifer Derbyn.

Caiff rhieni fynegi ffafriaeth ar gyfer unrhyw ddosbarth meithrin waeth beth yw'r pellter rhwng cartref y plentyn a'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw mynegi ffafriaeth yn gwarantu lle yn y feithrinfa honno. Os oes gormod o geisiadau, defnyddir y meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael i drin ceisiadau am leoedd meithrin.

**Nid yw** cael eich derbyn i'r dosbarth meithrin yn gwarantu eich derbyn i'r dosbarth Derbyn. ***Os oes gan blentyn le yn ein dosbarth Meithrin, mae'n rhaid i rieni lenwi'r ffurflen briodol i'w derbyn i'r dosbarth Derbyn. Mae'n rhaid cyflwyno'r ffurflen yn unol â'r Amserlen Derbyniadau (fel y nodwyd uchod).***

**Darpariaeth Cludiant**

Gweler gwefan Cyngor Sir y Fflint (www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx) am wybodaeth ynglŷn â darpariaeth cludiant posibl.

**Ceisiadau Hwyr**

Bydd ceisiadau hwyr (hynny yw, ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd a chyn diwedd y cyfnod dyrannu) yn cael eu hystyried ar ôl y rhai a gyflwynwyd ar amser oni bai bo rhesymau eithriadol pam fod cais yn hwyr.

Mae'n rhaid egluro rhesymau eithriadol, (er enghraifft, pan fo rhiant sengl wedi bod yn sâl am beth amser, neu pan fo teulu newydd symud i'r ardal) yn eich ffurflen gais er mwyn i'r pwyllgor derbyniadau eu hystyried. Mae'n RHAID darparu tystiolaeth ategol ar gais y pwyllgor derbyniadau.

Bydd yr holl geisiadau hwyr yn cael eu graddio yn unol â'r meini prawf mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael a bydd unrhyw leoedd sydd ar gael yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr uchaf ar y raddfa hyd at ddiwedd y cyfnod dyrannu. Wedi hynny, bydd ceisiadau hwyr yn cael eu rhoi ar y rhestr aros.

**Rhestr Aros**

Bydd rhestr aros yn cael ei chynnal os digwydd bod gormod o geisiadau yn dod i mewn i'r ysgol a bydd yn cynnwys:

- y plant hynny y mae eu rhieni wedi gofyn yn benodol yn ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost) i gael eu rhoi ar restr aros yr ysgol,
- y rhai y mae ffurflen apêl wedi ei derbyn ar eu cyfer
- unrhyw geisiadau hwyr.

Yn dilyn dyrannu lleoedd o fewn y cylch derbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent wedi gwneud cais amdani. Bydd plant yn cael eu rhestru ar ein rhestr aros yn nhrefn ein meini prawf pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Felly, os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra bo'r rhestr aros mewn grym, byddant yn cael eu dyrannu i blant ar sail eu safle ar y rhestr aros NID ar sail dyddiad y cais.

Er enghraifft, os yw plentyn yn symud i ardal y tu allan i gylch derbyniadau arferol ac mae ganddynt flaenoriaeth uwch o dan y meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, mae'n **rhaid** eu gosod yn uwch ar y rhestr na rhai â blaenoriaeth is sydd eisoes ar y rhestr.

Bydd rhestrau aros yn cael eu cynnal tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol dan sylw.

**Apeliadau Derbyn**

Os nad ydym yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, mae hynny oherwydd ein bod wedi cyrraedd y nifer derbyn a byddai cynnydd mewn niferoedd yn effeithio'n andwyol ar addysg ein disgyblion presennol. Mae rhieni sy'n anfodlon â phenderfyniad y Corff Llywodraethu i beidio â derbyn plentyn yn gallu apelio yn erbyn y penderfyniad. Bydd y wybodaeth am sut i apelio yn cael ei chynnwys gyda'r llythyr yn eich hysbysu bod eich cais yn aflwyddiannus. Os byddwch yn arfer yr hawl honno, rhaid i'r apêl gael ei hanfon ymlaen at **Glerc Llywodraethwyr yr ysgol.** Mae'n rhaid cyflwyno apêl yn ysgrifenedig, gan nodi'r rheswm (rhesymau) dros apelio yn llawn, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apêl derbyniadau annibynnol, a gynullwyd gan y Bwrdd Addysg Esgobaethol Statudol yn ôl cod ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion. Mae'r Panel Apeliadau yn gwrando ar yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle i'w plant yn ein hysgol ac mae eu penderfyniad yn derfynol ar gyfer yr holl bartïon dan sylw.

Nid yw'r hawl i apelio yn berthnasol i dderbyniadau Meithrin.

**Pan fydd rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael lle i'w blentyn yn ein hysgol, rydym yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig o le yn ôl. Pan fydd lle'n cael ei dynnu'n ôl, gellir ailgyflwyno'r cais os caiff ei wrthod, mae gan y rhiant yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.**

**Ceisiadau a Dderbynnir y Tu Allan i'r Cylch Derbyn Arferol**

Bydd unrhyw un sy'n mynegi diddordeb i gael ei dderbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol yn cael ffurflen gais ar y pwynt cyswllt cyntaf. Ar ôl eu derbyn, bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hystyried heb oedi a bydd penderfyniad ffurfiol i naill ai gynnig neu wrthod lle yn cael ei wneud a byddwn, cyn belled ag y bo modd, yn hysbysu'r ymgeisydd o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr, pa bynnag un sydd gyntaf.

**Diffiniadau**

**Cyfrifoldeb Rhiant**

Diffinnir "cyfrifoldeb rhiant" yn Neddf Plant 1989 ac mae'n golygu'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant yn ôl y gyfraith mewn perthynas â phlentyn a'i eiddo.

Oni bai y penderfynir fel arall gan orchymyn llys:

- Mamau sydd â chyfrifoldeb rhiant yn awtomatig
- Mae gan dadau hefyd gyfrifoldeb rhiant am blentyn os yw'r tad yn briod i'r fam ar yr adeg y cafodd y plentyn ei eni. Mae hyn yn parhau ar ôl unrhyw ysgariad/gwahanu/ailbriodi hyd yn oed os yw'r plentyn yn byw ar wahân iddyn nhw

- Mae gan dadau di-briod gyfrifoldeb rhiant lle mae'r fam a'r tad yn cofrestru genedigaeth y plentyn gyda'i gilydd (dyma ddiwygiad i Ddeddf Plant 1989, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac nid yw'n ôl-weithredol)
- Gall tadau dibriod, llys-rieni, perthnasau ac unigolion eraill gael cyfrifoldeb rhiant ond nid ydynt yn ei gael yn awtomatig. Mewn achosion o'r fath gellir rhoi cyfrifoldeb rhiant drwy;
  - orchymyn preswylio;
  - cael eu penodi'n warcheidwad;
  - cael eu henwi yn y gorchymyn amddiffyn brys (wedi'i gyfyngu i gymryd camau rhesymol i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu'r person ifanc);
  - neu drwy fabwysiadu.
- Nid yw byw gyda'r fam, hyd yn oed am gyfnod maith, yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r tad ac os nad yw'r rhieni wedi priodi, nid yw cyfrifoldeb rhiant o reidrwydd yn cael ei drosglwyddo i'r tad naturiol os yw'r fam yn marw.

Mae angen i'r ysgolion wybod pwy sydd â 'chyfrifoldeb rhiant' ar gyfer pob plentyn. Mae hyn yn sicrhau y rhoddir awdurdod priodol pan fo'r ysgol angen caniatâd rhiant. Bydd hefyd yn sicrhau bod unigolion â chyfrifoldeb rhiant, nad ydynt yn byw gyda'r plentyn, yn gallu derbyn adroddiadau ysgol a chael cyfle i gymryd rhan yn addysg y plentyn.

**Diffiniad o Riant**
Mae rhieni yn cynnwys yr holl bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn fel y nodir yn Neddf Plant 1989. Lle caiff cyfrifoldeb am blentyn ei 'rannu', yr unigolyn sy'n cael Budd-dal Plant yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni cais ac y defnyddir eu cyfeiriad at ddibenion derbyn.

**Gofal am Blentyn**
Mae gan unigolyn "ofal" am blentyn os yw'r unigolyn yn byw gydag ac yn gofalu am y plentyn, beth bynnag fo ei berthynas â'r plentyn. Mae unigolyn o'r fath yn cael ei ystyried fel "rhiant" at ddibenion Deddf Addysg 1996, er nad oes o reidrwydd ganddo gyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

Gofynnir i rieni gydweithio gyda staff yr ysgol drwy ddarparu manylion i'r ysgol am yr unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant am ddisgybl, neu sy'n gofalu am ddisgybl. Dylid hysbysu'r ysgol am unrhyw newid i drefniadau cyfrifoldeb rhiant neu ofal dydd i ddydd y plentyn. Bydd unrhyw gyfeiriad at rieni yn y polisi hwn sy'n ymwneud â materion addysgol hefyd yn ymestyn i gynnwys unrhyw unigolyn sy'n gofalu am y plentyn / plant.

**Plant sy'n Derbyn Gofal**
Mae 'Plentyn sy'n Derbyn Gofal' yn golygu un sy'n 'Derbyn Gofal' gan Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant. Mae'r plant hyn yn derbyn y flaenoriaeth uchaf yn y meini prawf ar gyfer gormod o geisiadau ar gyfer yr holl ysgolion, yn cynnwys ceisiadau y tu allan i'r cyfnod derbyniadau arferol. Dylai'r rhiant corfforaethol perthnasol wneud ceisiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Plant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol**
Plant nad ydynt yn derbyn gofal bellach oherwydd eu bod wedi'u mabwysiadu neu'n destun gorchymyn preswylio, neu orchymyn gwarchodaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal.

**Diffiniad o Frawd neu Chwaer**
Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn sydd â brawd, chwaer, llysfrawd neu lyschwaer, hanner brawd neu hanner chwaer neu sy'n blentyn maeth neu blentyn wedi'i fabwysiadu yn byw yn yr uned deuluol yn yr un aelwyd deuluol a chyfeiriad ac y mae brawd neu chwaer yn dal i fod wedi ei gofrestru / chofrestru yn yr ysgol hon pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu'r ysgol. Hefyd bydd brodyr a chwiorydd biolegol sy'n parhau i fod ar gofrestr yr ysgol hon pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd heb ystyried eu man preswylio.

Ni chaiff plant sy'n byw ar yr un aelwyd fel rhan o deulu estynedig, megis cefndryd, gael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

**'Preswylio yn' a 'Chyfeiriad Cartref'**
Man preswylio parhaol presennol y plentyn yw'r cyfeiriad y dylid ei roi ar y ffurflen gais.

Ystyr parhaol yw lle y mae eich plentyn yn byw ac yn cysgu am fwyafrif yr wythnos, nid am gyfnod cyfyngedig ac nid mewn man lle mae eich plentyn yn aros dros dro am gyfnod byr.

Cyfeiriad eu rheini fydd hyn fel arfer. Os nad yw'r rhieni yn byw gyda'i gilydd, rhaid nodi cyfeiriad y rhiant y mae'r plentyn yn treulio y rhan fwyaf o amser gyda nhw – fel arfer y rhiant sy'n derbyn budd-dal plant (lle bo hynny'n berthnasol). Os yw'r plentyn yng ngwarchodaeth gyfartal ei ddau riant, y rhieni ddylai benderfynu pa gyfeiriad i'w ddefnyddio ond gallwn ofyn am Orchymyn Llys neu dystiolaeth arall i gadarnhau fod y trefniant hwn yn bodoli. Ni ddylech ddefnyddio cyfeiriad busnes, perthynas neu ofalwr / gwarchodwr plant. Os, am unrhyw reswm, nad chi yw rhiant y plentyn neu fod trefniadau byw y plentyn yn anarferol, eglurwch hyn ar y ffurflen a darparwch dystiolaeth.

Dim **ond** o un cyfeiriad y gellir gwneud cais, a dim ond un cais fesul plentyn y gellir ei wneud.
Os na allwch gytuno â'r rhiant arall pa ysgol y dylai eich plentyn ei mynychu, dylech geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun ar unwaith mewn perthynas â gwneud cais brys i'r Llys.

Os bydd angen gofyn am dystiolaeth, efallai y byddwn yn gofyn am sawl eitem i ddangos lle yr ydych yn byw gyda'ch plentyn, mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys y canlynol:
i) trwydded yrru
ii) budd-dal plant,
iii) bil treth y cyngor yn eich enw chi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd
iv) bil gwasanaeth yn eich enw chi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd
v) copi o'ch cytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd neu dystiolaeth o unrhyw brydles neu gytundeb sy'n cadarnhau eich hawl i fyw yn y cyfeiriad.
vi) unrhyw dystiolaeth arall o'r fath sy'n rhesymol yn ein barn ni

Bydd ein Corff Llywodraethu, ar y cyd â'r Awdurdod Lleol, yn gwirio'r cyfeiriad a ddarperir ar eich cais yn erbyn y cofnodion a gedwir ar gyfer ysgol / meithrinfa bresennol eich plentyn, ac efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth gennych chi os ydynt yn wahanol. Efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn gwirio cofnodion treth y cyngor. Os nad ydych chi wedi nodi eich cyfeirnod treth y cyngor ar eich cais, efallai y byddant yn ysgrifennu atoch i ofyn i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol o'ch cyfeiriad.

At ddibenion dyrannu, bydd unrhyw gynnig o le yn yr ysgol yn seiliedig ar ble fydd eich plentyn yn byw ar ddiwedd y **cyfnod dyrannu** (Gweler Amserlen Derbyniadau'r Awdurdod Lleol), ac yn amodol ar eich plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw, oni bai eich bod wedi ein hysbysu ni, a'n bod wedi derbyn ei fod wedi symud yn y cyfamser.

Os ydych yn symud ar ôl gwneud cais ond bod hynny yn ystod y cyfnod dyrannu, mae'n rhaid i chi roi prawf o'ch cyfeiriad newydd i ni. Mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys, er enghraifft:
i) llythyr cyfreithiwr yn cadarnhau fod pryniant eiddo wedi cael ei gwblhau; neu
ii) copi o'r cytundeb rhentu presennol, wedi'i lofnodi gan y Tenantiaid a'r Landlordiaid, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
iii) yn achos personél sy'n gwasanaethu yn Lluoedd Ei Mawrhydi, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu lleoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, FCO neu CHQ.
Byddwn yn ymchwilio i'r holl geisiadau lle mae amheuaeth am y cyfeiriad a roddir.

**Rhybudd Cyfeiriad**

**Gall defnyddio gwybodaeth ffug, gamarweiniol, anghyflawn neu anghywir arwain atom yn tynnu cynnig o le yn ôl, hyd yn oed ar ôl i blentyn ddechrau mewn ysgol.**
Gellir tynnu lle plentyn / lleoedd plant yn ôl os yw rhieni yn darparu cyfeiriad anghywir ar eu ffurflen gais gychwynnol, neu ar unrhyw adeg wedi hynny yn ystod y cyfnod dyrannu. Ni fyddwn yn derbyn cyfeiriad dros dro os oes gennych chi eiddo a ddefnyddiwyd fel cyfeiriad cartref yn flaenorol, oni bai bo amgylchiadau eithriadol sy'n dangos yn amlwg na all fod yn gyfeiriad parhaol i chi mwyach.
Ni fyddwn ychwaith yn derbyn cyfeiriad dros dro y credwn sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn derbyn lle yn yr ysgol yn unig. Efallai y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol i egluro pam nad ydych yn gallu defnyddio eich cyfeiriad parhaol.

Byddwn yn ymchwilio i bob honiad o gyfeiriadau ffug. Cyfrifoldeb y rhieni yw darparu dogfennaeth ddigonol i gefnogi preswyliad parhaol yn y cyfeiriad a nodwyd.

**Ysgol yr Eglwys yng Nghymru "Addas"**

Mae hyn yn cyfeirio at y cyfrwng iaith (Cymraeg, Saesneg neu Ddwyieithog) yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

**Efeilliaid, Tripledi, Genedigaethau Lluosog**
Efeilliaid, tripledi, pedrybledau, ac ati, sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n gwneud cais am leoedd yn yr un grŵp blwyddyn yn yr un ysgol.

Mewn achosion lle mae un lle'n weddill mewn ysgol, ac yn ôl y meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, dyrannir y lle i un brawd neu chwaer, ac EFALLAI y derbynnir y brodyr a'r chwiorydd eraill fel eithriadau. Mae cod derbyniadau i Ysgolion Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylai dosbarthiadau babanod gynnwys mwy na 30 disgybl gydag un athro/ athrawes. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, efallai y derbynnir plant fel "eithriadau" i gyfyngiad o ran maint dosbarth babanod; efallai yr ystyrir genedigaethau lluosog fel eithriad, ac os felly, byddai modd derbyn mwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig.

**Sut y profir ymlyniad crefyddol**

**Cyfeiriad at "fynychu / yn aelodau gweithredol" o feini prawf gordanysgrifio.**
Os yw rhieni'n dymuno i gais eu plentyn gael ei ystyried dan feini prawf d i g, yna mae'n rhaid iddynt sicrhau bod eu ficer / arweinydd ffydd yn llenwi ac yn llofnodi **ffurflen gwybodaeth atodol** (FfGA) a'i dychwelyd at Gorff Llywodraethu Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Trelawnyd ddim hwyrach na ***phum wythnos*** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau dosbarth Meithrin neu ddosbarth Derbyn (fel bo'n briodol). **Mae'r FfGA yn ceisio gwybodaeth am amlder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae gofyn i'ch offeiriad, gweinidog neu arweinydd ffydd lleol gadarnhau'r manylion hyn.** Mae ffurflen gwybodaeth atodol at y diben hwn i'w cael ar ddiwedd ein polisi derbyn, sydd ar gael ar ar-lein drwy ein gwefan www.flintshire.gov.uk/schools/schooladmissions neu'n uniongyrchol o'n hysgol.

Dylid dychwelyd y FfGA i'r ysgol dim hwyrach na ***phum wythnos*** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau dosbarth Meithrin neu ddosbarth Derbyn (fel bo'n briodol). Nid yw'r Ffurflen Gwybodaeth Atodol yn unig yn gyfystyr â chais; mae'n rhaid i rieni hefyd lenwi'r Ffurflen Gais fel y manylir ar ddechrau'r polisi hwn.

Y diffiniad o aelod yw aelod o'r Eglwys yng Nghymru trwy gofrestru ar gofrestr etholiadol y plwyf.

**Adolygu**
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn er mwyn cynnwys unrhyw newid o ran deddfwriaeth neu newid o ran amgylchiadau lleol.

Mae'r polisi hwn yn unol â'r cod derbyniadau i Ysgolion Llywodraeth Cymru presennol a chod apeliadau derbyniadau Ysgol Llywodraeth Cymru.

## Ysgol yr Esgob, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, Caerwys

Mae Ysgol yr Esgob, ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru yn derbyn disgyblion rhwng 4 ac 11 oed (a 3 a 4 oed yn y Dosbarth Meithrin). Fel Ysgol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion. Mae ffurflenni cais ar gael gan yr ysgol neu ar gyfer lle yn y dosbarth derbyn dylid gwneud cais ar-lein drwy wefan Cyngor Sir y Fflint. Dilynir amserlen derbyn yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyfer dosbarthu, cyfnod ystyried a dychwelyd y ffurflenni hyn.

Caiff disgyblon eu derbyn yn i'r Dosbarth Meithrin, sydd yn rhan o'n dosbarth Blynyddoedd Cynnar, yn y flwyddyn academaidd pan fyddant yn cael eu pen-blwydd yn 4 oed h.y. gellir derbyn ym mis Medi unrhyw blentyn sy'n 3 oed erbyn 31 Awst. Nid yw darpariaeth Dosbarth Meithrin yn ddarpariaeth statudol. Nid yw derbyn plentyn i'r Dosbarth Meithrin yn gwarantu y byddant yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn. Os oes gan blentyn le yn ein Dosbarth Meithrin, rhaid cyflwyno'r ffurflen gais briodol am le yn y Dosbarth Derbyn o fewn yr amser rhagnodedig yn y rownd derbyn flynyddol.

Yn Ysgol yr Esgob rydym hefyd yn derbyn disgyblion i'n dosbarth 'Hawl Bore Oes' yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Cysylltwch ag ysgrifennydd yr ysgol am ragor o wybodaeth. Caiff plant eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn yn y flwyddyn pan fyddant yn cael eu pen-blwydd yn 5 oed h.y. gellir derbyn ym mis Medi unrhyw blentyn sydd wedi cael ei ben-blwydd yn 4 oed cyn 31 Awst. Gall rhiant oedi derbyniad eu plentyn tan y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed.

Mae plant sy'n derbyn gofal a phlant a fu'n derbyn gofal yn flaenoriaeth ac yn achos gordanysgrifio bydd y plant hyn yn cael eu derbyn cyn unrhyw rai arall ar wahân i'r rhai hynny sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n enwi'r ysgol. Bydd plant o'r gymuned sipsiwn a theithwyr neu grwpiau teithio yn cael eu trin yn unol â Chylchlythyr Rhif 003/2008 Llywodraeth Cymru: 'Symud Ymlaen - Addysg Sipsiwn a Theithwyr'. Ni fydd yr ysgol yn gwahaniaethu rhwng bechgyn a merched, nac yn erbyn ymgeiswyr ar sail hil, lliw, cenedligrwydd na tharddiad cenedlaethol neu ethnig.
Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn gofyn bod ALl a Chyrff Llywodraethu yn derbyn disgyblion hyd nifer derbyn yr ysgol, sef 12.

**Derbyn i'r Ysgol Gynradd**
Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael ei dderbyn i'r ysgol oni bai bod nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer derbyn. Os bydd nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael bydd y meini prawf gordanysgrifio canlynol yn cael eu defnyddio yn y drefn isod i benderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn.

Noder: *bydd unrhyw blentyn y mae'r ysgol wedi ei henwi yn eu datganiad o anghenion addysgol arbennig yn cael eu derbyn cyn y rhoddir y meini prawf gordanysgrifio ar waith.*

Meini Prawf Gordanysgrifio

a) Plant sy'n derbyn gofal ac a fu'n derbyn gofal ac sydd wedi'u bedyddio'n aelodau o'r Eglwys yng Nghymru
b) Plant eraill sy'n derbyn gofal ac a fu'n derbyn gofal
c) Disgyblion sydd â brawd neu chwaer a fydd yn dal yn ddisgyblion yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf h.y. nid ym mlwyddyn 6 (gweler y diffiniad o frawd neu chwaer isod)
d)Disgyblion sy'n byw yn Ardal Genhadaeth Dinbych ac mai hon yw ysgol addas agosaf yr Eglwys yng Nghymru at eu cyfeiriad cartref. Disgyblion gyda chyfeiriad cartref o fewn ffiniau plwyf eglwysig Caerwys (mae map yn dangos y ffiniau plwyf eglwysig ar gael yn Swyddfa'r Esgobaeth)
e) Disgyblion y mae eu rhieni'n mynychu Eglwys Sant Mihangel, Caerwys.
f) Disgyblion y mae gan eu rhieni yn mynychu eglwys Anglicanaidd arall a hon yw'r ysgol a gynorthwyir agosaf at eu cartref.
g) Disgyblion y mae eu rhieni yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol nad yw'n Anglicanaidd a hon yw'r Ysgol Eglwys agosaf at eu cartref.
h) Disgyblion y mae eu rhieni'n aelodau gweithredol o ffydd arall ac sydd wedi datgan dymuniad i'w plant gael addysg mewn Ysgol Eglwys.
i) Disgyblion y mae eu rhieni'n dymuno iddynt fynychu Ysgol yr Eglwys yng Nghymru

Yn achos meini prawf e-h, bydd y Llywodraethwyr yn ceisio gwybodaeth am ba mor aml y mae'r rhieni'n mynychu gwasanaethau ac yn gofyn i offeiriad neu weinidog lleol gadarnhau hyn ar ffurflen atodol sydd ynghlwm wrth y polisi hwn.

Ym mhob categori, bydd y rhai hynny sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael blaenoriaeth uwch. Caiff hyn ei fesur yn ôl y llwybr cerdded mwyaf diogel. Caiff y pellteroedd eu cyfrifo drwy ddefnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol sy'n mesur y pellter yn gywir o'r cyfeiriad cartref i'r ysgol. Caiff hyn ei fesur o ddrws ffrynt y cartref i ddrws prif fynedfa'r ysgol. Os bydd y pellteroedd yn gyfartal, fel y cyfrifir gan y system GIS, er enghraifft fflat mewn bloc o fflatiau sydd â'r un drws ffrynt, bydd gwahaniaethu yn ôl lefel y llawr yn cael ei ddefnyddio.

**Bydd rhieni yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r holl geisiadau derbyn**

**Ceisiadau Hwyr**
Bydd yr ysgol yn ystyried ceisiadau hwyr, yn y rownd derbyniadau arferol, mewn achosion lle mae rheswm dichonadwy yn cael ei roi. Mae'r rhain yn cynnwys er enghraifft pan fo rhiant sengl wedi bod yn sâl ers cryn amser, teulu sydd newydd symud i'r ardal neu sy'n dychwelyd ar ôl bod dramor ar yr amod bod y ceisiadau wedi'u derbyn cyn y cynigir llefydd. Bydd yr holl geisiadau hwyr eraill ar gyfer y rownd derbyn arferol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd ar ôl ôl clustnodi lleoedd ar gyfer disgyblion y derbyniwyd ceisiadau ar eu cyfer ar amser.

**Rhestr Aros**
Bydd rhestr aros yn cael ei chynnal os bydd ysgol wedi'i gordanysgrifio. Yn dilyn clustnodi lleoedd o fewn y rownd derbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y cyflwynwyd y cais ar ei chyfer. Os bydd lleoedd ychwanegol yn dod ar gael tra bo'r rhestr aros yn weithredol byddant yn cael eu dyrannu i blant ar y rhestr aros ar sail y meini prawf gordanysgrifio uchod.

**Apeliadau derbyn**
Os nad ydym yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, bydd hynny oherwydd ein bod wedi cyrraedd y nifer derbyn a byddai cynnydd mewn niferoedd yn effeithio'n andwyol ar addysg y grŵp blwyddyn. Gall rhieni sy'n anfodlon â phenderfyniad y Corff Llywodraethu i beidio â derbyn plentyn apelio yn erbyn y penderfyniad. Bydd gwybodaeth am sut i apelio yn cael ei chynnwys gyda'r llythyr yn eich hysbysu bod eich cais yn aflwyddiannus. Os byddwch yn arfer yr hawl honno, rhaid i'r apêl gael ei anfon ymlaen at Glerc Llywodraethwyr yr ysgol. Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apêl derbyniadau annibynnol, a gynullwyd gan y Bwrdd Addysg Esgobaethol Statudol yn ôl cod ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion. Mae'r Panel Apeliadau yn gwrando ar yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle i'w plant yn ein hysgol. Mae'r penderfyniad hwn yn rhwymol ar gyfer pawb dan sylw.

**Dyrannu Lleoedd Meithrin**
Mae ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddyletswydd i ddarparu digon o leoedd meithrin yn eu hardal. Derbynnir disgyblion i'r Dosbarth Meithrin sy'n rhan o'n dosbarth Blynyddoedd Cynnar yn y flwyddyn academaidd pan maen nhw'n bedair oed, h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn ym mis Medi a oedd yn dair oed cyn neu ar 31 Awst. Nid yw addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol ac nid oes gan rieni hawl i apelio o dan Ddeddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998 os ydynt yn aflwyddiannus mewn cael lle. Nid yw derbyniad i'r dosbarth meithrin yn **sicrhau** lle yn yr ysgol. Os oes gan blentyn le yn ein Meithrinfa rhaid cyflwyno'r ffurflen gais briodol ar gyfer derbyn i'r Dosbarth Derbyn o fewn yr amserlen a ragnodwyd ar gyfer y cylch derbyniadau blynyddol.

Rydym yn darparu addysg Bore Oes ar gyfer disgyblion sydd wedi cael eu pen-blwydd yn 3 oed o ddechrau'r tymor ar ôl iddynt gael eu trydydd pen-blwydd. Darperir addysg feithrin yn y bore ar sail sesiynau 5 x 2.5 awr yr wythnos ar gyfer pob plentyn. Mewn achos o ordanysgrifio, defnyddir y meini prawf gordanysgrifio i drin ceisiadau am leoedd meithrin.

**Diffiniadau**

**Diffiniad o Rieni**
Mae rhieni yn cynnwys yr holl bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn fel y nodir yn Neddf Plant 1989. Lle mae cyfrifoldeb am blentyn yn 'cael ei rannu', y person sy'n derbyn Budd-dal Plant sy'n cael ei weld fel y person sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni cais a'r cyfeiriad hynny a fydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion derbyn.

**Cyfrifoldeb Rhieni:**
Oni bai y penderfynir fel arall gan orchymyn llys:

- Mamau sydd â chyfrifoldeb rhiant yn awtomatig
- Mae gan dadau hefyd gyfrifoldeb rhiant am blentyn os yw'r tad yn briod i'r fam ar yr adeg y cafodd y plentyn ei eni. Mae hyn yn parhau ar ôl unrhyw ysgariad/gwahanu/ailbriodi hyd yn oed os yw'r plentyn yn byw ar wahân iddyn nhw
- Mae gan dadau di-briod gyfrifoldeb rhiant lle mae'r fam a'r tad yn cofrestru genedigaeth y plentyn gyda'i gilydd (dyma ddiwygiad i Ddeddf Plant 1989, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac nid yw'n ôl-weithredol)
- Gall tadau dibriod, llys-rieni, perthnasau ac unigolion eraill gael cyfrifoldeb rhiant ond nid ydynt yn ei gael yn awtomatig. Mewn achosion o'r fath gellir rhoi cyfrifoldeb rhiant drwy orchymyn preswylio; cael ei benodi yn warcheidwad; cael ei enwi mewn gorchymyn amddiffyn brys (yn gyfyngedig i gymryd camau rhesymol i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu'r person ifanc); neu drwy fabwysiadu.

Mewn achos o anghydfod rhwng rhieni, lle mae mwy nag un rhiant â chyfrifoldeb rhiant ac nad ydynt yn cytuno i gais gael ei wneud i ysgol benodol, bydd lle mewn ysgol dros dro yn cael ei gynnig nes bod unrhyw anghydfod yn cael ei ddatrys gan y ddau riant fel mater personol.

**Diffiniad o frodyr a chwiorydd**
Ar gyfer ceisiadau a wneir yn y cylch mynediad arferol, brawd neu chwaer berthnasol yw plentyn sydd â brawd, chwaer, llysfrawd neu lyschwaer, hanner brawd neu hanner chwaer neu blentyn maeth neu blentyn a fabwysiadwyd yn byw yn yr un uned deuluol ac yn yr un aelwyd deuluol a chyfeiriad sy'n mynychu'r ysgol a ffafriwyd mewn unrhyw grŵp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf. Bydd brodyr a chwiorydd biolegol sy'n mynychu'r ysgol a ffafriwyd yn unrhyw grŵp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn

olaf, hefyd yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd ni waeth ymhle mae eu cartref. Ni chaiff plant sy'n byw ar yr un aelwyd fel rhan o deulu estynedig, megis cefndryd, gael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

**'Preswylio yn' a 'Chyfeiriad Cartref'**

Y Cyfeiriad Cartref yw'r cyfeiriad a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth lle mae'r "Budd-dal Plant" yn cael ei dalu. Mewn achosion lle mae amheuaeth o'r cyfeiriad cartref neu pan fo plentyn yn byw rhwng dau gartref (teuluoedd rhanedig) neu amgylchiadau perthnasol eraill, rhaid i brawf o'r Cyfeiriad Cartref gael ei ddarparu i'r ysgol i gadarnhau'r cyfeiriad a ddefnyddir ar y ffurflen gais. Y cyfeiriad cartref yw'r cyfeiriad sy'n cydymffurfio â'r uchod ar y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau a bennwyd gan yr Awdurdod Lleol. Dylai teuluoedd sydd ar fin symud tŷ ddarparu:

i) llythyr Cyfreithiwr yn cadarnhau bod Contractau wedi'u cyfnewid wrth brynu eiddo; neu
ii) copi o'r Cytundeb Rhent presennol, wedi ei lofnodi gan y Tenantiaid a'r Landlordiaid, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
iii) yn yr achos o bersonél gwasanaethu Lluoedd E.M. bydd angen llythyr swyddogol yn cadarnhau'r dyddiad symud gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, FCO neu GCHQ.

**Gefeilliaid, Tripledi, Genedigaethau Lluosog**
Pan fydd y Corff Llywodraethu yn ystyried gefeilliaid, tripledi neu enedigaethau lluosog eraill ar gyfer un lle sy'n weddill, bydd y teulu yn cael cynnig y lle ac fe allant benderfynu (a) os byddant yn derbyn y lle ar gyfer un brawd neu chwaer, pwy bynnag maent yn penderfynu'r lle ar eu cyfer neu (b) eu bod yn gwrthod y lle a'i fod yn cael ei gynnig i'r person nesaf yn y dyraniad ar ôl yr efeilliaid/tripledi/genedigaethau lluosog. Nodwch na fydd brodyr a chwiorydd o enedigaeth luosog yn cael blaenoriaeth o ran derbyn llefydd heblaw yng nghyswllt yr ystyriaeth brawd neu chwaer arferol ar ôl i'r teulu dderbyn y lle(oedd) a gynigir ar gyfer un o'r efeilliaid/ tripledi/genedigaethau lluosog.

**Addas**
Mae "addas" yn cyfeirio at statws yr ysgol (gwirfoddol a reolir neu wirfoddol a gynorthwyir) a chyfrwng iaith (Cymraeg, Saesneg neu Ddwyieithog) yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

**Sut y profir ymlyniad crefyddol.**

**Cyfeiriad at "fynychu / yn aelodau gweithredol" yn y meini prawf gordanysgrifio.**
Os ydych yn gwneud cais dan feini prawf e-h uchod gellir cael **Ffurflen Gwybodaeth Atodol (FfGA)** yn uniongyrchol o'r ysgol. Dylid dychwelyd y FfGA i'r ysgol cyn gynted â phosibl ar ôl hysbysiad o ordanysgrifio. Nid yw'r Ffurflen Gwybodaeth Atodol ar ei phen ei hun gyfwerth â chais; mae'n rhaid i rieni lenwi'r Ffurflen Gais Gyffredinol hefyd. Diffinnir aelod fel aelod o'r Eglwys yng Nghymru drwy gofrestru ar gofrestr etholiadol y plwyf.

**Adolygu**
Yn unol â Chynllun Datblygu'r Ysgol, bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd neu'n gynt yng ngoleuni unrhyw newid mewn deddfwriaeth neu newid mewn amgylchiadau lleol. Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'r cod derbyniadau i Ysgolion Llywodraeth Cymru presennol a chod apeliadau derbyniadau Ysgol Llywodraeth Cymru.

## Ysgol y Llan, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, Chwitffordd

Fel Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, y pwyllgor derbyniadau a sefydlwyd gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion. Bydd ffurflenni dewis rhieni ar gyfer derbyn i'r ysgol feithrin a chynradd ar gael ar lein (dull a ffefrir ar gyfer wneud cais) yn www.flintshire.gov.uk/schools/schooladmissions neu drwy gysylltu â'r Tîm Derbyniadau (&admissions@flintshire.gov.uk; 01352 704068/704073). Bydd y ffurflenni ar gael yn unol â'r amserlen dderbyniadau fel y'i nodir yn y Canllaw hwn.

**Amserlen Derbyniadau**
Dilynir amserlen derbyniadau'r Awdurdod Lleol (ALl) ar gyfer prosesu ceisiadau. Gweler www.flintshire.gov.uk/schools/schooladmissions

**Derbyn i'r Dosbarth Derbyn**

Derbynnir disgyblion i'r dosbarth derbyn yn y flwyddyn academaidd pan maen nhw'n bump oed, h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n bedair oed cyn neu ar 31 Awst ym mis Medi. Pan fydd lle mewn dosbarth derbyn wedi'i gynnig a'i dderbyn, caiff rhieni ohirio dyddiad dechrau eu plentyn tan ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Ni chaiff rhieni ohirio'r dyddiad dechrau y tu hwnt i'r cyfnod hwn, na'r tu hwnt i'r flwyddyn academaidd y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei chyfer.

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn gofyn i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu dderbyn disgyblion hyd at nifer derbyn disgyblion yr ysgol (ND). Y nifer derbyn yw faint o blant y gellir eu derbyn i bob grŵp blwyddyn yn ystod y flwyddyn ysgol a chaiff y nifer ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull asesu capasiti sydd i'w weld yn nogfen arweiniad Llywodraeth Cymru 'Mesur Capasiti Ysgolion Cymru'.

**Nifer Derbyn (ND) ein hysgol ni yw 15.**

Mae plant sy'n derbyn gofal a phlant a fu'n derbyn gofal yn y gorffennol yn flaenoriaeth.
Os bydd yr ysgol wedi'i gordanysgrifio, bydd y plant hyn yn cael eu derbyn cyn unrhyw rai eraill, ar wahân i'r rhai hynny sydd â datganiad o anghenion addysgu arbennig sy'n enwi ein hysgol ni.

Bydd plant o gymuned sipsiwn a theithwyr neu grwpiau teithio yn cael eu trin yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhif: 003/2008 'Symud Ymlaen – Addysg Sipsiwn a Theithwyr'.

Ni fydd ein hysgol yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr ar sail rhyw, hil, cenedligrwydd na tharddiad cenedlaethol nac ethnig.

Bydd pob ymgeisydd yn cael ei dderbyn i'r ysgol oni bai bod nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer derbyn (ND).

Bydd yr holl ffurflenni mynegi dewis yn cael eu hystyried ar sail dewisiadau cyfartal. Nid fydd enwi ein hysgol ni fel eich prif ddewis yn gwarantu lle yn ein hysgol os yw ein hysgol wedi'i gordanysgrifio.

Os bydd nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael bydd y meini prawf gordanysgrifio canlynol yn cael eu defnyddio yn y drefn isod i benderfynu pa ddisgyblion fydd yn cael eu derbyn.

Os yw ein hysgol wedi'i henwi mewn Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, mae arnom ddyletswydd i dderbyn y plentyn hwnnw yn yr ysgol.

**Meini Prawf Gordanysgrifio**

a) Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a Fu'n Derbyn Gofal
b) Disgyblion gyda brawd neu chwaer hyn sydd o oedran ysgol statudol a fydd yn dal wedi'u cofrestru yn ein hysgol ni pan fydd y plentyn iau yn gymwys i fynychu. (Gweler yr adran 'Diffiniadau' yn y polisi)
c) Disgyblion sy'n byw yn Ardal Genhadaeth y Foryd a'r Mynydd a'r ysgol hon yw'r ysgol Eglwys yng Nghymru agosaf at eu cartrefi. (Gweler yr adran 'Diffiniadau' yn y polisi)
d) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler yr adran 'Diffiniadau' yn y polisi) yn mynychu Eglwys y Santes Fair a Sant Beuno yn Chwitffordd .
e) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler yr adran 'Diffiniadau' yn y polisi) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall a hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf iddynt.
f) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler yr adran 'Diffiniadau' yn y polisi) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol heb fod yn Anglicanaidd a hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf iddyn nhw.
g) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler yr adran 'Diffiniadau' yn y polisi) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a hefyd yn mynegi dymuniad i'w plant gael addysg Ysgol Eglwys a'r ysgol hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf iddyn nhw.
h) Plant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynd i Ysgol yr Eglwys yng Nghymru.

Os yw rhieni am i gais eu plentyn gael ei ystyried o dan feini prawf d i g, yna bydd angen iddynt ofyn i'w ficer/arweinydd ffydd gwblhau a llofnodi ffurflen wybodaeth atodol (FfWA) y mae angen ei dychwelyd at y Corff Llywodraethu yn Ysgol y Llan dim hwyrach na ***phum wythnos*** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer y Dosbarth Meithrin/Derbyn (fel sy'n berthnasol). **Mae'r FfWA yn gofyn am wybodaeth am amlder presenoldeb mewn gwasanaethau / yn yr Ysgol Sul ac ati. Gofynnir i'r offeiriad, gweinidog neu arweinydd ffydd lleol gadarnhau'r manylion hyn.** Gellir dod

o hyd i ffurflen wybodaeth atodol i'r diben hwn ar ddiwedd y polisi derbyniadau sydd ar gael ar lein yn www.flintshire.gov.uk/schools/schooladmission neu'n uniongyrchol o'n hysgol.

**Penderfynu**

Os ceir mwy o ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau gordanysgrifio uchod, rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr sy'n byw agosaf at yr ysgol. Caiff y pellteroedd eu cyfrifo gan yr ALl. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS), i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd. Mae'r system wedi'i hymgorffori ym meddalwedd Capita ONE. Bydd cyfesurynnau cartref ymgeisydd yn cael eu pennu gan ddefnyddio Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a Data Pwynt Cyfeiriad Arolwg Ordnans. Bydd y man cychwyn ar gyfer asesu taith yn cael ei bennu fel y pwynt agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded o gyfeiriad y disgybl (prif fynedfa'r eiddo fel arfer), i bwynt canolog adeilad yr ysgol. Caiff y rhwydwaith ei ddiweddaru'n flynyddol.

**Dyrannu Lleoedd Meithrin**

Derbynnir disgyblion i'r Feithrinfa, sy'n rhan o ddosbarth Blynyddoedd Cynnar yn y flwyddyn academaidd pan maen nhw'n bedair oed, h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n dair oed cyn neu ar 31 Awst ym mis Medi.

Nid yw addysg feithrin yn orfodol ac nid oes gan rieni unrhyw hawl i apelio ynglŷn â derbyniadau meithrin dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Darperir addysg feithrin ym mhob ysgol/uned ar sail 5 sesiwn 2.25 awr yr wythnos ar gyfer pob plentyn. Mae lleoedd ar gael mewn dosbarthiadau meithrin hyd ein Nifer Derbyn.

Caiff rhieni fynegi blaenoriaeth ar gyfer unrhyw ddosbarth meithrin waeth beth yw'r pellter rhwng cartref y plentyn a'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw mynegi blaenoriaeth yn gwarantu lle yn y feithrinfa honno. Mewn achos o ordanysgrifio, defnyddir y meini prawf gordanysgrifio i drin ceisiadau am leoedd meithrin.

**Nid yw** derbyniad i'r dosbarth meithrin yn gwarantu derbyniad i'r ysgol. ***Os bydd gan blentyn le yn ein Dosbarth Meithrin, rhaid i rieni gwblhau'r ffurflen briodol er mwyn i'r plentyn gael ei dderbyn i'r dosbarth Derbyn. Rhaid cyflwyno'r ffurflen yn unol â'r Amserlen Dderbyn (y rhoddwyd manylion yn ei chylch uchod).***

**Darpariaeth Cludiant**

Gweler gwefan Cyngor Sir y Fflint (www.flintshire.gov.uk/schooladmissions <http://www.flintshire.gov.uk/schooladmissions>) am wybodaeth ynglŷn â'r posibilrwydd o ddarparu cludiant.

**Ceisiadau Hwyr**

Bydd ceisiadau hwyr (h.y. ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau a chyn diwedd y cyfnod dyrannu) yn cael eu hystyried ar ôl y rhai sy'n cael eu cyflwyno mewn pryd oni bai bod rhesymau eithriadol dros gyflwyno'r cais yn hwyr.

Rhaid amlinellu rhesymau eithriadol (er enghraifft rhiant sengl sydd wedi bod yn sâl ers peth amser neu deulu sydd newydd symud i mewn i'r ardal) yn eich cais er mwyn i'r pwyllgor derbyn roi ystyriaeth iddynt. Mae'n RHAID rhoi tystiolaeth ategol os bydd y pwyllgor derbyniadau'n gofyn am hynny.

Bydd yr holl geisiadau hwyr yn cael eu graddio yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio a bydd unrhyw leoedd sydd ar gael yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr uchaf ar y raddfa hyd at ddiwedd y cyfnod dyrannu. Wedi hynny y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu rhoi ar y rhestr aros.

**Rhestr aros**

Cedwir rhestr aros os bydd yr ysgol wedi'i gordanysgrifio a bydd yn cynnwys:

- y plant hynny y mae eu rhieni wedi gofyn yn benodol yn ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost) am iddynt gael eu rhoi ar restr aros yr ysgol
- y rhai y mae ffurflen apêl wedi'i derbyn ar eu cyfer
- unrhyw geisiadau hwyr

Yn dilyn dyrannu lleoedd o fewn y cylch derbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y gwnaed cais ar ei chyfer. Bydd plant yn cael eu rhoi ar ein rhestr aros yn unol

â'n meini prawf gordanysgrifio. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra bo'r rhestr aros yn weithredol, byddant yn cael eu dyrannu i blant ar y rhestr aros ar sail eu lle ar y rhestr aros NID ar sail dyddiad gwneud y cais.

Er enghraifft yn achos plentyn sy'n symud i ardal arall y tu allan i'r cyfnod derbyn sydd â blaenoriaeth uwch o dan y meini prawf gordanysgrifio, mae'n rhaid eu gosod yn uwch ar y rhestr na phlant â blaenoriaeth is sydd eisoes ar y rhestr.

Bydd rhestrau aros yn cael eu cynnal tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol dan sylw.

**Apeliadau derbyn**

Os nad ydym yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, y rheswm dros hynny yw bod y nifer derbyniadau wedi ei gyrraedd a byddai cynnydd mewn niferoedd yn effeithio'n andwyol ar addysg ein disgyblion presennol. Gall rhieni sy'n anfodlon â phenderfyniad y Corff Llywodraethu i beidio â derbyn plentyn apelio yn erbyn y penderfyniad. Bydd y wybodaeth am sut i apelio yn cael ei chynnwys gyda'r llythyr yn eich hysbysu bod eich cais yn aflwyddiannus. Os penderfynwch apelio yn erbyn y penderfyniad, rhaid anfon yr apêl at Glerc Llywodraethwyr yr ysgol. Rhaid apelio yn ysgrifenedig gan roi'r rhesymau llawn dros yr apêl a chynnwys unrhyw dystiolaeth atodol.

Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apêl derbyniadau annibynnol, sy'n cael ei gynnull gan y Bwrdd Addysg Esgobaethol Statudol yn unol â chod ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Apeliadau Derbyniadau Ysgolion. Mae'r Panel Apeliadau yn gwrando ar yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle i'w plant yn ein hysgol.

Nid yw'r hawl i apelio yn berthnasol i dderbyniadau i'r dosbarth meithrin.

**Os bydd rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael lle i'w plentyn yn ein hysgol ni, mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig o le yn ôl. Os caiff lle ei dynnu'n ôl, gellir ailgyflwyno'r cais ac os caiff ei wrthod , gall y rhiant apelio yn erbyn y penderfyniad.**

**Cais a Dderbynnir y tu allan i'r Cyfnod Derbyniadau Arferol**

Bydd unrhyw un sy'n mynegi diddordeb mewn derbyniad y tu allan i'r rownd derbyniadau arferol yn gallu cael ffurflen gais ar y pwynt cyswllt cyntaf. Ar ôl eu derbyn, bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ddi-oed a bydd yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu o'r penderfyniad ffurfiol i naill ai gynnig neu wrthod lle o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr, pa un bynnag sydd gyntaf.

## Diffiniadau

**Cyfrifoldeb Rhieiniol**

Diffinnir 'Cyfrifoldeb Rhieiniol' yn Neddf Plant 1989 ac mae'n golygu ysgwyddo'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant plentyn yn ôl y gyfraith mewn perthynas â'r plentyn a'u heiddo

Oni bai y penderfynir fel arall gan orchymyn llys:

- Mamau sydd â chyfrifoldeb rhiant yn awtomatig
- Mae gan dadau hefyd gyfrifoldeb rhieiniol am blentyn os oedd yn briod â'r fam pan gafodd y plentyn ei eni. Mae hyn yn parhau ar ôl unrhyw ysgariad/gwahanu/ailbriodi hyd yn oed os yw'r plentyn yn byw ar wahân iddyn nhw
- Mae gan dadau di-briod gyfrifoldeb rhieiniol os yw'r fam a'r tad yn cofrestru genedigaeth y plentyn gyda'i gilydd (dyma ddiwygiad i Ddeddf Plant 1989, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac nid yw'n ôl-weithredol).
- Gall tadau dibriod, llys-rieni, perthnasau ac unigolion eraill gael cyfrifoldeb rhieiniol ond nid ydynt yn ei gael yn awtomatig. Yn y fath achosion gellir caniatáu cyfrifoldeb rhieiniol drwy:
    - orchymyn preswylfa;
    - penodiad fel gwarcheidwad;
    - enwi'r unigolyn perthnasol mewn gorchymyn amddiffyn brys (dim ond os oes angen cymryd camau rhesymol i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu'r unigolyn Ifanc).
    - mabwysiadu
- Nid yw byw gyda'r fam, hyd yn oed os yw hynny am amser hir, yn rhoi cyfrifoldeb rhieiniol ac os nad yw'r rhieni wedi priodi nid yw cyfrifoldeb rhieiniol bob amser yn trosglwyddo i'r tad naturiol os bydd y fam yn marw.

Mae ysgolion angen gwybod pwy sydd â 'chyfrifoldeb rhieiniol dros bob plentyn. Y rheswm dros hyn yw sicrhau y rhoddir yr awdurdod priodol pan fydd ar yr ysgol angen caniatâd rhieiniol. Bydd hyn hefyd yn sicrhau y gellir rhoi adroddiadau ysgol a chyfle i fod yn rhan o addysg plentyn i bobl â chyfrifoldeb rhieiniol ond nad yw'r plentyn yn byw gyda nhw.

Mae rhieni yn cynnwys yr holl bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn fel y nodir yn Neddf Plant 1989. Lle caiff cyfrifoldeb am blentyn ei 'rannu', yr unigolyn sy'n derbyn y Budd-dal Plant yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni cais ac y defnyddir eu cyfeiriad at ddibenion derbyn.

**Gofal Plentyn**

Bydd unigolyn 'a gofal' dros blentyn os ydynt y byw gyda, ac yn edrych ar ôl plentyn, waeth beth yw eu perthynas gyda'r plentyn. Ystyrir y fath unigolyn yn 'rhiant' i ddibenion Deddf Addysg 1996 hyd yn oed os nad oes gan yr unigolyn hwnnw o reidrwydd gyfrifoldeb rhieiniol dros y plentyn.

Gofynnir i rieni gydweithredu â staff yr ysgol drwy roi manylion i'r ysgol am yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhieiniol dros blentyn neu sy'n gyfrifol am ofal y plentyn. Dylid rhoi gwybod i'r ysgol am unrhyw newidiadau i'r trefniadau cysylltiedig â chyfrifoldeb rhieiniol neu ofal dydd i ddydd y plentyn. Mae unrhyw gyfeiriad at rieni yn y polisi hwn yng nghyd-destun materion addysgol hefyd yn cynnwys unrhyw unigolyn sydd â gofal am y plentyn/plant.

**Plant sy'n Derbyn Gofal**

Plentyn sy'n Derbyn Gofal yw plentyn sy'n cael ei ofalu amdano gan Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 o'r Ddeddf Plant. Rhoddir blaenoriaeth i'r plant hyn yn y meini prawf gordanysgrifio ar gyfer pob ysgol, yn cynnwys ceisiadau y tu allan i'r cyfnod derbyniadau arferol. Dylid gwneud ceisiadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal gan y rhiant corfforaethol perthnasol.

**Plant a fu'n Derbyn Gofal**

Plant a fu'n derbyn gofal ond nad ydynt yn ei dderbyn bellach oherwydd eu bod wedi cael eu mabwysiadu neu wedi dod yn destun gorchymyn preswylfa neu orchymyn gwarchodaeth arbennig yn syth ar ôl bod yn derbyn gofal.

**Diffiniad o Frawd neu Chwaer**

Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn sydd â brawd, chwaer, llyschwaer neu lysfrawd, hanner chwaer neu hanner frawd neu blentyn maeth neu blentyn wedi'i fabwysiadu sy'n byw yn yr un uned deuluol a chyfeiriad gydag un neu fwy o'r brodyr neu'r chwiorydd hyn wedi'u cofrestru yn yr ysgol a ffefrir pan fydd y plentyn iau yn gymwys i fynychu. Bydd brodyr a chwiorydd biolegol sy'n dal wedi'u cofrestru yn yr ysgol hon pan fydd y plentyn iau yn gymwys i fynychu hefyd yn cael eu trin fel brodyr neu chwiorydd ni waeth ymhle maen nhw'n byw.

Ni chaiff plant sy'n byw ar yr un aelwyd fel rhan o deulu estynedig, megis cefndryd, eu trin fel brodyr a chwiorydd.

**'Preswylio yn' a 'Chyfeiriad Cartref'**

Man preswylio parhaol presennol y plentyn yw'r cyfeiriad y dylid ei roi ar y ffurflen gais.

Mae parhaol yn golygu'r man lle mae eich plentyn yn byw ac yn cysgu y rhan fwyaf o'r wythnos, nid am amser cyfyngedig ac nid rhywle lle mae'r plentyn yn aros am gyfnod byr.

Cyfeiriad eu rheini fydd hyn fel arfer. Os nad yw'r rhieni'n byw gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r cyfeiriad fod yn gyfeiriad rhiant y mae'r plentyn yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser gyda nhw - fel arfer y rhiant sy'n derbyn y budd-dal plant (os yn berthnasol). Os yw'r plentyn yng ngwarchodaeth gyfartal ei ddau riant, y rhieni ddylai benderfynu pa gyfeiriad i'w ddefnyddio ond gallwn ofyn am gael gweld Gorchymyn Llys neu dystiolaeth arall i gadarnhau bod y trefniant hwn yn bodoli. Ni ddylech ddefnyddio cyfeiriad busnes, perthynas neu ofalwr/gwarcheidwad. Os am unrhyw reswm nad chi yw'r rhiant neu os yw trefniadau byw'r plentyn yn anarferol, eglurwch hynny ar y ffurflen a rhowch dystiolaeth.

Caniateir cais o **un** cyfeiriad **yn unig** a dim ond un cais fesul plentyn. Os na allwch gytuno â'r rhiant arall pa ysgol y dylai eich plentyn ei mynychu, dylech geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun ar unwaith mewn perthynas â gwneud cais brys i'r Llys.

Pe bai'n angenrheidiol gofyn am dystiolaeth mae'n bosibl y bydd arnom angen nifer o eitemau i ddangos ymhle yr ydych yn byw gyda'ch plentyn. Mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys, er enghraifft:

i) Trwydded Yrru
ii) Budd-dal plant
iii) Bil treth y cyngor yn eich enw chi ar gyfer cyfnod y cais a/neu'r cyfnod dyrannu.
iv) Bil nwy/trydan/dwr ac ati yn eich enw chi ar gyfer cyfnod y cais a/neu'r cyfnod dyrannu
v)Copi o gytundeb tenantiaeth wedi'i arwyddo ar gyfer cyfnod y cais a/neu'r cyfnod dyrannu neu dystiolaeth o unrhyw les neu gytundeb sy'n cadarnhau eich cais i breswylio mewn cyfeiriad penodol.
vi) Unrhyw dystiolaeth resymol arall.

Bydd ein Corff Llywodraethu, mewn cydweithrediad â'r Awdurdod Lleol, yn gwirio'r cyfeiriad a roddwyd ar eich cais yn erbyn y cofnodion a gedwir ar gyfer ysgol/meithrinfa bresennol eich plentyn ac fe allem ofyn am wybodaeth a thystiolaeth gennych chi os ydynt yn wahanol. Gallai'r Awdurdod Lleol hefyd wirio cofnodion treth y cyngor. Os nad ydych wedi rhoi eich cyfeirnod treth y cyngor ar eich cais efalla y byddant yn ysgrifennu atoch i ofyn am brawf ychwanegol o'ch cyfeiriad.

I ddibenion dyrannu mae unrhyw gynnig o le mewn ysgol yn seiliedig ar le mae eich plentyn yn byw ar ddiwedd y cyfnod dyrannu (gweler amserlen dderbyniadau'r Awdurdod Lleol) ac mae'n amodol ar i'ch plentyn fod yn byw yn y cyfeiriad hwnnw oni bai eich bod wedi rhoi gwybod i ni am, a'n bod wedi derbyn y ffaith eich bod wedi symud i gyfeiriad arall.

Os ydych yn symud ar ôl gwneud cais ond bod hynny yn ystod y cyfnod dyrannu, mae'n rhaid i chi roi prawf o'ch cyfeiriad newydd i ni. Mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys, er enghraifft:
i) llythyr cyfreithiwr yn cadarnhau bod cyfnewid Contractau wedi digwydd wrth brynu eiddo; neu
ii) gopi o'r cytundeb rhentu presennol, wedi ei lofnodi gan y Tenantiaid a'r Landlordiaid, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
iii) yn achos pobl sy'n gwasanaethu yn Lluoedd ei Mawrhydi, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu symud/lleoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, FCO CHQ.
Byddwn yn ymchwilio i bob cais lle mae amheuaeth ynghylch y lleoliad sydd wedi'i roi.

**Rhybudd am Gyfeiriadau**

**Gallai rhoi gwybodaeth gamarweiniol, anghyflawn neu anghywir arwain at dynnu'r cynnig o le yn ôl, hyd yn oed pan fydd plentyn wedi dechrau yn yr ysgol.**
Efallai y bydd lle mewn ysgol yn cael ei dynnu'n ôl os bydd rhieni'n rhoi'r cyfeiriad anghywir ar eu ffurflen gais gyntaf neu ar unrhyw adeg arall yn ystod y cyfnod dyrannu. Ni fyddwn yn derbyn cyfeiriad dros dro os oes gennych chi dal eiddo a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel cyfeiriad cartref, oni bai bod amgylchiadau eithriadol sy'n dangos yn glir na ellir bellach ddefnyddio'r cyfeiriad hwnnw fel cyfeiriad parhaol.
Ni fyddwn chwaith yn derbyn cyfeiriad dros dro y mae gennym le rhesymol i gredu ei fod yn cael ei ddefnyddio dim ond neu yn bennaf er mwyn cael lle mewn ysgol. Efallai y gofynnir i chi roi gwybodaeth ychwanegol i egluro pam nad ydych yn gallu defnyddio eich cyfeiriad parhaol.

Byddwn yn ymchwilio pob honiad o gyfeiriad ffug. Ar y rhieni y mae'r cyfrifoldeb dros roi digon o dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r datganiad mai preswylfa barhaol y plentyn yw'r cyfeiriad a ddefnyddiwyd.

**Ysgol yr Eglwys yng Nghymru "Addas".**

Mae hyn yn cyfeirio at gyfrwng ieithyddol yr ysgol (Saesneg, Cymraeg neu Ddwyieithog) yn dibynnu ar ddewis y rhiant.

**Efeilliaid, Tripledi, Genedigaethau Lluosog**

Efeilliaid, tripledi, pedrybledau, ayyb, sy'n byw yn yr un cyfeiriad â'u rhieni'n gwneud cais am le yn yr un ysgol.

Mewn achosion lle mai dim ond un lle sydd ar ôl yn yr ysgol, ac yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio, os caiff un brawd neu chwaer o enedigaeth luosog y lle olaf hwnnw, mae'n bosib y gellir derbyn y brodyr a/neu'r chwiorydd eraill fel eithriadau. Mae Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru yn datgan na ddylai dosbarthiadau babanod gynnwys mwy na 30 disgybl gydag un athro/athrawes. Dan amgylchiadau cyfyngedig gellir derbyn plant fel 'eithriadau' i ddosbarth babanod o faint cyfyngedig;

gellir ystyried genedigaethau lluosog fel eithriadau ac os felly gellid eu derbyn yn ychwanegol at y nifer derbyn a gyhoeddwyd.

**Sut y profir ymlyniad crefyddol.**

**Cyfeiriad at "fynychu / yn aelodau gweithredol" yn y meini prawf gordanysgrifio.**
Os yw rhieni'n dymuno i gais eu plentyn gael ei ystyried o dan feini prawf d i g, yna bydd angen iddynt ofyn i'w ficer/arweinydd ffydd gwblhau a llofnodi **ffurflen wybodaeth atodol** (FfWA) y mae'n rhaid ei dychwelyd at y Corff Llywodraethu yn Ysgol y Llan dim hwyrach na **phum wythnos** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer y Dosbarth Meithrin/Derbyn (fel sy'n berthnasol). **Mae'r FfWA yn gofyn am wybodaeth am amlder presenoldeb mewn gwasanaethau / yn yr Ysgol Sul ac ati. Gofynnir i'r offeiriad, gweinidog neu arweinydd ffydd lleol gadarnhau'r manylion hyn.** Gellir dod o hyd i ffurflen wybodaeth atodol i'r diben hwn ar ddiwedd y polisi derbyniadau sydd ar gael ar lein yn www.flintshire.gov.uk/schools/schooladmissions neu'n uniongyrchol o'n hysgol.

Rhaid dychwelyd y FfWA i'r ysgol dim hwyrach na phum wythnos ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer y dosbarth Meithrin/Derbyn (fel sy'n berthnasol). Nid yw'r Ffurflen Wybodaeth Atodol ar ei phen ei hun yn golygu eich bod wedi gwneud cais; rhaid i rieni hefyd lenwi Ffurflen Gais fel y manylir ar ddechrau'r polisi hwn.

Caiff aelod ei ddiffinio fel aelod o'r Eglwys yng Nghymru trwy gofrestru ar gofrestr etholiadol y plwyf.

**Adolygu**
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn er mwyn cynnwys unrhyw newid i ddeddfwriaeth neu mewn amgylchiadau lleol.

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â Chod Derbyn i Ysgolion a Chod Apeliadau Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

## Ysgolion Cynradd Catholig Gwirfoddol a Gynorthwyir

**Ysgol Gynradd y Santes Fair, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir**

Mae Ysgol y Santes Fair yn Ysgol Gynradd Gatholig sydd wedi ei lleoli yn esgobaeth Wrecsam ac a gynhelir gan Awdurdod Addysg Lleol Sir y Fflint. Y Corff Llywodraethol sy'n gyfrifol am bennu a gweinyddu'r polisi perthnasol i dderbyn disgyblion i'r ysgol. Caiff ei arwain yn hyn o beth gan a) gofynion y gyfraith b) cyngor yr Ymddiriedolwyr Esgobaethol ynghylch natur a phwrpas ei ddyletswyddau ac c) ei ddyletswydd tuag at yr ysgol a'r gymuned Gatholig y mae'n ei wasanaethu, cymeriad Catholig yr ysgol a'i chenhadaeth e) cydnabyddiaeth o ffin y Plwyf,

Mae'r ysgol yn gwasanaethu yn y lle cyntaf blant sydd wedi'u bedyddio'n Gatholigion sy'n byw ym mhlwyf Eglwys yr Ymddwyn Difrycheulyd y Fflint. Wedi ymgynghori a'r AALl ac eraill yn unol â gofynion y gyfraith, mae'r Corff Llywodraethol wedi cyhoeddi ei nifer derbyn fel 45 disgybl ar gyfer y flwyddyn yn cychwyn Medi 2018.

Rhaid gwneud ceisiadau am le yn yr ysgol ar y ffurflen bwrpasol a'i dychwelyd i'r ysgol. Mae'r corff Llywodraethol wedi dirprwyo cyfrifoldeb dros bennu derbyniadau i'r Pwyllgor Derbyniadau, a fydd yn ystyried pob cais ar y run pryd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyniadau, ac yn unol â'r meini prawf derbyn isod. Bydd disgyblion sy'n cael eu derbyn i'r ysgol yn mynd i'r Dosbarth Meithrin.

Os yw'r ysgol wedi ei henwi yn natganiad o anghenion addysgol arbennig disgybl, mae ar y Corff Llywodraethol ddyletswydd i dderbyn y plentyn hwnnw i'r ysgol. Fel sy'n ofynnol o dan y gyfraith ni fydd y Corf Llywodraethu yn derbyn mwy na 30 o blant i unrhyw un dosbarth derbyn neu fabanod.

**Meini Prawf Gordanysgrifio**

Lle mae nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio'r meini prawf canlynol yn nhrefn blaenoriaeth.

1. Plant Catholig Sy'n Derbyn Gofal.

2. Plant Catholig a fedyddiwyd o fewn y plwyf y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu. Mae angen tystiolaeth o ddyddiad geni ar ffurf Tystysgrif Geni a phrawf o Dystysgrif Bedydd.
3. Plant Catholig a fedyddiwyd y mae eu hanghenion meddygol, addysgol neu fugeiliol dim ond yn gallu cael eu diwallu gan yr ysgol hon.
4. “Plant sy'n Derbyn Gofal" nad ydynt yn dilyn y ffydd Gatholig.
5. Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar yr adeg derbyn debygol.
6. Plant o enwadau Cristnogol eraill. Mae'n angenrheidiol i’r rhieni fod wedi mynegi gwir ddymuniad i'w plant gael eu haddysgu mewn ysgol Gatholig ac i fod yn hollol gefnogol o'n hethos Catholig.
7. Plant o ffydd arall y mae eu rhieni yn dangos ymrwymiad i ethos yr ysgol.
8. Plant y mae'r AALl wedi gofyn yn benodol am le yn yr ysgol iddynt.

Os oes ceir mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael o dan unrhyw un o'r categorïau uchod, yna bydd y pwyllgor Derbyniadau'n cynnig lleoedd yn gyntaf i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol a fesurir gan y pellter cerdded byrraf gan ddefnyddio'r ffyrdd cyhoeddus.

BYDD DERBYNIADAU I DDOSBARTH MEITHRIN Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair ar sail rhan amser a bydd y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am hyn yn unol â’r dewis y mae rhieni yn ei ddatgan. Os oes mwy o geisiadau na nifer y llefydd sydd ar gael yn y Feithrinfa, bydd y meini prawf derbyn canlynol yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu.
1. Plant sydd wedi eu bedyddio’n Gatholigion yn y plwyfi y mae’r ysgol yn eu gwasanaethu. Bydd Prawf o ddyddiad geni ar ffurf Tystysgrif Geni a phrawf o fedydd ar ffurf Tystysgrif Bedydd yn angenrheidiol.
2. Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar adeg eu derbyn
3. Plant o enwadau Cristnogol eraill. Mae’n angenrheidiol i rieni o’r fath fod wedi mynegi gwir ddymuniad i’w plant gael eu haddysgu mewn Ysgol Gatholig a bod yn llwyr gefnogol o’i hethos Catholig.
4. Plant o ffydd arall y mae eu rhieni wedi dangos ymrwymiad i ethos yr ysgol
5. Plant eraill sy’n byw yn Sir y Fflint gan ystyried pa mor agos yw’r ysgol at eu cartref

Noder:
a) Ni fydd derbyniad i’r Dosbarth Meithrin o reidrwydd yn sicrhau lle yn yr ysgol gynradd
b) Mae’r Corff Llywodraethol yn neilltuo’r hawl i dderbyn plant sydd ag anghenion meddygol a chymdeithasol profedig ac eithriadol lle byddai eu derbyn i’r dosbarth meithrin yn bodloni’r anghenion eithriadol hynny orau. Mae hyn ar yr amod y caiff y fath gais ei gyflwyno gyda’r dystiolaeth briodol neu adroddiad gan Feddyg neu Weithiwr Cymdeithasol. Os enwir ysgol mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig mae ar y Corff Llywodraethol ddyletswydd i dderbyn y plentyn dan sylw i’r ysgol. Bydd angen tystysgrif bedydd ar gyfer pob ymgeisydd o’r ffydd Gristnogol.
**c)** Y pennaeth fydd yn gyfrifol am benderfynu a fydd plentyn yn cael lle yn y bore neu’r prynhawn

Ysg**ol Gynradd y Santes Gwenffrewi, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir**

**Meini Prawf Gordanysgrifio**

Lle mae nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio'r meini prawf canlynol yn nhrefn blaenoriaeth.

1 Plant Catholig sy’n Derbyn Gofal a fedyddiwyd o fewn y plwyfi y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu. Mae angen tystiolaeth o ddyddiad geni ar ffurf Tystysgrif Geni a phrawf o Fedydd ar ffurf Tystysgrif Bedydd.
2. Plant Catholig a fedyddiwyd o fewn y plwyfi y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu. Mae angen tystiolaeth o ddyddiad geni ar ffurf Tystysgrif Geni a phrawf o Fedydd ar ffurf Tystysgrif Bedydd.
3. Plant Catholig a fedyddiwyd y mae eu hanghenion meddygol, addysgol neu fugeiliol dim ond yn gallu cael eu diwallu gan yr ysgol hon.
4. Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar yr adeg derbyn debygol.
5. Plant sy'n Derbyn Gofal.

Byddai’n angenrheidiol i’r rhieni fod wedi mynegi gwir ddymuniad i'w plant gael eu haddysgu mewn ysgol Gatholig ac i fod yn hollol gefnogol o'i hethos Catholig. Byddai angen i geisiadau o’r fath gael eu cefnogi, yn ysgrifenedig, gan dystiolaeth o ddyddiad geni ar ffurf tystysgrif geni.
6. Plant o enwadau Cristnogol eraill.

Byddai’n angenrheidiol i’r rhieni fod wedi mynegi gwir ddymuniad i'w plant gael eu haddysgu mewn ysgol Gatholig ac i fod yn hollol gefnogol o'i hethos Catholig. Byddai angen i geisiadau o’r fath gael eu

cefnogi, yn ysgrifenedig, gan dystiolaeth o ddyddiad geni ar ffurf tystysgrif geni a thystiolaeth o fedydd ar ffurf tystysgrif bedydd.
7. Plant o Ffydd arall y mae eu rhieni am iddynt gael addysg Gatholig.
8. Plant y mae'r AALl wedi gofyn yn benodol am le yn yr ysgol iddynt.

Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael o dan unrhyw un o'r categorïau uchod, yna bydd y pwyllgor Derbyniadau'n cynnig lleoedd yn gyntaf i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol a fesurir gan y pellter cerdded byrraf gan ddefnyddio'r ffyrdd cyhoeddus.

**Ysgol Gynradd Dewi Sant yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir**

**Meini Prawf Gordanysgrifio**

Lle mae nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio'r meini prawf canlynol.

1 Plant Catholig a Fedyddiwyd sydd mewn gofal cyhoeddus (plant sy'n derbyn gofal). Mae angen tystiolaeth o ddyddiad geni ar ffurf Tystysgrif Geni a phrawf o Fedydd ar ffurf Tystysgrif Bedydd.
2 Plant Catholig a Fedyddiwyd o fewn y plwyfi y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu. Mae angen tystiolaeth o ddyddiad geni ar ffurf Tystysgrif Geni a phrawf o Fedydd ar ffurf Tystysgrif Bedydd.
3 Plant Catholig a Fedyddiwyd y mae eu hanghenion meddygol, addysgol neu fugeiliol yn gallu cael eu diwallu'n briodol gan yr ysgol hon.
4 Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar yr adeg derbyn debygol.
5 Plant mewn gofal cyhoeddus (plant sy'n derbyn gofal) nad ydynt wedi'u Bedyddio yn y ffydd Gatholig.
6 Plant o enwadau Cristnogol eraill. Byddai'n angenrheidiol i'r rhieni fod wedi mynegi gwir ddymuniad i'w plant gael eu haddysgu mewn ysgol Gatholig ac i fod yn hollol gefnogol o'i hethos Catholig. Byddai angen i geisiadau o'r fath gael eu cefnogi, yn ysgrifenedig, gyda thystiolaeth o ddyddiad geni ar ffurf Tystysgrif Geni a thystiolaeth o Fedydd ar ffurf Tystysgrif Bedydd.
7 Plant o ffydd arall y mae eu rhieni yn dangos ymrwymiad i ethos yr ysgol.
8 Plant y mae'r AALl wedi gofyn yn benodol am le yn yr ysgol iddynt.

Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael o dan unrhyw un o'r categorïau uchod, yna bydd y pwyllgor Derbyniadau'n cynnig lle yn gyntaf i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol.

**Ysgol Gynradd St Anthony Saltney, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir**

Yn ôl y gyfraith yng Nghymru does dim rhaid i blentyn ddechrau'r ysgol tan y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn bump oed. Yn St Anthony, bydd plant pedair oed yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn yn ystod y flwyddyn ysgol pan fyddant yn cael eu pen-blwydd yn bump oed. Y Dosbarth Derbyn yw'r flwyddyn dderbyn arferol i'r ysgol. Mae trefniadau yn y ddeddfwriaeth i ymdrin â cheisiadau yn y flwyddyn am dderbyniad i'r dosbarth derbyn a grwpiau blwyddyn eraill. Bydd {annel Derbyniadau'r Corff Llywodraethu yn ystyried y rhain ar sail ad hac. Mae trefniadau derbyn gwahanol yn bodoli ar gyfer y Dosbarth Meithrin ac nid yw derbyniad i'r Dosbarth Meithrin mewn unrhyw ffordd yn gwarantu lle i'r plentyn yn y Dosbarth Derbyn.

Mae'r AALl wedi gosod y nifer derbyn yn ôl y fformiwla ar 21. Bydd y Corff Llywodraethol yn derbyn y nifer hwnnw heb unrhyw amodau, heb i ffydd fod yn ystyriaeth a heb gyfweliad. Mae'n rhaid gwneud ceisiadau am le yn yr ysgol ar y ffurflen briodol a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn y dyddiad a gyhoeddwyd fan bellaf.

Ni fydd y Corff Llywodraethol yn derbyn mwy na 30 o ddisgyblion i'r Dosbarth Derbyn neu luosrifau o hynny i'r Uned Blynyddoedd Cynnar. Os enwyd yr ysgol mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig, mae ar y Corff Llywodraethol ddyletswydd i dderbyn y plentyn dan sylw/. Os yw'r Corff Llywodraethau a'r Awdurdod Derbyn wedi cynnig lle ar sail cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol gan riant, bydd y cynnig o le yn cael ei dynnu'n ôl. Os cafwyd lle drwy dwyll, a bod y plentyn eisoes wedi dechrau yn yr ysgol, bydd ers pryd maen nhw yn yr ysgol yn cael ei ystyried wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â thynnu'r lle yn ôl ai peidio.

**Gordanysgrifio**
Lle mae nifer y ceisiadau'n uwch na nifer Derbyn, bydd y Panel Derbyn a benodwyd gan y Corff Llywodraethol yn defnyddio'r meini prawf canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth:

1. Plant Catholig wedi'u Bedyddio sy'n derbyn gofal mewn gofal cyhoeddus.
2. Plant sy'n Derbyn Gofal nad ydynt yn dilyn y ffydd Gatholig.
3. Plant Catholig a fedyddiwyd o fewn plwyfi Brychdyn, Kinnerton a Saltney, y plwyfi y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu.
4. Plant Catholig wedi'u bedyddio y mae eu hanghenion cymdeithasol a bugeiliol dwys yn gallu cael eu diwallu yn well gan yr ysgol. Ar gyfer plant Catholig yng nghategorïau 1, 3 a 4, bydd angen i'r Panel Derbyn weld Tystysgrif Geni wreiddiol a Thystysgrif Bedydd, ynghyd â geirda ysgrifenedig ar y ffurflen ragnodedig gan Offeiriad y Plwyf. Ar gyfer plant yng nghategori 4, bydd angen i'r Panel Derbyn weld tystiolaeth ategol gan feddyg, gweithiwr cymdeithasol neu'r AALl ynghylch pam mai'r ysgol hon yw'r un fwyaf addas ar gyfer y plentyn.
5. Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar y dyddiad derbyn.
6. Plant o enwadau Cristnogol eraill, y mae gan eu rhieni wir ddymuniad i'w plant gael eu haddysgu mewn ysgol Gatholig, ac sydd yn hollol gefnogol o'i hethos Catholig.
   Bydd angen i'r Panel Derbyn weld Tystysgrif Geni wreiddiol a Thystysgrif Bedydd, ynghyd â geirda ysgrifenedig ar y ffurflen a ragnodir gan Offeiriad y Plwyf neu Weinidog.
7. Plant o ffydd arall y mae eu rhieni yn dangos ymrwymiad i ethos yr ysgol.
8. Plant y mae'r AALl wedi gofyn i'r ysgol eu lleoli. Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod, bydd y Panel Derbyniadau'n cynnig lleoedd i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol, sy'n cael ei fesur yn ôl y pellter byrraf rhwng drws ffrynt y cartref neu fflat / rhandy a phrif giât yr ysgol, gan ddefnyddio priffyrdd cyhoeddus, a chaiff ei gadarnhau gan Adran Gludiant yr AALl.

**Ysgol Gynradd Gatholig yr Hybarch Edward Morgan, Shotton, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir**

**Meini prawf Gordanysgrifio**

Lle mae nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio'r meini prawf canlynol yn nhrefn blaenoriaeth.

1. Plant Catholig Sy'n Derbyn Gofal.
2. Plant Catholig a Fedyddiwyd o fewn y plwyfi y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu. Mae angen tystiolaeth o ddyddiad geni ar ffurf Tystysgrif Geni a phrawf o fedydd ar ffurf Tystysgrif Bedydd.
3. Plant Catholig a fedyddiwyd na ellir diwallu eu hanghenion meddygol, addysgol neu fugeiliol dim ond gan yr ysgol hon.
4. 'Plant sy'n Derbyn Gofal' nad ydynt yn dilyn y ffydd Gatholig.
5. Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar yr adeg derbyn tebygol.
6. Plant o enwadau Cristnogol eraill. Mae'n angenrheidiol i'r rhieni fod wedi mynegi gwir ddymuniad i'w plant gael eu haddysgu mewn ysgol Gatholig ac i fod yn hollol gefnogol o'n hethos Catholig.
7. Plant o ffydd arall y mae eu rhieni yn dangos ymrwymiad i ethos yr ysgol.
8. Plant y mae'r AALl wedi gofyn yn benodol am le yn yr ysgol iddynt.

Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael o dan unrhyw un o'r categorïau uchod, yna bydd y pwyllgor Derbyniadau'n cynnig lleoedd yn gyntaf i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol a fesurir gan y pellter cerdded byrraf gan ddefnyddio'r ffyrdd cyhoeddus.

**Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn**

Mae Ysgol Sant Richard Gwyn yn Ysgol Uwchradd Gatholig a gynorthwyir yn wirfoddol yn Esgobaeth Wrecsam ac a gynhelir gan Awdurdod Addysg Sir y Fflint (ALl). Mae'r ysgol yn gwasanaethu Sir y Fflint i gyd ac yn darparu addysg sy'n seiliedig ar ffydd wedi'i wreiddio yng Ngwerthoedd yr Efengyl i bobl ifanc.

Mae'n bolisi gan y Llywodraethwyr y dylid cadw natur nodedig Gatholig yr ysgol. Gyda hyn mewn golwg bydd Llywodraethwyr yn gofyn i bob rhiant a gofalwr sy'n dymuno i'w plant fynychu Sant Richard Gwyn barchu a chefnogi'r ethos Catholig a'i bwysigrwydd i gymuned yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rhieni nad ydynt o'r ffydd Gatholig ond sy'n dymuno i'w plentyn gael addysg sy'n seiliedig ar ffydd i wneud cais a chael eu hystyried am le yn yr ysgol.

Ar ôl ymgynghori gyda'r ALl mae'r Corff Llywodraethol wedi cyhoeddi Nifer Derbyn yr ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2019 - 2020 fel **166** ym mhob grŵp blwyddyn (7 -11).

Rhaid gwneud ceisiadau am le yn yr ysgol ar y ffurflen a ddarperir gan yr ALl a'i dychwelydd yn unol â'r cyfarwyddiadau. Os bydd rhiant yn dymuno rhoi gwybodaeth ychwanegol i gefnogi eu cais dylai fod ar Ffurflen SI a ddarparwyd gan yr ysgol. Dylai unrhyw dystysgrifau bedydd neu dderbyn a llythyrau ategol hefyd fod ynghlwm.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi dirprwyo cyfrifoldeb dros ymdrin â derbyniadau i'w Bwyllgor Derbyniadau. Bydd y Pwyllgor Derbyn yn cadw at yr amserlen a gyhoeddwyd gan yr ALl a bydd yn ystyried pob cais ar yr un pryd ar ôl y dyddiad cau cyhoeddedig. Yna bydd ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn cael gwybod. Os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer derbyn, bydd y Llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth i geisiadau yn unol â'r meini prawf sydd ynghlwm, ar yr amod bod y Llywodraethwyr yn cael gwybod am y cais hwnnw cyn y gwneir penderfyniadau ar dderbyniadau.Ym mhob categori, bydd y Llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth i'r disgyblion hynny sydd â brawd neu chwaer (gweler Nodyn 2: Brodyr a Chwiorydd) sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn ar adeg derbyn ac yna'r plant hynny sy'n byw agosaf at yr ysgol a bennir gan y pellter byrraf (gweler Nodyn 5: Gordanysgrifio).

Os bydd cais am dderbyn yn aflwyddiannus, gall rhieni apelio i'r Panel Apêl Annibynnol. Mae'r weithdrefn hon yn cael ei rheoli gan yr ALl. Mae'r Panel Apeliadau yn cynnwys unigolion sydd yn gwbl annibynnol o'r ysgol a'r ALl. Mae'n rhaid i'r apêl gael ei hanfon yn ysgrifenedig at Glerc y Llywodraethwyr yn yr ysgol o fewn 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) o gael ei gwrthod. Rhaid i rieni roi eu rhesymau dros apelio yn ysgrifenedig ac mae penderfyniad y Panel Apêl yn rhwymol ar y Llywodraethwyr.

Lle mae nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio'r meini prawf gormod o geisiadau canlynol yn nhrefn blaenoriaeth.

1. Plant Catholig (gweler Nodyn 1: diffiniad o blentyn Catholig wedi'i Fedyddio) sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol (Plant sy'n Derbyn Gofal) neu a fu yng ngofal yr Awdurdod Lleol, neu sy'n cael llety gan yr Awdurdod Lleol (e.e. plant sy'n byw gyda rhieni maeth) (Adran 22 o Ddeddf Plant 1989) neu Blant sy'n derbyn Gofal nad ydynt o'r Ffydd Gatholig.
2. Plant Catholig sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgol borthi Gatholig ddynodedig (gweler Adran 3: Ysgolion Porthi Catholig).
3. Plant Catholig sydd ar hyn o bryd yn byw yn ardal y plwyf (gweler Nodyn 4: Plwyfi Catholig) nad ydynt ar hyn o bryd yn mynychu ysgol borthi Gatholig ddynodedig (gweler Adran 3: Ysgolion Porthi Catholig).
4. Plant Catholig eraill (gweler Nodyn 1: Diffiniad o blentyn Catholig wedi'i Fedyddio)
5. Plant nad ydynt yn Gatholig sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgol borthi Gatholig ddynodedig (gweler Adran 3: Ysgolion Porthi Catholig).
6. Plant o enwadau Cristnogol eraill sydd eisiau addysg Gristnogol benodol.
7. Plant sydd â brawd neu chwaer (gweler Nodyn 1: Brodyr a Chwiorydd) yn yr ysgol ar yr adeg derbyn.
8. Plant o ffydd arall y mae eu rhieni'n ceisio addysg ar sail ffydd ar eu cyfer.
9. Plant eraill y mae eu rhieni eisiau addysg ar sail ffydd eu cyfer. Noder: yng Nghategorïau 5 i 9 bydd Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a Oedd yn Derbyn Gofal yn cael y flaenoriaeth uchaf.

**NODIADAU**

**<u>Diffiniad o "Blentyn Catholig wedi'i Fedyddio"</u>**

Ym mhob categori, i blentyn gael ei ystyried yn Gatholig, efallai bydd angen tystiolaeth o Fedydd Catholig neu Dderbyn i mewn i'r Eglwys. Am ragor o wybodaeth am y diffiniad o fedydd Catholig cysylltwch â'r ysgol. Dylai rhieni sy'n gwneud cais ar gyfer plentyn Catholig hefyd ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar y Ffurflen SI a ddarperir gan yr ysgol. Gall methu â chyflwyno'r wybodaeth ychwanegol effeithio ar y maen prawf y caiff enw'r plentyn ei roi ynddo.

**<u>Brodyr a Chwiorydd</u>**

Ar gyfer plant Catholig a phlant nad ydyn nhw'n Gatholig, y diffiniad o frawd neu chwaer yw:

Brawd neu chwaer sy'n rhannu'r un rhieni; hanner brawd neu hanner chwaer, lle mae dau o blant yn rhannu un rhiant cyffredin; Llys frawd neu lys chwaer, lle mae dau blentyn yn perthyn i'w gilydd drwy briodas rhiant un â rhiant y llall rhieni; Plant wedi'u mabwysiadu neu eu maethu
Mae'n rhaid i'r plant fod yn byw yn barhaol yn yr un cartref.

**Ysgolion Porthi Catholig**
Yr ysgolion porthi cynradd dynodedig ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yw:

- Eglwys Gatholig y Santes Fair
- Dewi Sant, Yr Wyddgrug
- Sant Anthony, Saltney
- Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton
- Santes Gwenffrewi, Treffynnon

**Plwyfi Catholig**
Y meysydd plwyf ar gyfer yr ysgolion porthi cynradd yw: Treffynnon, Pantasaph, Y Fflint, Yr Wyddgrug, Bwcle, Shotton, Queensferry, Penarlâg, Saltney a Brychdyn.

**Gordanysgrifio**
Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael o dan unrhyw un o'r categorïau uchod, yna bydd y Pwyllgor Derbyniadau'n cynnig lle yn gyntaf i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol wedi'i fesur o gyfeiriad cartref y plentyn i brif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol. Mewn nifer fach iawn o achosion efallai na fydd hi'n bosibl penderfynu rhwng y disgyblion hynny sy'n gymwys am le, wrth ddefnyddio'r meini prawf derbyn a gyhoeddwyd. Er enghraifft, gall hyn ddigwydd pan fo plant yn yr un grŵp blwyddyn yn byw yn yr un cyfeiriad, neu lle mae gefeilliaid, neu os yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn union yr un fath, er enghraifft, blociau o fflatiau. Os nad oes unrhyw ffordd arall o wahanu'r cais yn unol â'r meini prawf derbyn a byddai derbyn y ddau neu bob un o'r plant olygu bod mwy na'r nifer cyfreithlon o ddisgyblion, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio system gyfrifiadurol i ddewis y plentyn ar hap i gael cynnig y lle olaf. POLISI DERBYN www.strichardgwynflint.co.uk Mawrth 2018 9

Ystyrir mai cyfeiriad cartref y disgybl yw eu cartref parhaol. Rhaid i'r cyfeiriad fod yn unig neu brif breswylfa'r plentyn am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol. Efallai y bydd angen tystiolaeth ddogfennol. Lle caiff gofal ei rannu'n gyfartal rhwng y fam a'r tad, rhaid i rieni enwi pa gyfeiriad y dylid ei ddefnyddio at ddibenion dyrannu lle mewn ysgol a gellir gofyn am dystiolaeth.

**Rhagor o Wybodaeth a Chanllawiau**
Os ydych yn ansicr eich bod yn bodloni meini prawf derbyn yr Esgobaeth neu os ydych am gael rhagor o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â'r Pennaeth yn yr ysgol.

**Ymholiadau Derbyn**
Croesewir ymholiadau ynglŷn â derbyn ac ymweliadau gan rieni cyn dewis ysgol uwchradd. Ffoniwch yr ysgol i wneud apwyntiad sy'n gyfleus i bawb.

**Prosbectws yr Ysgol**
Mae pob rhiant yn cael eu hannog i ddarllen Prosbectws yr Ysgol yn ofalus a chyfeirio at wefan ein Hysgol (www.strichardgwyn.com) i gael gwybodaeth am yr ysgol, gan fod cyflwyno ffurflen wedi'i llenwi'n cael ei gymryd i awgrymu eich bod yn derbyn y polisïau, gweithdrefnau a rheoliadau a amlinellir yn y Prosbectws.

**Gwybodaeth gan Rieni**
Gofynnir i rieni roi wybod i'r ysgol am unrhyw newidiadau yn y wybodaeth sylfaenol a roddwyd ar y ffurflen dderbyn, yn enwedig newid enw, newid cyfeiriad, newid mewn amgylchiadau teuluol.

**Ceisiadau ar gyfnodau heblaw'r cyfnod 11+**
Mae'n rhaid i gais gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r ysgol a bydd y Llywodraethwyr yn rhoi ystyriaeth yn ôl y meini prawf uchod, gan gynnwys cyfeiriad at nifer sylfaenol y grŵp blwyddyn hwnnw.

**Trosglwyddo o Ysgol Uwchradd arall yn Sir y Fflint.**
Gellir ystyried trosglwyddo disgybl sydd ar hyn o bryd mewn Ysgol Uwchradd arall yn Sir y Fflint. Bydd llywodraethwyr yn ystyried cais o'r fath o dan y meini prawf derbyn arferol ac mewn ymgynghoriad â Phennaeth yr ysgol bresennol. Mae rhieni sy'n ystyried trosglwyddiad o'r fath yn cael eu cynghori yn y lle cyntaf i gysylltu â Phennaeth yr ysgol bresennol ac yna Swyddog Cyfnod Uwchradd yr AALl yn Neuadd y Sir. Yn dilyn y cysylltiadau hyn a chytundeb y rhain, gall y rhiant wneud cais ysgrifenedig i Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn

gofyn am gael trosglwyddo eu plentyn ac yn rhoi rhesymau i gefnogi hynny. Bydd cais aflwyddiannus yn destun y gweithdrefnau apelio a amlinellir yn y Polisi Derbyn.

**Ceisiadau Olynol**

Oni bai bod newidiadau sylweddol a pherthnasol yn amgylchiadau cais y rhiant ar gyfer eu plentyn neu'r ysgol, ni fydd y llywodraethwyr yn ystyried cais olynol yn yr un flwyddyn academaidd.

**Ceisiadau Hwyr**

Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu trin yn unol â chynllun cydlynol yr awdurdod lleol.

**Newid Dewis**

Unwaith bydd rhieni/ gofalwyr wedi cyflwyno eu dewisiadau ni fyddant yn cael eu newid heb fod newid eithriadol mewn amgylchiadau, er enghraifft, os bydd y teulu yn ddiweddar wedi symud cyfeiriad neu fod brawd neu chwaer hŷn wedi newid ysgol. Dylai pob cais i newid dewisiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Lleol. Heb newid eithriadol yn eu hamgylchiadau, bydd unrhyw riant/ gofalwr sy'n cyflwyno cais am newid eu dewis ysgol am ysgol sydd yn orlawn, yn cael eu cais wedi'i wrthod.

**Rhestrau Aros**

Bydd rhieni nad yw eu plant wedi cael cynnig lle yn eu dewis ysgol yn cael eu hysbysu o'u hawl i apelio a byddant yn cael eu hychwanegu at restr aros yr ysgol o'u dewis. Bydd yr Awdurdod Lleol yn anfon eu rhestrau aros i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn dilyn cynnig lleoedd mewn ysgolion. Bydd rhestrau aros ar gyfer derbyn yn aros ar agor tan 31 Rhagfyr 2015 ac yna byddant yn cael eu rhoi i'r neilltu. Gall rhieni wneud cais am i enw eu plentyn gael ei adfer tan ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fydd y rhestr yn cael ei rhoi i'r neilltu. Ni fydd rhestrau aros yn sefydlog ar ôl cynnig lleoedd. Byddant yn cael eu cynnal yn unol â'r drefn flaenoriaeth ar gyfer dyrannu lleoedd ac felly maent yn agored i newid. Mae hyn yn golygu y gallai safle'r plentyn ar y rhestr aros fynd i fyny neu i lawr. Bydd unrhyw ymgeiswyr hwyr a dderbynnir yn cael eu hychwanegu at restr yr ysgol yn unol â threfn blaenoriaeth ar gyfer dyrannu lleoedd. Nid yw bod ar restr aros ysgol yn golygu y bydd lle ar gael yn y pen draw. Gall y rhai y cynigwyd lleoedd iddynt eisoes dderbyn y lleoedd hynny, ac felly llenwi'r holl leoedd sydd ar gael. Mae plant sy'n destun cyfarwyddyd gan awdurdod lleol i dderbyn neu sydd wedi cael eu dyrannu i ysgol yn unol â'r Protocol Mynediad Teg yn cael blaenoriaeth dros y rhai ar restr aros.

**Protocol Symud dan Reolaeth**

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu Protocol Symud dan Reolaeth yr awdurdod lleol ar gyfer derbyn plant a waharddwyd yn flaenorol neu sy'n anodd eu lleoli.

**21. Cymorth ariannol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r "Grant Amddifadedd Disgyblion - Mynediad". Mae'r grant ar gael i Ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim os ydyn nhw

- Yn mynd i mewn i ddosbarth Derbyn, blynyddoedd 1, 3, 5, 7, 8, 9, 10 ac 11
- mewn ysgol arbennig, canolfan adnoddau anghenion arbennig neu uned cyfeirio disgyblion ac yn 4, 5, 7, 9, 11, 12, 13, 14 neu 15 oed

Ar gyfer Dysgwyr Blwyddyn 7 y grant yw £200 - ac ar gyfer grwpiau blwyddyn eraill mae'n £125. Mae cyllid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar gael ym mhob blwyddyn ysgol.

Mae'r grant yn cynnwys:

- Gwisg ysgol;
- Pecyn chwaraeon ysgol;
- Gwisg ar gyfer gweithgareddau ehangach, er enghraifft chwaraeon, sgowtiaid a geidiaid;
- Offer ysgol lle mae gweithgareddau cwricwlwm newydd yn cychwyn fel dylunio a thechnoleg; a
- Offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol fel dillad gwrth-ddŵr ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

Mae ffurflenni cais ar gyfer hawlio'r grant ar gael ar **www.flintshire.gov.uk/benefits** .

**Prydau Ysgol a Llaeth am Ddim**

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau:-

- Bod pryd canol dydd yn cael ei ddarparu ym mhob ysgol gynradd ac ysgol arbennig gyda dewis o gyrsiau ble bynnag bosibl.

- Bod pryd canol dydd yn cael ei ddarparu ym mhob ysgol uwchradd ar ddull 'caffeteria' gyda system brisio ar gyfer pob eitem.

- Bydd Prydau Ysgol am ddim yn cael eu darparu ar gyfer disgyblion sydd â'u rhieni'n derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Cymorth dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Cheiswyr Lloches 1999, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (Cysylltiedig ag Incwm), Credyd Treth Plant (heb Gredyd Treth Gwaith) gydag incwm blynyddol o £16,190 neu lai (yn amodol ar adolygiad gan Lywodraeth Cymru), elfen Gwarant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth, Credyd Treth Gwaith cychwynnol, Credyd Cynhwysol, Credyd Cynhwysol (os yw incwm a enillir yn cael ei gynnwys yn yr asesiad Credyd Cynhwysol mae'n rhaid iddo fod yn llai na £7,400.00).

- Mae Llaeth am ddim yn cael ei ddarparu ar gyfer plant rhwng 3 a 6 oed yn yr ysgolion hynny sy'n dewis ymuno â chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad.

  Mae manylion am y cynllun ar gael gan Brifathro'r ysgol y mae eich plentyn yn ei mynychu.

Mae manylion ynglŷn â'r drefn ar gyfer hawlio prydau ysgol am ddim ar gael o www.siryfflint.gov.uk/benefits.

**23. Polisi Codi Tâl a Rhyddhau Rhag Talu**

Mae'r Polisi Codi Tâl a Rhyddhau Rhag Talu llawn Corff Llywodraethol eich ysgol ar gael oddi wrth Brifathro'r ysgol mae'ch plentyn yn ei mynychu.

**24. Cyfrifoldeb Rhiant**

Yn dilyn newidiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth ynglŷn â phlant yn Neddf Plant 1989, a ddaeth yn gyfraith ym mis Hydref 1991, mae angen i ysgolion wybod pwy sydd â 'chyfrifoldeb rhiant' ar gyfer pob plentyn. Diben hyn yw sicrhau bod awdurdod priodol yn cael ei roi pan fydd angen caniatâd rhieni ar yr ysgol. Fe fydd hefyd yn sicrhau bod unigolion a chanddynt gyfrifoldeb rhiant ond nad yw'r plentyn yn byw gyda hwy, yn gallu cael adroddiadau ysgol a'r cyfle i gymryd rhan yn addysg y plentyn.

- Mam sydd â chyfrifoldeb rhiant am ei phlentyn yn awtomatig o adeg ei eni.
- Yng Nghymru a Lloegr, os yw rhieni plentyn yn briod â'i gilydd ar adeg yr enedigaeth, neu os ydynt wedi mabwysiadu plentyn ar y cyd, mae gan y ddau ohonynt gyfrifoldeb rhiant. Nid yw rhieni'n colli cyfrifoldeb rhiant os ydynt yn ysgaru, ac mae hyn yn berthnasol i'r rhiant sy'n byw gyda'r plentyn a'r rhiant nad yw'n byw gyda'r plentyn. Nid yw hyn yn wir yn awtomatig ar gyfer rhieni nad ydynt yn briod.
- Mae gan y tad gyfrifoldeb rhiant dim ond os yw'n briod â'r fam ar adeg geni'r plentyn neu os yw wedi cael cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyfer ei blentyn trwy un o'r tri llwybr canlynol:

- (o 1 Rhagfyr 2003 ymlaen) trwy gofrestru genedigaeth y plentyn ar y cyd â'r fam
- trwy gytundeb cyfrifoldeb rhiant gyda'r fam
- trwy orchymyn cyfrifoldeb rhiant, a wnaed gan lys

Nid yw byw gyda'r fam, hyd yn oed am gyfnod hir, yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i dad. Os nad yw'r rhieni'n briod, nid yw cyfrifoldeb rhiant bob amser yn trosglwyddo i'r tad naturiol os yw'r fam yn marw.

Gofynnir i rieni gydweithredu â staff yr ysgol trwy ddarparu manylion yr unigolion a chanddynt gyfrifoldeb rhiant dros ddisgybl. Dylid hysbysu'r ysgol am unrhyw newidiadau i'r trefniadau ar gyfer cyfrifoldeb rhiant neu ofal y plentyn o ddydd i ddydd.

Mae unrhyw gyfeiriad at rieni yn y llyfryn hwn yn cynnwys unrhyw unigolyn sydd â gofal y plant.

**25. Polisi Cludiant**

Mae angen i'r Awdurdod Lleol benderfynu a yw'n angenrheidiol darparu cludiant i ddisgyblion o oed ysgol statudol i ganiatáu iddynt fynychu ysgol ddynodedig. Os penderfynir bod angen cludiant, yna rhaid darparu'r cludiant am ddim.

**Y ddarpariaeth statudol sylfaenol**
Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant am ddim i blant o oedran ysgol orfodol (h.y. 5-16 oed) fel a ganlyn:-

- os yw'r plentyn yn cael addysg gynradd ac yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol addas agosaf;
- os yw'r plentyn yn cael addysg uwchradd ac yn byw dros dair milltir o'r ysgol addas agosaf.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn darparu cludiant am ddim i blant o oedran ysgol orfodol

- os yw'r Awdurdod Lleol, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, o'r farn bod y llwybr i'r ysgol yn beryglus;
- os yw cludiant i ysgol a enwir yn cael ei nodi yn Natganiad o Anghenion Addysgol Arbennig disgybl. Fel arfer byddai hyn ar sail feddygol neu addysgol a byddai'n cael ei ystyried yn hanfodol yng nghyd-destun meini prawf eraill a nodwyd yn y polisi hwn;
- os oes angen cludiant ar blentyn ar sail feddygol ac nid oes cludiant cyhoeddus addas ar gael.

**Darpariaeth cludiant arall**
Caiff cludiant am ddim ei ddarparu hefyd ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol:

- os yw'r rhieni'n cael Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Treth Gwaith, ac mae'r cartref dros 2.5 milltir o'r ysgol addas agosaf.
- i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf yn ôl y meini prawf a nodir uchod.
- I'r ysgol agosaf a gynorthwyir yn wirfoddol ble mae derbyn i'r ysgol ar sail enwadol, yn amodol ar y meini prawf pellter. Bydd ymgynghori ag ysgolion unigol yn digwydd i gadarnhau'r meini prawf derbyn yn ôl pa rai y derbynnir disgyblion. Mae'n bosibl y gofynnir am dystiolaeth addas o ymlyniad at ffydd yr ysgol megis tystysgrif bedyddio neu lythyr gan offeiriad.

**Cludiant Ôl-16 i Ddisgyblion Blwyddyn 12 a 13**
Darperir cludiant am ddim i fyfyrwyr dros 16 oed yn Sir y Fflint os ydyn nhw'n mynychu eu cwrs llawn amser cyntaf mewn ysgol neu goleg, ar yr amod y bodlonir y maen prawf pellter o dair milltir, a bod y myfyrwyr yn mynd i'r sefydliad addysgol agosaf sy'n cynnig y cyrsiau y maen nhw'n dymuno eu hastudio. Dim ond i rai safleoedd penodol y darperir cludiant. Y rhain yw:

- Pob Ysgol Uwchradd yn Sir y Fflint sy'n cynnig cyrsiau ôl-16
- Ysgol Uwchradd Gatholig Caer, safleoedd Coleg Cambria yng Nghei Connah, Llaneurgain, Wrecsam a Llysfasi (ar gyfer cyrsiau tir yn unig), Ysgol Uwchradd Prestatyn, Rhyl 6, Ysgol Santes Ffraid ac Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy. Llanelwy.

Ni ddarperir cludiant i sefydliad addysgol nad yw'r un agosaf at gartref y myfyriwr oni bai fod yr Awdurdod Lleol o'r farn bod gwahaniaeth sylweddol rhwng y cyrsiau yn y naill sefydliad a'r llall. Dylai fod y cyrsiau ar lefel uwch na'r rhai blaenorol: er enghraifft, ni fyddai aileistedd arholiadau TGAU fel arfer yn teilyngu rhywun i gael cymorth.

**Cludiant i fyfyrwyr dros 19 oed**
Bydd cludiant yn cael ei ddarparu am ffi o £150 y tymor (£450 am flwyddyn) i fyfyrwyr cymwys sydd wedi troi'n 16 oed ond nad ydynt wedi troi'n 19 oed ar y 1 Medi yn y flwyddyn academaidd berthnasol. I osgoi unrhyw amheuaeth ac yn amodol ar dalu'r tâl pob tymor, bydd cludiant yn parhau i gael ei ddarparu i fyfyrwyr dros gyfnod eu cwrs gwreiddiol, hyd yn oed os ydynt yn troi'n 19 oed cyn diwedd y cwrs hwnnw.

**Cludiant consesiynol**
Newidiadau i seddi consesiynol ar gludiant ysgol
Oherwydd gofynion y Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSVAR) (gwefan allanol), yn anffodus ni allwn dderbyn ceisiadau newydd am seddi consesiynol ar gyfer ein gwasanaethau cludiant i'r ysgol (bysiau, coetsys neu dacsis). Bydd consesiynau wedi'u cyflwyno'n barod yn parhau lle bynnag fo hynny'n bosib.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu angen mwy o wybodaeth peidiwch ag oedi rhag cysylltu â chludiant ysgol ar school.transport@flintshire.gov.uk

**Disgyblion/myfyrwyr ag anawsterau dysgu/anableddau**

Bydd cludiant arbenigol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion/myfyrwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu pan nodir hynny yn y datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried anghenion addysgol arbennig neu anabledd y disgybl, p'un a oes ganddo ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ai peidio, wrth benderfynu pa ysgol yw'r ysgol addas agosaf. Bydd y gofynion cludiant yn dibynnu ar amgylchiadau unigol a bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun.

Pan nodir ffactorau eraill yn y datganiad, e.e. darpariaeth arbenigol, gellir darparu cludiant i bobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu i deithio ymhellach na'u hysgol/coleg agosaf.

Mae'n bosibl y caiff cludiant am ddim ei gynnig i bobl ifanc sydd â chyflyrau meddygol difrifol sy'n effeithio'n ddifrifol ar eu gallu i symud, er nad ydyn nhw'n bodloni'r meini prawf pellter. Ym mhob achos, rhaid cael tystiolaeth feddygol i ategu'r cais.

**Costau teithio i rieni disgyblion sy'n mynychu ysgol y tu allan i Sir y Fflint ar sail eu Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig**

Os yw disgybl yn mynychu ysgol breswyl dros 100 milltir o'u cartref, bydd yr Awdurdod Lleol yn helpu gyda chostau teithio i ganiatáu i'r rhieni fod yn bresennol yn y cyfarfod Adolygu Blynyddol statudol, yn seiliedig ar y dull rhataf o deithio. Bydd yn:

- trefnu cludiant, neu'n
- gwneud taliad ariannol (sef 20c y filltir ar hyn o bryd), neu'n
- darparu tocyn (neu'n cynnig swm o arian cyfwerth â phrif y tocyn) i un neu'r ddau riant deithio yno ar drafnidiaeth gyhoeddus

Bydd cymorth o'r fath hefyd ar gael os bydd disgybl sydd fel arfer yn teithio mewn cerbyd a ddarperir ar gyfer grŵp, yn methu â theithio'r un pryd â'r grŵp oherwydd ei iechyd. Bydd angen ardystiad meddygol yn y cyswllt hwn. Ni fydd yr Awdurdod Lleol fel arfer yn helpu gyda chostau teithio ar gyfer digwyddiadau neu gyfarfodydd eraill.

**Diffiniad o feini prawf**

**Meini prawf ysgol addas**

Ysgol addas yw'r ysgol agosaf sy'n darparu addysg ar gyfer oed a gallu'r disgybl, yr ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf neu'r ysgol Wirfoddol agosaf.

Nid yw'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am gost cludiant:

- os yw rhieni'n dewis ysgol neu'r cyfleuster gwahanol i'r ysgol addas agosaf;
- os yw rhieni'n dewis ysgol a gynhelir gan Awdurdodau, oni bai mai'r ysgol honno yw'r ysgol agosaf;
- disgyblion sy'n byw y tu allan i Sir y Fflint ond sy'n cael eu haddysg yn un o ysgolion Sir y Fflint;
- mae gan yr Awdurdod drefniadau gydag awdurdodau cyfagos ar gyfer disgyblion Sir y Fflint sy'n mynd i ysgol dros y ffin gan mai honno yw'r ysgol addas agosaf.

**Meini Prawf Oed**

Nid oes ar yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb cyfreithiol dros ddisgyblion nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim.

- Nid yw'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant ar gyfer ddisgyblion sy'n mynd i ysgol feithrin neu ddosbarthiadau meithrin yn dair oed. Mae cludiant yn cael ei ddarparu o ddechrau'r flwyddyn ysgol pan fydd y plentyn yn troi'n bump oed.

- Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, i gael eu cludo am ddim i'r ysgol neu'r coleg addas agosaf fel y nodir yn y Polisi Cludiant.

**Meini Prawf ar gyfer Darparu Hebryngwr**

Mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod yn darparu Hebryngwr i ddisgyblion sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, sy'n gymwys i gael cludiant am ddim o dan y meini prawf uchod. Darperir hebryngwyr ar ôl i swyddogion perthnasol ystyried anghenion unigol disgybl neu grwpiau o ddisgyblion a natur y cludiant sydd ar gael.

**Gwneud cais am Gludiant Ysgol a Choleg**

Os ydych chi'n credu y gall eich plentyn fod yn gymwys i dderbyn cludiant ysgol am ddim, bydd angen i chi lenwi ffurflen gais. Mae angen gwneud cais pan fydd eich plentyn yn dechrau yn y dosbarth Derbyn, yn yr ysgol Uwchradd ac mewn cyfleuster addysg Ôl-16 ac nid yw'n ôl-weithredol. Bydd angen i chi wneud cais eto os bydd eich amgylchiadau'n newid mewn unrhyw ffordd yn ystod y cyfnod y bydd eich plentyn yn yr ysgol, neu os bydd cwrs eich plentyn yn newid. Mae ffurflenni cais ar gael ar yr www.siryfflint.gov.uk/ysgolion <http://www.siryfflint.gov.uk/ysgolion> neu gan yr Uned Cludiant Integredig, Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6LG (Tel: 01352 701234).

Dylid anfon cais am gludiant i'r coleg perthnasol (manylion isod). Gellir gwneud cais unrhyw adeg o'r flwyddyn er bod myfyrwyr yn cael eu hannog i wneud cais ar ddiwedd tymor yr haf cyn i'r cyrsiau ddechrau ym Mis Medi.

**Dull o Deithio**

Wrth benderfynu ar gludiant priodol, bydd angen cadw at yr egwyddorion a ganlyn:

- yr angen am gludiant arbenigol;

- Anghenion Ychwanegol y disgybl fel y'u diffinnir yn natganiad y disgybl.

Ym mhob achos, bydd y cludiant yn seiliedig ar y defnydd effeithiol o adnoddau (yn unol â'r amodau uchod). Gellir darparu cludiant drwy gyfrwng cytundeb gwasanaethau cludiant ysgol neu wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus arferol, a bydd natur y cludiant a ddarperir (bws, bws mini, trên, tacsi ac ati) yn dibynnu ar y gost. Weithiau, gall un bws ar gontract gludo disgyblion i fwy nag un safle ysgol.

Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosib y bydd yr Awdurdod Lleol yn talu rhieni (20c y filltir ar hyn o bryd) i gludo disgybl sy'n bodloni'r meini prawf i gyd, os penderfynir bod hynny'n fwy cost effeithiol.

**Codi a dychwelyd disgyblion**

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu fel arfer o safleoedd bws neu fannau codi penodol ar gyfer grwpiau o ddisgyblion. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd disgyblion yn cael cludiant drws i ddrws. Bydd y pellter y bydd disgwyl i ddisgybl gerdded rhwng ei gartref a'r man codi'n dibynnu ar oed y disgyblion, eu hanghenion unigol a natur y llwybr y disgwylir iddynt gerdded ar ei hyd.

**Cod Ymddygiad wrth Deithio**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi Cod Ymddygiad wrth Deithio sy'n orfodol i bob dysgwr hyd at 19 oed. Mae'n berthnasol i bob dull o deithio i/o sefydliadau addysgol. Rhaid i'r dysgwyr gydymffurfio â'r Cod yn ystod y daith. Yn unol â'r Cod, gellir dod â'r trefniadau teithio i ben os bydd ymddygiad dysgwr yn annerbyniol yn ystod y daith i/o'r ysgol neu goleg.

Bydd y gyrrwr, yn unol â'r weithdrefn y cytunwyd arni, yn rhoi adroddiad am unrhyw achos o gamymddwyn i'r Awdurdod Lleol ac i Bennaeth yr ysgol dan sylw. Bydd unrhyw ddigwyddiadau o'r fath yn cael eu harchwilio a bydd camau priodol yn cael eu cymryd, os bydd angen, gan gynnwys gwahardd y disgybl dros dro rhag defnyddio'r cludiant.

**Ysmygu ar Fysiau**

Ni chaniateir ysmygu ar unrhyw gerbyd sydd wedi'i gontractio i'r Cyngor i gludo disgyblion yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Ystyrir cymryd camau disgyblu yn erbyn unrhyw ddisgybl a gaiff ei ddal yn ysmygu ar fysiau ysgol neu goleg.

**Mae gan rieni gyfrifoldeb dros:**

- gludo'u plentyn rhwng y cartref a'r ysgol os nad ydynt yn gymwys i gael cludiant ysgol am ddim;
- gwneud cais am gludiant am ddim os yw'r plentyn yn gymwys;
- roi gwybod i'r Awdurdod Lleol a'r ysgol am unrhyw amgylchiadau newydd a allent effeithio ar y cludiant;
- sicrhau bod eu plentyn yn barod ac yn aros am y cludiant ar yr adeg a'r lle priodol. Cyfrifoldeb y rhieni yw mynd â'r plentyn at y cerbyd a'i gyfarfod pan ddaw'n ôl;
- sicrhau bod ymddygiad eu plentyn yn dderbyniol wrth ddefnyddio cludiant ysgol .

**Ymholiadau Cyffredinol am Gludiant**

Cludiant Ysgol
Strydwedd a Chludiant
Ffôn: 01352 701234
E-bost:school.transport@flintshire.gov.uk
Gwefan: **www.flintshire.gov.uk/schools/schooltransport**

**Colegau**

Coleg Cambria (Cei Connah)
Ffordd Celstryn
Cei Connah
Sir y Fflint
CH5 4BR
Ffôn: 01244 831531

Coleg Llandrillo
Swyddog Trafnidiaeth
Ffordd Llandudno
Llandrillo yn Rhos
LL28 4HZ
Ffôn: 01492 546666

Coleg Cambria (Iâl)
Ffordd Parc y Gelli
Wrecsam, LL12 7AB
Ffôn: 01978 311794

## 22. Gwybodaeth Gyffredinol ar gyfer Rhieni

**Y Cwricwlwm Cenedlaethol**
Yn ystod addysg gynradd ac yn ystod blynyddoedd cyntaf addysg uwchradd (Blynyddoedd 7,8 a 9) mae pob ysgol yn cynnig rhaglen gynhwysfawr a chytbwys sy'n cynnwys holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Yr amcan yw sicrhau sail gadarn o sgiliau sylfaenol, gwybodaeth a dealltwriaeth a hyrwyddo datblygiad personol pob disgybl.

Mae pob disgybl Blwyddyn 10 ac 11 yn parhau i astudio pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ond gyda pheth lle ar gyfer opsiynau i weddu talentau a diddordebau unigol y disgybl. Ymgynghorir yn llawn â rhieni ynglŷn â'r opsiynau hyn ac ynglŷn â pharhau ag addysg, hyfforddiant a chyfleoedd swyddi. Mae ymgynghorydd gyrfaoedd yn gysylltiedig â phob ysgol ac felly mae cwnsela a chyngor ar gael yn hawdd.

Mae ysgolion Sir y Fflint yn ceisio datblygu eu disgyblion yn academaidd, yn bersonol ac yn gymdeithasol. Mae gan bob ysgol strwythur bugeiliol sy'n darparu ar gyfer eu gofal a'u lles.

Ar ddiwedd cyfnod olaf eu haddysg orfodol mae pob ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion sefyll arholiadau cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sefyll arholiadau'r Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU). Hefyd mae rhai myfyrwyr yn dilyn cyrsiau galwedigaethol.

**Cyfleoedd cyfartal**
Mae'r Awdurdod Lleol yn credu bod cydraddoldeb wrth wraidd addysg o ansawdd ac y dylai pob unigolyn gael hawl cyfartal i ddatblygu a chyflawni eu potensial llawn trwy'n system addysgol. Bydd yr Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â phob grŵp sy'n cyfrannu at y sbectrwm addysg: disgyblion, prifathrawon a staff, llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned ehangach. Caiff addysg ei chyfeirio at ddatblygu'r bersonoliaeth ddynol yn llawn a chryfhau parch tuag at bawb.

**Disgyblaeth a Gwaharddiad**

Mae ysgolion yn ymwybodol eu bod yn rhannu gyda rhieni'r cyfrifoldeb dros ymddygiad y plant yn eu gofal. Mae rhieni'n cael eu cynnwys yn llawn pan fo ymddygiad yn dod yn fater o ofid. Does yna ddim cosb gorfforol. Mewn achosion eithriadol, gall prifathrawon wahardd plant o'r ysgol, unai am gyfnod penodol neu'n barhaol. Mae gan rieni'r hawl i gyflwyno sylwadau ynglŷn â gwaharddiad i Gorff Llywodraethol yr ysgol.

Yn achos gwaharddiad parhaol, mae gan rieni hawliau apêl ffurfiol. Dylai rhieni sydd eisiau mwy o wybodaeth ofyn am gyngor gan ysgol y plentyn neu'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yn Neuadd y Sir (01352 704056).

**Gweithdrefnau Cwynion**

Cyfrifoldeb yr ysgolion unigol yw delio â chwynion cyffredinol a gobeithir y byddai unrhyw bryderon sydd gan rieni yn cael eu datrys yn anffurfiol mewn trafodaeth gyda'r Prifathro.

Argymhellir bod unrhyw gwyn yn cael ei chodi gyda'r ysgol yn y lle cyntaf ac os oes angen, ei bod yn cael ei chyfeirio at y prifathro. Os na fydd y gwyn wedi ei datrys yna dylai'r mater gael ei gyfeirio'n ysgrifenedig at Gadeirydd y Llywodraethwyr. Mae gweithdrefnau cwynion ar gael o'r ysgol. Lle bo hynny'n briodol gall yr achwynydd ddod â'r mater o flaen Pwyllgor Apeliadau.

Yn achos Ysgolion a Reolir yn Wirfoddol a rhai a Gynorthwyir yn Wirfoddol bydd cynrychiolydd o'r Corff Esgobaethol perthnasol yn cael ei wahodd i fod yn bresennol yn unol â'r gweithdrefnau sefydledig pan fo cwyn yn cael ei hystyried. Petai'r gwyn yn ymwneud â materion crefyddol yna byddai'r drefn uchod yn cael ei dilyn ond byddai'r Pwyllgor Apeliadau hefyd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor Cynghori Sefydlog ar Addysg Grefyddol ac yn achos Ysgolion a Reolir yn Wirfoddol byddai Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth yn cael ei wahodd fel sylwedydd.

**Tiwtora yn y Cartref**

Darperir tiwtora yn y cartref mewn amgylchiadau eithriadol ar gyfer rhai plant, megis plant y rhagwelir y bydd angen iddynt yn aros adref yn gwella am gyfnod hir ar ôl arhosiad yn yr ysbyty, sydd â phroblemau meddygol sy'n debygol o'u rhwystro rhag mynychu'r ysgol.

Os teimlir bod tiwtora yn y cartref yn angenrheidiol, bydd cais yn cael ei anfon at y Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid, unai gan Brifathro'r plentyn neu'r Swyddog Lles Cynhwysiant lleol. Bydd y cais hwn yn cael ei ystyried yn unol â'r polisi cyfredol uchod.

**Dyddiad Gadael Ysgol**

Y diwrnod hwn yw'r dydd Gwener olaf yn y mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan fydd plentyn yn cael ei ben-blwydd yn 16.

Hyd y diwrnod hwnnw:

- Rhaid i rieni sicrhau cyfranogiad eu plentyn mewn addysg yn yr ysgol;
- Ni chaiff cyflogwyr gyflogi plentyn yn llawn amser;
- Ni chaiff darparwyr hyfforddi ddarparu hyfforddiant llawn amser wedi ei noddi gan y Llywodraeth.

Os ydych eisiau unrhyw wybodaeth bellach yn ymwneud ag unrhyw un o ysgolion neu bolisïau'r Awdurdod, dylech gysylltu â Phrifathro'r ysgol berthnasol, neu'r Corff Esgobaethol neu'r Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid.

**Gwyliau'r teulu yn ystod y tymor**

Ni ddylech fel arfer fynd â'ch plentyn ar wyliau yn ystod y tymor gan y gallai hyn darfu ar addysg eich plentyn ac ar yr ysgol. Dim ond Pennaeth yr ysgol neu rywun sydd a'r awdurdod priodol i wneud hynny all roi caniatâd i rieni fynd a phlentyn/plant ar wyliau yn ystod y tymor.

Gall ysgolion arfer eu disgresiwn i ganiatáu hyd at 10 diwrnod o absenoldeb wedi'i awdurdodi mewn blwyddyn ysgol os:

• bydd y rhiant y mae'r plentyn yn byw gyda nhw fel arfer yn gwneud cais i'r ysgol cyn y gwyliau
• oes rheswm arbennig dros y gwyliau

Ni all ysgol gytuno i fwy na 10 diwrnod o absenoldeb o'r ysgol mewn unrhyw un flwyddyn ysgol oni bai bod amgylchiadau eithriadol.
Dylai ysgolion ystyried pob cais am wyliau ar sail achos wrth achos. Gallant ystyried:

- pa adeg o'r flwyddyn fydd y gwyliau arfaethedig
- a yw'r gwyliau'n agos at ddyddiadau unrhyw arholiadau
- patrwm presenoldeb cyffredinol eich plentyn
- unrhyw wyliau a gymerwyd yn barod yn ystod y flwyddyn ysgol
- oed eich plentyn a'r cam addysgol y mae wedi ei gyrraedd
- eich dymuniadau chi
- gallu eich plentyn i ddal i fyny â'r gwaith maen nhw wedi ei fethu
- y rheswm pam yr ydych chi'n cymryd yr amser i ffwrdd yn ystod y tymor

Ni ddylai ysgolion ystyried:
• argaeledd gwyliau rhad
• argaeledd y llety gorau
• tywydd gwael yn ystod gwyliau'r ysgol
• y gwyliau'n gorgyffwrdd a dechrau neu ddiwedd y tymor